

Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol IGDC

Thu 28 September 2023, 16:00 - 17:00

Zoom

Agenda

16:00 - 16:00 1. Croeso a Chyflwyniadau

0 min


I'w nodi

Cadeirydd

1.1. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar gyfer 2022/23

I'w drafod

Prif Swyddog Gweithredol

 1.1. DHCW-AnnualReport-2022-2023-Cym.pdf (179 pages)

1.2. Arddangosiad a Rhagolwg IGDC 2022/2023 gan gynnwys Cyflwyniad ar y Sefyllfa Ariannol

i'w drafod

Tim Gweithredol IGDC

 1.2 22_23 DHCW AGM Slide Pack.pdf (27 pages)

1.3. Sesiwn Holi ac Ateb

I'w drafod

Bwrdd IGDC

1.4. Crynodeb a Chau

I'w nodi

Cadeirydd

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2022-23

Jolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

Iechyd a Gofal Digidol Cymru Digital Health and Care Wales

Tolley, Laura
21/09/2023



GIG
CYMRU
NHS
WALES | Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

CYNNWYS

- Adroddiad perfformiad
- Rhagair
- Trosolwg perfformiad
- Crynodeb o berfformiad
- Dadansoddiad o berfformiad
- Datblygu'r sefydliad
- Cyflwyno gwasanaethau gweithredol
- Datganiad cymdeithasol manwl
- Datganiad amgylcheddol
- Crynodeb ariannol
- Perfformiad ariannol
- Yr adroddiad atebolrwydd a'r cyfrifon
- Y datganiad llywodraethu blynyddol
- Adroddiad y cyfarwyddwyr ar gyfer
y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 mawrth 2023
- Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu
- Datganiad o gyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr
- Adroddiad ar dâl cydnabyddiaeth a staff
- Adroddiad staff
- Adroddiad atebolrwydd ac archwilio senedd cymru
- Tystysgrif archwilio ac adroddiad
- Archwilydd cyffredinol cymru
- Atodiad 1 - aelodaeth y bwrdd a phwyllgorau a phresenoldeb 1 ebrill 2022 i 31 mawrth 2023
- Atodiad 2 – swyddogion arweiniol
- Atodiad 3 - rhestr o gyfarfodydd y bwrdd, y pwyllgorau a'r Grŵp Cyngori 22/23
- Atodiad 4 – Cyfarwyddiadau Gweinidogol
- Atodiad 5- Datganiadau Ariannol a Nodiadau 2022/23

DARPARU TECHNOLEG DDIGIDOL AR GYFER GOFAL GWELL, CYSYLLTIEDIG ADRODDIAD PERFFORMIAD

RHAGAIR

gan y Cadeirydd, Simon Jones a'r Prif Swyddog Gweithredol,
Helen Thomas

Croeso i'n hadroddiad blynyddol ar gyfer 2022-2023.

Wrth i ni gwblhau ail flwyddyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig hoffem ddiolch i'n staff am eu cyfraniadau. Mae'n destun balchder mawr gweld y ffordd y mae staff yn addasu i heriau a chyfleoedd newydd, gan gadw gofynion cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn flaenllaw ym mhopeth a wnawn.

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru rôl unigryw, gan ddarparu'r systemau digidol a data cenedlaethol sy'n sail i'r gwasanaethau iechyd a gofal a ddefnyddir gan bob preswlydd yng Nghymru ar wahanol adegau yn eu taith iechyd a gofal.

Mae maint ein gwaith yn cynnwys systemau digidol, cofnodion iechyd electronig, cysylltedd, integreiddio a dadansoddeg data, sydd oll yn cyfrannu at y newidiadau trawsnewidiol sydd eu hangen ar gyfer iechyd a gofal cynaliadwy.

Dros y 12 mis diwethaf mae datblygiad gwasanaethau digidol mawr newydd wedi symud ymlaen yn gyflym. Datblygiadau i wella canlyniadau, cryfhau gwytnwch, cael gwared ar ôl-groniadau a helpu gyda mynediad at wasanaethau.

Dechreuodd y gwaith ar ddull cwbl ddigidol o ragnodi a rheoli meddyginiaethau ac aeth Ap GIG Cymru i mewn i gyfnod profion defnyddwyr. Bydd cam cyntaf yr Ap dwyieithog yn rhoi mynediad i bobl at amserlennu apwyntiadau, canlyniadau profion a phresgripsiynau rheolaidd, yn uniongyrchol o'r ddyfais symudol, neu o dabled neu liniadur.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Gyda gwasanaethau digidol at ddefnydd cleifion yn dod yn fwy a mwy amlwg rydym yn gweithio i alluogi cynhwysiant digidol yng Nghymru. Ym mis Medi roeddem yn falch o lofnodi'r Siarter Cynhwysiant Digidol yn ein Uwch gynhadledd Ddigidol gyntaf, a ddaeth ag iechyd, gofal ar sector gwirfoddol at ei gilydd i gydweithio ynghylch sut y gall offer digidol gefnogi a galluogi cynhwysiant digidol.

Gan adeiladu ar ein nod strategol i ehangu'r cofnod iechyd digidol, aeth cam cyntaf y system newydd i gefnogi gofal i gleifion canser yn fyw ym mis Tachwedd. Roedd gwelliannau i Borth Clinigol Cymru – cartref yr un cofnod iechyd digidol – yn cynnwys cofnodion electronig a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer pobl â diabetes a'r rhai sydd angen gofal arenol.

Gan nad yw gwelliant fyth yn darfod, parhawyd i gyflwyno Cofnod Gofal Nyrsio Cymru sydd wedi ennill sawl gwobr, ac sy'n galluogi nyrsys i ddefnyddio technoleg fodern i ddogfennu gofal cleifion.

Mae llawer i'w wneud o hyd, ac mae'r sector iechyd a gofal yn parhau i fod dan bwysau dwys yn dilyn y pandemig, a dyna pam ein bod yn canolbwyntio ar bartneriaethau cynhyrchiol i greu systemau ystyrlon sy'n gosod profiad defnyddwyr a chleifion yn ganolog.

Mae elfen allweddol o'n gwaith hefyd yn cynnwys gwell defnydd o ddata i lywio sut y gall y GIG yng Nghymru wella canlyniadau iechyd a rheoli'r pwysau sylweddol ar wasanaethau gofal iechyd yn ogystal â heriau poblogaeth sy'n heneiddio a mwy o bobl â chyflyrau lluosog.

Bydd y Platfform Adnoddau Data Cenedlaethol yn dod â data iechyd a gofal o bob rhan o Gymru ynghyd gan eu gwneud yn haws i'w rhannu a'u dadansoddi.

Dim ond cipolwg yw hwn o'r gwaith a wnawn, ac mae mwy o fanylion am ein portffolio cynyddol yn yr adroddiad hwn.

Fel sefydliad blaengar, roeddem yn falch iawn o ennill y Lle Gorau i Weithio ym maes TG yng Ngwobrau Diwydiant Cymdeithas Cyfrifiaduron Prydain y DU 2022; clod gwirioneddol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r bobl sy'n gweithio yma.

Edrychwn ymlaen at barhau â'n cynnydd dros y flwyddyn nesaf, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddarparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf a chyfuno digidol a data fel pileri allweddol gwasanaeth gofal iechyd modern.



Simon Jones Cadeirydd a Helen Thomas Prif Swyddog
Gweithredol a Swyddog Atebol

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

FFEITHIAU ALLWEDDOL 2022 -2023

CYLLIDEB FLYNYDDOL: **Cyfanswm o £151,144m**

NIFER Y STAFF: **1113 o staff parhaol**

GWASANAETHAU DIGIDOL CENEDLAETHOL

- Dewis Fferyllfa
- Uned Seibergadernid GIG Cymru
- Canolfannau Data
- Cofnod Iechyd a Gofal Digidol
- Atgyfeiriadau Electronig
- Trosglwyddo Presgripsiynau yn Electronig (ETP)
- Gwasanaethau e-Lyfrgell ar gyfer gweithwyr proffesiynol
- e-Bresgripsiynu
- Gwasanaethau System Meddygon Teulu
- Microsoft 365
- Adnodd Data Cenedlaethol
- Ap GIG Cymru
- System Rheoli Gwybodaeth Radioleg
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- System Adrannau Argyfwng Cymru
- System Rheoli Stoc Fferylliaeth Ysbytai Cymru
- System Imiwneiddio Cymru, Cofnod Pandemig Cymru a Phas Digidol Covid-19
- System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru
- Cofnod Gofal Nyrsio Cymru
- System Gweinyddu Cleifion Cymr

RYDYM YN GWEITHIO GYDA

- Sefydliadau addysg bellach ac uwch
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Sefydliadau eraill GIG Cymru
- Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Partneriaid diwydiant
- Hwb Gwyddorau Bywyd
- Awdurdodau Lleol
- Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol
- Uned Cefnogi Comisiynu Gogledd-ddwyrain Llundain
- GIG Lloegr
- Swyddfa Ystadegau Gwladol
- Cyrff perthnasol eraill ar draws y gwledydd datganoledig
- Coleg Brenhinol y Meddygon
- Llywodraeth Cymru
- Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (WIDI)
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Cyrff rheoleiddio a phroffesiynol eraill

RYDYM YN CEFNOGI

- Pob bwrdd iechyd, ymddiriedolaeth, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddion, a charchardai

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

EIN BLWYDDYN MEWN RHIFAU

DEFNYDDWYR DIGIDOL

Mae **34,955** o ymarferwyr yn defnyddio'r

Cofnod Iechyd a Gofal Digidol i gael y wybodaeth gydgysylltiedig orau bosibl am ofal cleifion

Roedd **17,410** o ddefnyddwyr misol yn defnyddio Cofnod Gofal Nyrsio Cymru: gan leihau dyblygu, cynyddu diogelwch cleifion a ryddhau amser nyrsys i ofalu am gleifion

Roedd **18,840** o ddefnyddwyr yn defnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru, gan rannu data a gwybodaeth cleifion rhwng iechyd a gofal cymdeithasol i gael canlyniadau gwell

Mae **5,414** o ddefnyddwyr System Rheoli Gwybodaeth Labordy Cymru yn prosesu a rheoli dros **38 miliwn** o brofion patholeg ar draws labordai yng Nghymru

Mae yna **2,484** o ddefnyddwyr System Rheoli Stoc Fferylliaeth Ysbytai Cymru: rheoli cyffuriau yn electronig, i leihau gwastraff a chynyddu diogelwch

Mae **36,307** o ddefnyddwyr System Gweinyddu Cleifion Cymru: rheolaeth ddigidol o apwyntiadau ysbyty ac arosiadau cleifion mewnol mewn ffordd effeithlon ac effeithiol

GWASANAETHAU, DOGFENNAU A GHANLYNIADAU

Edrychwyd ar dros **59,000** o ganlyniadau profion endosgopi gan ymarferwyr gofal iechyd ym Mhorth Clinigol Cymru: gan gyfoethogi'r wybodaeth sydd ar gael ar gyfer gofal gwell a mwy diogel

Cynhyrchwyd dros **2.5 miliwn** o ganlyniadau ac adroddiadau yn dilyn pelydrau-x a delweddau digidol eraill ar draws GIG Cymru: gan alluogi ymarferwyr i wneud diagnosis o gleifion a gweld eu canlyniadau a'u hadroddiadau yng nghofnod digidol y claf.

Cynyddodd nifer y dogfennau cleifion clinigol a storiwyd yn ddigidol o **39 miliwn** i dros **45 miliwn**: dyna 45 miliwn o ddogfennau nad oes angen eu cadw ar bapur mwyach

Mae yna **103** o wasanaethau digidol sy'n sail i wasanaethau rheng flaen ac sy'n galluogi ymarferwyr iechyd a chymunedol i drin a gofalu am ddinasyddion gyda'r wybodaeth gywir ar flaenau eu bysedd, waeth beth fo'u lleoliad daearyddol

Bu **220,000** o alwadau i'n Desg Wasanaeth, o geisiadau syml i faterion cymhleth, gyda thargedau datrys i leihau aflonyddwch ar y GIG

GWEITHGARWCH DIGIDOL

Cynhaliwyd dros **259,000** o ymgynghoriadau ar gyfer anhwylderau cyffredin ar draws fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru, gan ryddhau amser i feddygon teulu ymdrin ag anghenion cleifion oedd angen sylw ar fwy o frys

Cwblhawyd mwy nag **1.8 miliwn** o asesiadau poen, a thros **394,000** o asesiadau ar gyfer briwiau pwyso yng Nghofnod Gofal Nyrsio Cymru: gan gefnogi rheolaeth reolaidd o boen cleifion yn ystod eu harhosiad yn yr ysbyty

Mae cofnod Meddyg Teulu dros **55,000** o drigolion Cymru yn cael ei weld bob mis mewn ysbytai, sy'n golygu y gall eu hymarferydd wneud penderfyniadau gwell am eu gofal

Galluogwyd **9 miliwn** o frechiadau COVID-19 gan System Imiwneiddio Cymru, gan leihau effaith y firws ledled Cymru

EIN GWELEDIGAETH...

Darparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf, gan rymuso pobl i fyw bywydau iachach..

EIN PWRPAS...

Trawsnewid iechyd a gofal i bawb yng Nghymru.

Tolle Laura
21/09/2023 12:23:15

PWY YDYM NI A BETH RYDYM NI'N EI WNEUD

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn Awdurdod Iechyd Arbennig newydd sydd â rôl bwysig wrth drawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu.

Fe'n sefydlwyd o dan statud ar 1 Ebrill 2021, ac rydym yn cael ein hariannu'n bennaf gan Lywodraeth Cymru ac yn gweithio'n agos ac mewn partneriaeth â byrddau ac

ymdiriedolaethau iechyd, gofal sylfaenol, gofal cymdeithasol, gwyddorau bywyd, diwydiant a'r byd academiaidd.

Ein nodau yw ei gwneud yn haws i staff ddarparu gofal, galluogi gwell canlyniadau a phrofiadau i gleifion a helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u gofal eu hunain.

EIN SEFYDLIAD

Fel aelod allweddol o deulu GIG Cymru mae ein gwaith yn cael effaith amlwg, fel y gwelir drwy'r 103 o wasanaethau gweithredol a ddefnyddir bob dydd i gefnogi iechyd a gofal ac i gyflawni'r cofnod iechyd digidol sengl.

Rydym yn gweithio'n gyflym ac yn ystwyth i ddatblygu cynhyrchion newydd, i wella gwasanaethau, ac i ymateb i ofynion digidol nas rhagwelwyd, yn ogystal â chyflawni yn erbyn anghenion hirdymor trawsnewid digidol o fewn GIG Cymru.

Yn ystod y flwyddyn daeth y gwaith o recriwtio ein tîm gweithredol i ben a phenodwyd rhai Aelodau Annibynnol newydd i'n Bwrdd, wrth barhau i fireinio ein gweledigaeth, ein cenadaethau a'n portffolios cyflawni drwy ein cynllun strategol, sy'n cefnogi blaenoriaethau system iechyd a gofal Cymru.

Mae pobl wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud, felly roeddem yn falch o ennill gwobr Lle Gorau i Weithio ym maes TG y DU Cymdeithas Gyfrifiadurol Prydain ar gyfer 2022 - canmoliaeth i'r sefydliad a phawb sy'n gweithio i Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Rhoddodd y beirniaid farciau uchel am ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal â sgiliau a datblygiad gyrfa'r staff.

Mae ein model gweithredu hybrid yn golygu bod mwyafrif ein staff yn gweithio o bell am y rhan fwyaf o'r wythnos, tra mae'r rhai y mae'n well ganddynt weithio o'r swyddfa yn gallu gwneud hynny.

Rydym wedi ein strwythuro i saith cyfarwyddiaeth:

- Strategaeth Ddigidol
- Gwasanaethau Gweithredol
- Clinigol
- Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl
- Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Cyllid a Sicrwydd Busnes
- Llywodraethu Corfforaethol a Chyfathrebu

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

EIN RÔL YW

- **Cefnogi staff llinell flaen iechyd a gofal** gyda systemau modern o ansawdd uchel a mynediad diogel at wybodaeth am eu cleifion, sydd ar gael lle bynnag maen nhw ei angen
- **Darparudatrysiadau digidol newydd** sy'n helpu staff clinigol i ofalu am gleifion, gan gynnwys gwasanaethau digidol newydd i nyrsys, unedau gofal critigol, fferylliaeth mewn ysbytai, rhagnodi a rheoli meddyginiaethau a gofal cymunedol
- **Defnyddio data** i roi mewnwelediad a gwella canlyniadau, yn ogystal â chefnogi sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cael eu darparu a sut mae cleifion yn cael mynediad atyn nhw
- **Helpu pobl Cymru i reoli eu hiechyd eu hunain** a gwella o salwch, gyda mynediad at eu cofnod iechyd digidol eu hunain ac apiau o unrhyw ddyfais, gan ei gwneud yn haws cysylltu â gwasanaethau iechyd a gofal
- **Brwydro yn erbyn seiberdroseddu** a gefnogir gan uned seibergadernid bwrpasol a gynhelir ar ran Llywodraeth Cymru
- **Defnyddio safonau digidol a data** i allu datblygu a darparu gwasanaethau digidol yn gyflymach
- **Diogelu asedau data gwerthfawr** trwy foderneiddio'r ffordd y caiff data eu cadw a rhoi polisi 'cwmwl yn gyntaf' ar waith
- Darparu'r **seilwaith technegol a'r platfform** cadarn sydd eu hangen, gan ddefnyddio'r safonau diogelwch uchaf, er mwyn gallu darparu gwasanaethau digidol a data ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru

BLAENORIAETHAU STRATEGOL 2022-23

Galluogi Trawsnewid Digidol

Rydym yn darparu platfform ar gyfer trawsnewid digidol trwy ddiogelu data, seilwaith a gwybodaeth, a thrwy agor pensaerniaeth GIG Cymru i alluogi rhannu data yn gyflymach gyda phartneriaid a chyflenwyr, gan gefnogi gofal cyson cydgysylltiedig.

Darparu technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd uchel

Wrth i dechnoleg ac anghenion iechyd a gofal esblygu, rydym yn datblygu ac yn darparu gwasanaethau safonedig i ddarparwyr iechyd a gofal Cymru, yn ogystal â darparu gwasanaethau newydd yn gyflym i ymdopi â sefyllfaoedd nas rhagwelwyd, wrth gefnogi effeithlonrwydd a gwelliannau mewn prosesau gofal yr un pryd.

Ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y cofnod iechyd a gofal digidol

Mae gwybodaeth glinigol a gofal iechyd i ddinasyddion yng Nghymru ar gael i'w darparwyr gofal drwy'r cofnod iechyd a gofal digidol, pryd bynnag a lle bynnag y bo ei hangen, gan helpu i wella ansawdd triniaeth. Wrth symud ymlaen, bydd mwy o elfennau'r cofnod ar gael yn uniongyrchol i ddinasyddion.

Sbarduno gwerth ac arloesedd ar gyfer canlyniadau gwell a gofal Seiliedig ar Werth

Mae'r angen am ddata cywir ar gyfer mewnwelediadau a dadansoddeg yn bwysicach nag erioed i wella iechyd a gofal. System wedi'i sbarduno gan ddata sy'n cynyddu gwerth mewn gofal iechyd trwy wybodaeth amserol i helpu i wneud penderfyniadau a sicrhau canlyniadau gwell.

Bod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol sy'n perfformio'n dda ac sy'n cefnogi ein gweithlu a'n rhanddeiliaid.

Mae bod yn un o sefydliadau GIG Cymru yr ymddiriedir ynddo yn allweddol i gyflawni gweledigaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn llwyddiannus a chyflawni popeth a ddisgwylir gennym.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

SUT RYDYM YN EI WNEUD

Nod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw bod yn gyflogwr rhagorol ac yn lle gwych i weithio.

Mae datblygu ein pobl yn rhan allweddol o'n cenadaethau strategol. Mae cefnogi datblygiad talent, arweinyddiaeth dosturiol, a datblygiad parhaus yn llinyn euraidd sy'n rhedeg trwy bopeth a gyflwynir eleni ac a gynllunnir ar gyfer y dyfodol.

Lansiwyd ein Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol (OD) ym mis Hydref 2022, gan roi arwydd clar o bwysigrwydd y gweithlu presennol ac ar gyfer denu a chadw talent newydd.

Ein Gweledigaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol:



Yn ystod 2022-2023 rydym wedi canolbwyntio ar roi'r blociau adeiladu canlynol ar waith i gefnogi'r sefydliad i ddod yn:

- gyflogwr o ddewis
 - sefydliad dysgu - cefnogi cymwysterau, deall bylchau sgiliau a buddsoddi mewn datblygiad parhaus, gwelliant, a chaffael sgiliau
 - un sy'n cael ei gydnabod am ei arweinyddiaeth, datblygu talent a diwylliant
 - sefydliad y mae ei waith cynllunio gweithlu yn cefnogi gwneud penderfyniadau, recriwtio yn y proffesiynau cywir, canolbwyntio ar archwilio a rheoli risg, a buddsoddiadau mewn bylchau sgiliau allweddol
 - sefydliad sydd wedi ymrwymo i ddatblygu ffyrdd newydd cefnogol o weithio ochr yn ochr ag uwchsgilio rheolwyr i weithio'n wahanol gyda'r dull gweithio hybrid, er mwyn cael y gorau o ymdrechion pawb a chyflawni safonau uchel o berfformiad yn unigol ac fel tîm
 - sefydliad sy'n buddsoddi mewn ymgysylltu amrywiol, gweithio mewn partneriaeth a diwylliant o wrando a dysgu
 - un sy'n cael ei gydnabod fel sefydliad sydd â mentrau llesiant cefnogol i bawb
- Mae polisiau a strategaethau gweithlu newydd a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn wedi'u llunio mewn gwir bartneriaeth â'r undebau llafur a'r gweithlu ehangach, gan gynnwys rhanddeiliaid a rhwydweithiau allanol.


Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

EIN DIWYLLIANT, GWERTHOEDD AC YMDDYGIADAU

Mae bod yn bartner dibynadwy yn elfen hanfodol ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth a'n gwerthoedd yn llwyddiannus ac ar gyfer cyflawni popeth a ddisgwylir gennym.

Mae ein harweinwyr yn cael eu herio i fod yn emosiynol ddeallus, i groesawu newid a cheisio arloesi a gwelliant parhaus i gyflawni'r canlyniadau y mae ein rhanddeiliaid yn eu gwerthfawrogi a'u heisiau, gan ysbrydoli ac annog eu timau i wneud yr un peth.

Mae gwerthoedd yn cael effaith gadarnhaol ar ein hunaniaeth yn fewnol ac yn allanol ac maent yn hanfodol i lywio ein diwylliant.



Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Ym mis Mawrth 2023 lansiodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd gennym sy'n ymgorffori ymrwymadau gwrth-fwlio a gwrth-hiliaeth sefydliadol. Mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac mae'n cynnwys ystod o ymrwymadau newydd i'w cyflawni dros y blynyddoedd i ddod.

| | | |
|------------------------------|--|---|
| Denu a Chadw | Denu'r bobl orau, dulliau newydd Cronfa o dalent cartref Cadw amrywiaeth – Rhwydwaith EDI | Ymgyrchoedd marchnata recriwtio arloesol ac amrywiol newydd Dadansoddi data recriwtio |
| Gwrth-hiliaeth | Cofleidio gwahaniaethau Cydnabod - hyrwyddo manteision Diwylliant cynhwysol ac amrywiol | Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fis Mai 2023 Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb Monitro dadansoddi'r gweithlu |
| Gwrth-fwlio | Arweinyddiaeth diwylliant tosturiol Ymddygiad sy'n adlewyrchu gwerthoedd IGDC Teg, agored ac ymatebol | Dim goddefgarwch tuag at fwlio ac wedi ymrwymo i ddull partneriaeth Arolygon staff ac arolygon pwls Monitro trwy POD/ED/TUS |
| Cyfleoedd i Ddatblygu | Sefydliad Dysgu IGDC Hygyrch a chefnogol i bawb Talent a chynllunio olyniaeth | Monitro talent/sgiliau Tyfu eich Graddedigion/ Prentisiaethau eich hun Cynlluniau gweithlu strategol / dadansoddiad o anghenion hyfforddi |

Merched yw 42 y cant o'n cyflogeion, a 50 y cant o'n Bwrdd o Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. **Cyfartaledd diwydiant TG y DU yw 23 y cant**, a dim ond pump y cant ohonynt sydd mewn swyddi arwain, ond mae mwy o waith i'w wneud i wella amrywiaeth mewn meysydd technegol, ac i ystyried yr angen am y safbwynt benywaidd wrth ddatblygu cynhyrchion technegol o fewn iechyd a gofal.

Daw wyth y cant o'n gweithlu o gymuned ddu, Asiaidd neu leiafrifol ethnig a'n nod yw cynyddu'r nifer hwn.

Mae cofleidio gwahaniaeth a chynnwys pawb yn rhan sylfaenol o ddatblygu cymuned ein gweithle ac mae hynny'n golygu adeiladu a datblygu timau sy'n amrywiol a chynhwysol, waeth beth fo'u hoedran, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu ethnigrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu diwylliant sefydliadol cynhwysol ac amrywiol ac amgylchedd gwaith gwych, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, yn cael y cyfle i ddatblygu, cael eu clywed, a chael dealltwriaeth glir o'r rhan y maent yn ei chwarae wrth gyflawni ein gweledigaeth a'n canlyniadau - gan gyfrannu at ein gwerth wrth ddarparu profiad defnyddiwr heb ei ail - a dyna pam, o fis Ebrill 2023 ymlaen, bydd gennym rwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) newydd, yn cefnogi ac yn dathlu pawb o fewn y gweithlu, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer mewnbyn a llais y gweithwyr.

CYNLLUNIO'R GWEITHLU YN STRATEGOL

Yn dilyn Adolygiad Gweithlu Digidol Llywodraeth Cymru yn 2022, byddwn yn dechrau ar y gwaith sydd ei angen i ddatblygu'r proffesiwn digidol ar draws GIG Cymru, gan sicrhau ein bod yn adeiladu gweithlu ar gyfer y dyfodol.

Bydd hyn yn cefnogi llwybrau gyrfa clir, rolau swyddi cyson a buddsoddiad allweddol mewn hyfforddiant a datblygiad, uwchsgilio a datblygu sgiliau digidol blaengar, gan gefnogi rhaglenni trawsnewid cenedlaethol o 2023 ymlaen.

Mae ein partneriaeth ag Athrofa Cymru ar gyfer Gwybodaeth Ddigidol (WIDI) yn sail i'n cydweithrediad â'r sector prifysgolion. Mae cynllun manwl sy'n ymateb i anghenion cylch cynllunio'r gweithlu 2023 yn cael ei ddatblygu i dargedu a chefnogi'r proffesiwn digidol ledled Cymru, ac i ddarparu cronfeydd cadarn o dalent newydd.

Wedi ymrwymo i 'dyfu ein gweithlu ein hunain' a chefnogi cenedlaethau'r dyfodol, rydym yn cynnig dysgu a datblygiad i holl bobl Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar bob cam o'u gyrfa.

Bydd ein hymrwymiad i raddedigion a phrentisiaethau yn cynyddu ymhellach yn 2023, gyda'r hyn a ddysgir o gylch cynllunio'r gweithlu yn strategol yn cael ei ddefnyddio i lywio ein gwaith gyda'r sector addysg.



Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Y GYMRAEG

Sefydlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau. Roedd yn ofynnol yn flaenorol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (fel hen Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru) gydymffurfio â'r safonau hyn fel un o gyrff a gynhelid gan Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre. Daeth y gofyniad hwn i ben pan sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a oedd wedyn, fel Awdurdod Iechyd Arbennig heb safonau wedi'u cyhoeddi, yn gorfod datblygu Cynllun Iaith Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i weithio i'r safonau wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Iaith Gymraeg.

Yn ystod 2022-23 buom yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i gytuno ar ein Cynllun Iaith Gymraeg sy'n ein hymrwymo i ddarparu lefel o wasanaethau Gymraeg sy'n cyfateb i Safonau'r Gymraeg sy'n cael eu mabwysiadu gan sefydliadau cyhoeddus tebyg yng Nghymru.

Nod y Cynllun Iaith Gymraeg newydd yw:

- rhoi mwy o eglurder i'r sefydliad ynglŷn â'i ddyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg
- rhoi arweiniad i siaradwyr Gymraeg ynglŷn â'r gwasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gwreiddio yn y broses o ddarparu a datblygu gwasanaethau

Mae'r gweithgareddau yr ymgymerir â nhw ledled y sefydliad i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn weithredol yn cynnwys:

- datblygu tîm amlddisgyblaethol, sy'n cynnwys siaradwyr Gymraeg. Arweinir y tîm gan Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Gwasanaethau'r Gymraeg i sicrhau bod gofynion y Gymraeg yn cael eu hystyried ym mhob datblygiad presennol a newydd.
- datblygu a gweithredu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- datblygu ymateb Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gynllun 5 mlynedd grŵp gorchwyl a gorffen Mwy Na Geiriau

- cynnal cytundeb lefel gwasanaeth gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru ar gyfer gwasanaethau cyfieithu
- sefydlu cytundeb lefel gwasanaeth i ddarparu cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd bwrdd sy'n cael eu ffrydio'n fyw
- cynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg gydag ymchwiliadau
- sicrhau bod cyrsiau Gymraeg ar gael i bob aelod staff (o lefel blasu i gyrsiau preswyl uwch)
- datblygu tudalen Gymraeg newydd ar SharePoint ymhellach i roi arweiniad i aelodau staff sydd am ddeall eu dyletswyddau deddfwriaethol ac archwilio cyfleoedd i ddysgu a gwella eu sgiliau Gymraeg
- ymgysylltu â datblygiadau newydd megis Ap GIG Cymru a'r system Mamolaeth

Rydym wedi ymrwymo i ychwanegu at yr hyfforddiant a'r gweithgareddau Gymraeg a ddarperir gennym ar hyn o bryd i hybu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Mae 96% o staff wedi diweddarau eu sgiliau Gymraeg ar y Cofnod Staff Electronig

Mae 92% o staff wedi cwblhau cwrs ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae ychydig dros 12% o staff yn siarad Gymraeg ar lefel 2 neu uwch Swyddi Newydd a Gwag

Dosbarthwyd nifer y swyddi fel a ganlyn:

- Sgiliau Gymraeg Hanfodol = 6
- Mae angen dysgu sgiliau Gymraeg = 0
- Sgiliau Gymraeg yn ddymunol = 470
- Nid yw sgiliau Gymraeg yn angenrheidiol = 7

Ni chafwyd unrhyw gwynion am y Gymraeg yn ystod y cyfnod 2022-23

FFRAMWAITH CYNLLUNIO BLYNYDDOL 2022-2023

Ym mis Tachwedd 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau ynghylch y fframwaith cynllunio, gan ddychwelyd at Gynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd i ddisodli trefniant cynllun blynyddol y flwyddyn flaenorol.

Cymeradwywyd y [Cynllun Tymor Canolig Integredig](#) gan ein Bwrdd, fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2022 a'i dderbyn a'i nodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2022. Darparwyd adborth gan Lywodraeth Cymru fel set o ofynion ac amodau atebolrwydd, a ddisgrifir yn ein Hadroddiad Atebolrwydd.

RISG SEFYDLIADOL A LLYWODRAETHU

Mae rheoli risg yn elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol sy'n cryfhau ein gallu i gyflawni ein hamcanion.

Mae ein Strategaeth Fframwaith Risg a Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'r dull sefydliadol o ymdrin â'r prif risgiau i'r amcanion strategol a sut y bydd y Bwrdd yn cael sicrwydd ynglŷn â'r prif risgiau hynny.

Cefnogir y strategaeth hon gan system rheoli risg ar draws y sefydliad sy'n galluogi ac yn grymuso staff i nodi, asesu, rheoli a, lle bo angen, uwchgyfeirio risgiau. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

RISGIAU ALLWEDDOL I'N CYNLLUN

- Mae cyflawni a chynnal sefyllfa ariannol gynaliadwy yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau gofal iechyd digidol diogel, sicr, hygyrch a dibynadwy.
- Mwy o bwysau o ran costau, gan gynnwys chwyddiant digidol a dyled dechnegol
- Recriwtio a chadw'r bobl iawn yn y rolau cywir ac addasu'r gweithlu i sefydliad digidol modern ac ymatebol
- Newid system CaNISC i gefnogi gofal lliniarol a llwybrau sgrinio.
- Risg o oedi cyn gweithredu gwasanaeth Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC).
- Mae ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru angen sail gyfreithiol glir a chyfarwyddyd i ddefnyddio data yn y system gofal iechyd
- Model seilwaith cynaliadwy sy'n darparu argaeledd uchel, dibynadwyedd a chapasiti i gefnogi disgwyliadau cynyddol
- Cyflawni yn erbyn disgwyliadau cynyddol wrth gynyddu'r gweithlu yn gyflymach; rhannu risg gyda chyflenwyr a rhanddeiliaid
- Mwy o fygythiadau Seiber, yn enwedig meddalwedd wystlo (ransomware) a'r rhyfel yn Wcrain

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

CYD-DESTUN GWEITHREDU

Mae ein cynllun a'n hamcanion wedi'u seilio ar ddogfennau cyfreithiol a pholisi. Mae'r rhain yn cynnwys:

- [Cymru Iachach](#) – cynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- [Strategaeth Ddigidol](#) i Gymru – Gweledigaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer mabwysiadu dull digidol ar y cyd o foderneiddio gwasanaethau cyhoeddus.

Ffigur 1 - Cenadaethau a phortffolios IGDC

CENADAETHAU A PHORTFFOLIOS IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU 2022-23 WEDI'U MAPIO I FLAENORIAETHAU GWEINIDOGOL A'R RHAGLEN LYWODRAETHU GALLUOGI TRAWSNEWID DIGIDOL

1. ARGAELEDD A LLIF GWYBODAETH:

Datblygu agwedd 'llwyfan agored' at arloesi digidol, drwy ymateb i safonau cenedlaethol ar gyfer sut mae data, meddalwedd a thechnolegau'n gweithio gyda'i gilydd, a sut mae partneriaid allanol yn gweithio gyda'r llwyfan digidol cenedlaethol a'r adnodd data cenedlaethol.

2. DIOGELU DATA CLEIFION:

Datblygu fframwaith, safonau a mecanweithiau Llywodraethu Gwybodaeth a Seiberddiogelwch, sy'n blaenoriaethu diogelwch a chyfrinachedd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac yn diogelu data rhag bygythiadau allanol a mewnol, gan arwain at gadw data yn ddiogel a gallu ymddiried yn GIG Cymru i edrych ar ôl gwybodaeth bersonol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

3. SEILWAITH CYNALIADWY:

Datblygu a chynnal seilwaith cenedlaethol o ansawdd uchel, gan drosglwyddo i'r cwmwl er mwyn sicrhau gwell argaeledd, dibynadwyedd, diogelwch, gwarchodaeth, cyflymder ac ystwythder.

Mae ein cynllun hefyd yn cynrychioli gofynion y Blaenoriaethau Gweinidogol ehangach a'r Rhaglen Lywodraethu. Mae'r diagram canlynol yn egluro sut mae Cenadaethau a Phortffolios Strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Gweinidogol a Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru:

Technoleg newydd sy'n cefnogi cyngor a thriniaethau cyflym ac effeithiol.

Cyflwyno e-ragnodi

Canfod clefydau trwy ddeallusrwydd artifisial

1. Llywodraethu ac Arweinyddiaeth Sefydliadol
2. Map Trywydd Strategol
3. Datblygu ein Gallu a'n Capasiti Digidol

DOD YN BARTNER STRATEGOL DIBYNADWY ac yn sefydliad sy'n perfformio'n dda, yn gynhwysol ac yn uchelgeisiol

CYLLID Y GIG A RHEOLI O FEWN ADNODDAU

4. Cryfhau Perthynas â Rhanddeiliaid
5. Y Gymraeg
6. Ansawdd, Rheoleiddio a Gwella Gwasanaethau

Tolley, Laura
21/09/2023 12:38

4. GRYMUSO GWEITHWYR GOFAL IECHYD DIGIDOL PROFFESIYNOL:

Gwella ac ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol, ar draws ffiniau byrddau iechyd a daearyddol a chefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth a chysylltedd gan ddefnyddio e-lyfrgell GIG Cymru a chyfres Microsoft Office 365.

5. GRYMUSO CLEIFION YN DDIGIDOL:

Datblygu fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth a Seiberddiogelwch, safonau a mecanweithiau sy'n blaenoriaethu diogelwch a chyfrinachedd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, ac yn diogelu data rhag bygythiadau allanol a mewnol, gan arwain at ddata'n aros yn ddiogel ac ymddiried yn GIG Cymru i gadw gwybodaeth bersonol cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

EHANGU CYNNWYS, ARGAELEDD AC YMARFEROLDEB Y COFNOD IECHYD A GOFAL DIGIDOL


SBARDUNO GWERTH AC ARLOESIEDD AR GYFER CANLYNIADAU GWELL A GOFAL SY'N SEILIEDIG AR WERTHE

11. YMCHWIL AC ARLOESI :

Darparu mewnwelediadau ymchwil ac arloesedd ar gyfer gwella gwasanaethau

12. GWERTH O DDATA:

Sbarduno gwerth o ddata er mwyn cael canlyniadau gwell i gleifion a chynllunio gwasanaethau yn well.



6. IECHYD Y CYHOEDD:

Datblygu, gweithredu a chynnal set o wasanaethau digidol cenedlaethol o ansawdd uchel i gefnogi Rhaglenni atal ac ymyrraeth gynnar lechyd y Cyhoedd.

7. IECHYD SYLFAENOL, CYMUNEDOL A MEDDWL:

Creu seilwaith digidol ar draws gofal sylfaenol a chymunedol drwy ddatblygu, gweithredu a chynnal set o wasanaethau digidol cenedlaethol o ansawdd uchel sy'n adlewyrchu modelau newydd o ofal lleol, yn nes at y cartref.

CEFNOGI'R GWEITHLU IECHYD A GOFAL DARPARU TECHNOLEG, CYNHYRCHION DATA A GWASANAETHAU O ANSAWDD UCHEL

8. GOFAL WEDI'I GYNLLUNIO A GOFAL HEB EI DREFNU:

Datblygu, gweithredu a chynnal set o wasanaethau digidol cenedlaethol o ansawdd uchel i alluogi modelau newydd o ofal a rheolaeth cleifion wedi'i gynllunio a heb ei drefnu.

9. DIAGNOSTEG:

Datblygu, gweithredu a chynnal gwasanaethau digidol cenedlaethol o ansawdd uchel i alluogi moderneiddio diagnosteg.

10. MEDDYGINIAETH DDIGIDOL:

Datblygu, gweithredu a chynnal set o wasanaethau digidol cenedlaethol o ansawdd uchel i alluogi moderneiddio rheolaeth meddyginiaethau.

YMATEB I COVID

GWEITHIO OCHR YN OCHR Â GOFAL CYMDEITHASOL

IECHYD MEDDWL A LLES EMOSIYNOL

ADFERIAD Y GIG

ANSAWDD Y GWASANAETHAU I SBARDUNO GWELLIANNAU YN IECHYD A GOFAL Y BOBLOGAETH

Daw ein cyfraniad at iechyd a gofal y boblogaeth o'r systemau digidol a ddarparwn sy'n trawsnewid y ffordd y mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn gweithio i ofalu am gleifion ac i bobl gael mwy o ran yn y gwaith o reoli eu gofal eu hunain. Rydym hefyd yn cefnogi'r Ganolfan Gwerth mewn Iechyd trwy gasglu data perthnasol, gan gynnwys data canlyniadau, y byddwn wedyn yn eu cyfuno, eu dadansoddi a'u cyflwyno mewn cyfres o ddangosfyrddau yn ymwneud â chyflyrau penodol (fel epilepsi, arthroplasti'r pen-glin, methiant y galon, canser yr ysgyfaint). Mae'r cynhyrchion gwybodaeth hyn yn cefnogi gwneud penderfyniadau o fewn GIG Cymru ac yn helpu i ysgogi gwelliannau mewn iechyd a gofal.

Mae holl wasanaethau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael eu cynllunio yn unol â chyd-destun ehangach blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, sy'n ystyried tueddiadau mewn iechyd a'r gwelliant disgwyliedig mewn canlyniadau i gleifion. Mae ansawdd gwasanaethau digidol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael eu monitro trwy gyfuniad o:

- Argaeledd Gwasanaeth, a ddisgrifir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn
- Byrddau Rheoli Gwasanaethau sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob rhan o GIG Cymru, sy'n gyfrifol am sicrhau bod argaeledd a defnyddioldeb gwasanaethau digidol yn diwallu eu hanghenion
- Arweinwyr digidol Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau sy'n monitro ansawdd y gwasanaeth a dderbynnir mewn perthynas â'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth sydd gennym gyda phob sefydliad partner o fewn GIG Cymru

ANGHENION Y BOBLOGAETH SY'N GYSYLLTIEDIG Â THEMÂU ALLWEDDOL Y GIG

Disgrifir themâu allweddol y GIG uchod fel blaenoriaethau gweinidogol ac mae'r diagram yn disgrifio sut mae portffolios Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyd-fynd â phob blaenoriaeth. Ym mhob un o bortffolios Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer 2022-23, mae sawl menter, sy'n bodloni'r gofynion o ran trawsnewid y ffordd y mae GIG Cymru yn darparu iechyd a gofal drwy gefnogi a galluogi technoleg ddigidol.

LLYWODRAETHU YN YSTOD COVID-19

Wrth i gyfyngiadau'r pandemig leddfu fe wnaethom ddychwelyd i fusnes fel arfer, gan gau ein strwythur ymateb brys. Fodd bynnag, parhaodd y gofynion digidol ar gyfer y rhaglen frechu, ac mae gwasanaethau Profi, Orlhain, Diogelu wrth gefn yn dal yn eu lle i gefnogi Covid-19, pe bai angen; mae'r ddau hyn wedi parhau'n rhan greiddiol o'n darpariaeth am y flwyddyn.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015


Mae datrysiadau a gwasanaethau digidol yn cyfrannu at weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac ymdrin â thlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Ein hamcanion llesiant strategol

Ymgorffori diwylliant cynaliadwy i gyfyngu ar yr effaith ar yr amgylchedd.

Cymryd camau pendant i hybu defnydd o'r Gymraeg.

Hyrwyddo diwylliant o wirfoddoli trwy greu'r amodau i ddinasyddion rannu eu profiad a dysgu sgiliau newydd.



Gweithio i gryfhau'r gydnabyddiaeth ryngwladol i GIG Cymru fel Canolfan Ragoriaeth ar gyfer arloesi digidol..

Gwella iechyd a llesiant dinasyddion Cymru, gan helpu i gynnal poblogaeth iach a chynhyrchiol sy'n cyfrannu at gymdeithas..

Cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth arbenigol fel bod dinasyddion Cymru mewn sefyllfa well i gael mynediad at y gofal iechyd gorau posibl pan fydd arnynt ei angen.

Denu a datblygu sgiliau a darparu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

**Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf ar 1 Ebrill 2024.
Ond yn ystod y flwyddyn fe wnaethom ddilyn ein hegwyddorion sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf.**

Mae ein rôl yn cyd-fynd ag anghenion digidol Cymru iachach a chynllun hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae pob un o'r saith nod llesiant hefyd yn cyd-fynd â'n dull gweithredu a byddant yn parhau i gael eu datblygu.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi adolygu cynnydd yn erbyn gweithgareddau ar gyfer pob amcan ac wedi nodi gweithgareddau ychwanegol lle bo angen. Dyma rai o'r cyflawniadau allweddol yn ystod 2022-23:

| | | |
|--|---|--|
| <p>IACHACH: Rydym wedi cyflymu trawsnewidiad digidol iechyd a gofal o fewn GIG Cymru fel y partner cyflawni y gellir ymddiried ynddo ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal digidol.</p> | <p>GWYDN: Rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid cyflawni ar y cynllun ar gyfer Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd, gan gynnwys ap dwyieithog GIG Cymru, a fydd yn cynorthwyo dinasyddion Cymru i gymryd rhan fwy gweithredol yn eu hiechyd a'u lles.</p> | <p>IACHACH: Rydym wedi parhau i ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol fel bod ansawdd gofal a thriniaeth yn cael ei wella</p> |
| <p>LLEWYRCHUS: Rydym wedi sefydlu ffocws newydd ym meysydd ymchwil ac arloesi</p> | <p>CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG: Rydym wedi gweithio i gyflawni map trywydd ein Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio ar gyfer 2022-23 ac wedi dod i ddeall y ffordd y gall ein hatebion digidol gyfrannu at agenda datgarboneiddio gyffredinol GIG Cymru.</p> | <p>MWY CYFARTAL: Rydym wedi parhau i hyrwyddo a chefnogi gweithgareddau sy'n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant.</p> |
| <p>DIWYLLIANT BYWIOG: Rydym wedi parhau i hybu a chefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac mae gennym bellach Gynllun Iaith Gymraeg sydd wedi ei gymeradwyo.</p> | <p>CYMUNEDAU CYDLYNUS: Rydym wedi gweithio ar sail Cymru gyfan i rannu arfer gorau a chrosawu gweithio mewn partneriaeth, gan gynnwys partneriaethau cymdeithasol.</p> | <p>LLEWYRCHUS: Rydym wedi lansio hyb arloesi Microsoft pwrpasol ar gyfer staff.</p> |
| <p>GWYDN: Rydym wedi gweithio gyda Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i hyrwyddo a chyflwyno diwylliant o groesawu newid drwy gymhwyster newydd sy'n uwchsgilio ac yn grymuso staff.</p> | | |

Tolley Maura
21/09/2023 12:23:59

CRYNODEB O BERFFORMIAD

DATGANIAD GAN Y PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL

Cyflawniad Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyntaf ac yn bennaf yw ein gallu i alluogi GIG Cymru i weithredu mewn amgylchedd digidol trwy sicrhau bod y gwasanaethau digidol sy'n sail i iechyd a gofal ar gael lle a phan fo angen. Mae hyn yn gofyn am reoli a chynnal a chadw gwasanaethau bob awr o'r dydd, ac ymateb cyflym i ddigwyddiadau wrth iddynt godi. Yn ogystal, mae ein cynllun uchelgeisiol ar waith i gadw i fyny â newid technolegol, yn ogystal â darparu gwasanaethau iechyd a gofal newydd a gwell i'n rhanddeiliaid yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a GIG Cymru; rydym yn gwneud hyn law yn llaw â chydweithwyr ar draws GIG Cymru i gyd-fynd â'u cynlluniau a'u cyfyngiadau. Mae'n rhaid i ni hefyd gyflawni ein rhwymedigaethau ariannol, statudol ac eraill, gan gydbwysu risg; mae ein perfformiad ar draws y flwyddyn yn gyfuniad o'r holl elfennau hyn.

Yn ystod 2022-23 rydym wedi cynnal lefel uchel o argaeledd gwasanaeth ar gyfer ein rhanddeiliaid, yn ogystal ag ystwytho ein cynllun i ymgymryd â gofynion newydd yn ystod y flwyddyn, er enghraifft ym mis Ionawr cymerasom gyfrifoldeb am arwain dwy raglen foderneiddio diagnosteg allweddol. Rydym wedi cyflawni'r mentrau digidol allweddol yn ein cynllun, wrth weithio'n barhaus hefyd tuag at ddatrys y rhwystrau sydd wedi atal rhai mentrau rhag symud ymlaen; bydd y rhain yn parhau i gael eu datblygu fel y nodir yn ein cynllun ar gyfer 2023-24.

Rydym wedi llwyddo i ennill sawl gwobr, sy'n dangos safon ein staff a'n safle fel arweinydd systemau ar gyfer digidol o fewn GIG Cymru.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59


YMAGWEDD AT BERFFORMIO

Mae model gweithredu cryf yn rhagofyniad hanfodol ar gyfer cyflawni ein gweledigaeth a'n hamcanion strategol. Ategir hyn gan Fframwaith Rheoli Perfformiad effeithiol, llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd clir ar lefel tîm ac ar lefel unigol.


Mae model gweithredu lechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'i gyflwyno yn ein Rheolau Sefydlog a'n Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn amlinellu sut y rheolir perfformiad trwy hierarchaeth o gyfarwyddiaethau, adrannau a grwpiau, a oruchwylir gan Fwrdd Rheoli lechyd a Gofal Digidol Cymru, a'i sicrhau gan Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Ffigur 2 - Amlinelliad o Lif Gwybodaeth y Fframwaith Rheoli Perfformiad



Ffigur 3 - Ffocws y Fframwaith Perfformiad



Mae perfformiad yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

- **Cynlluniau** sy'n mynegi gofynion a chanlyniadau disgwylidig
- **Adnoddau** i gyflawni'r cynlluniau a sicrhau'r canlyniadau
- **Canlyniadau** cynlluniau a gyflawnwyd, a sut maen nhw'n berthnasol i ddatblygiad yr unigolyn, y tîm, yr adran neu'r sefydliad

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

DADANSODDIAD O BERFFORMIAD

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n cyflawniadau allweddol, yn ogystal â'r mentrau hynny sydd angen rhagor o amser a/neu gynllunio i'w cyflawni. Mae'r cyflawniadau'n cwmpasu'r deuddeg portffolio a nodwyd yn ein cynllun 2022-23, ac felly prif gorff y gwaith a gyflawnwyd. Mae'r mentrau hynny na chawsant eu cwblhau yn ôl y cynllun yn ystod y flwyddyn wedi cael eu hailgynllunio gyda rhanddeiliaid a byddant yn ymddangos yn ein cynllun ar gyfer 2023-24.

YR HYN A GYFLAWNWYD GENNYM YN 2022-2023

Yn ystod ein hail flwyddyn fel Awdurdod Iechyd Arbennig, fe wnaethom gryfhau partneriaethau gyda Llywodraeth Cymru, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r GIG, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, gofal sylfaenol a sefydliadau eraill, gan gynnwys awdurdodau lleol, i gefnogi ymateb GIG Cymru i bandemig COVID-19. Ar yr un pryd, fe wnaethom barhau i gynnal a datblygu seilwaith a systemau digidol cenedlaethol craidd, ac rydym yn parhau â'r lefel hon o gydweithio i 2022-23.

Gwnaethom gyflawniadau allweddol ar draws ein 12 portffolio, gan ymgymryd â rhaglenni gwaith newydd sylweddol. Ar yr un pryd, fe wnaethom barhau i gefnogi cydweithwyr yn GIG Cymru i wella drwy'r gwasanaethau digidol sydd ar gael i gefnogi gofal rheng flaen, ac wrth symud cynlluniau trawsnewid digidol cenedlaethol ymlaen.

Mae ein cynllun busnes blynyddol yn gynllun uchelgeisiol yr ydym yn ei ystwytho er mwyn gallu ymgymryd â gwaith ychwanegol yn ystod y flwyddyn, ac rydym yn cyflawni hyn trwy ymarfer parhaus o adolygu ac ail-flaenoriaethu llwyth gwaith.

Wrth gwrs mae hyn yn golygu y bydd rhai mentrau yn cael eu harafu neu eu hoedi o fewn y cyfnod. Nodir y mentrau hynny yn eu hadrannau perthnasol isod, ochr yn ochr â'r cyflawniadau yr ydym wedi'u gwneud.

ARGAELEDD A LLIF GWYBODAETH

Symudodd ein huchelgais i gyflawni pensaerniaeth agored ymlaen gyda strategaeth ar gyfer datblygu a chyflawni Blociau Adeiladu Pensaerniaeth, y cydrannau sylfaenol a'r rhyngweithiadau sydd eu hangen ar gyfer cofnod iechyd a gofal digidol. Mae hyn yn cynnwys cyfleuster i drydydd parti ddatblygu meddalwedd mewn rhai meysydd allweddol, gan ddefnyddio ein system Rheoli API.

Fe wnaethom gyhoeddi Strategaeth Ddata yr Adnodd Data Cenedlaethol ar Strategaeth Dadansoddeg Uwch i sicrhau mwy o allu i drawsnewid data iechyd a gofal. Fe wnaethom hefyd gaffael y Platfform Data Cenedlaethol, a fydd yn sail i fynediad at y data sy'n ofynnol gan y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol.

Roedd map ffordd yr Offeryn Archwilio Cenedlaethol yn ein cynllun ar gyfer 2022-23, ac mae rhan o'r gwaith wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod, ond mae mwy i'w wneud o hyd yn 2023-24.

DIOGELU DATA CLEIFION

Fel y sefydliad digidol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, mae gennym rôl arwain systemau i ddiogelu'r rhwydwaith gofal iechyd cenedlaethol, yn ogystal â'r swm helaeth o wybodaeth a data cleifion sy'n cael eu storio'n electronig. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a chydweithwyr o fewn GIG Cymru i sicrhau bod systemau digidol yn wydn ac yn ddiogel.

Gan weithio gyda chydweithwyr ar draws Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ymatebodd ein tîm Microsoft 365 (M365) yn gyflym i ymosodiad seiber a effeithiodd ar gyflenwr digidol GIG Cymru. Gweithiodd y tîm M365 gyda'n timau cymwysiaidau i ddarparu datrysiad parhad busnes amser-gritigol i gefnogi defnyddwyr y gwasanaeth I11/GP y Tu Allan i Oriau yr effeithiwyd arnynt gan yr ymosodiad seibr ar system y cyflenwr. Datblygodd ein tîm Newid Busnes ddeunyddiau hyfforddi yn gyflym a gweithiodd yn agos gyda rhanddeiliaid i sicrhau y gellid mabwysiadu'r datrysiad parhad busnes gyda chyn lleied o aflonyddwch â phosibl.

SEILWAITH CYNALIADWY

Er mwyn sicrhau cynaliadwyedd byddwn yn parhau i fabwysiadu gwasanaethau cyfrifiadura cwmwl gan ddefnyddio dull cwmwl yn gyntaf ar gyfer cynhyrchion a gwasanaethau newydd a phresennol.

Gan weithio tuag at ein nod o'r cwmwl yn gyntaf, rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol i optimeiddio gweithrediad y cwmwl, ac o fewn hyn rydym wedi gwneud arbedion a fydd yn cyfateb i bron i hanner miliwn o bunnoedd y flwyddyn.

Yn ogystal â hyn, bydd ein cyfleuster canolfan ddata newydd (sydd i fod i fynd yn fyw yn 2024) yn rhyddhau rhagor o arbedion effeithlonrwydd.

CANOLFAN RAGORIAETH MICROSOFT 365 CYMRU

Er mwyn ysgogi arloesedd digidol creadigol ar draws GIG Cymru a chefnogi staff i ddefnyddio platfform M365, lansiyd Canolfan Ragoriaeth Microsoft 365 GIG Cymru.

Nod y Ganolfan Ragoriaeth, a gynhelir o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yw hybu prosiectau gwella cynaliadwy, llwyddiannus ar draws GIG Cymru drwy ddatblygu a rhannu gwybodaeth a syniadau drwy arfer gorau.

Ochr yn ochr ag offer mwy cyfarwydd fel Teams, Word a SharePoint, mae'r Ganolfan Ragoriaeth yn cefnogi cydweithwyr i wneud defnydd o'r Microsoft Power Platform, sy'n cynnwys Power Apps, Power BI a Power Automate. Mae'n galluogi staff i adeiladu apiau, mae'n gymorth i gipio data, awtomeiddio prosesau, ac adrodd ar wybodaeth fusnes i fodloni gofynion clinigol a rheoli.

AP GIG CYMRU

Bydd gwasanaeth digidol newydd sy'n 'rhoi gofal iechyd ar flaenau eich bysedd' yn ei gwneud yn haws i ddinasyddion Cymru ryngweithio ag iechyd a gofal. Aeth Ap GIG Cymru drwy brofion helaeth yn ystod y flwyddyn cyn symud i gyfnod lle gwahoddwyd aelodau'r cyhoedd i ymuno â gweithgaredd profi yn gynnar yn 2023.

Mae ar gael ar ffonau clyfar, cyfrifiaduron llechen a chyfrifiaduron, ac yn ddatblygiad allweddol yn y Rhaglen Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd, a fydd yn helpu pobl yng Nghymru i gael mynediad at ofal iechyd gwell a chefnogi darparwyr iechyd i ddarparu gofal yn fwy effeithlon.

Y nod yw i gleifion a'r cyhoedd allu gwneud y canlynol:

- personoli eu taith iechyd
- monitro cyflyrau iechyd yn haws
- rhannu a derbyn gwybodaeth iechyd bwysig
- cymryd rhan weithredol yn eu hiechyd a'u lles eu hunain

Fel rhan o'r profion defnyddwyr cychwynnol, archebwyd dros 500 o bresgripsiynau amlroddadwy, edrychwyd ar dros 3,400 o gofnodion ac archebwyd 100 o apwyntiadau gyda Meddyg Teulu.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

EHANGU E-LYFRGELL GIG CYMRU

Mae e-Lyfrgell GIG Cymru wedi caffael casgliad newydd o 400 o e-lyfrau o ddeunydd cyfeirio meddygol, addysgol a datblygu gyrfa, gan ddarparu hyd yn oed mwy o offer tystiolaeth i GIG Cymru a staff gofal cymdeithasol. Dewiswyd cynnwys trwy gydweithio â llyfrgellwyr ar draws GIG Cymru ynghyd â Llywodraeth Cymru a'i ddarparu trwy EBSCO Information Services a Browns Books - prif gyflenwr llyfrau ac e-lyfrau'r DU i ysgolion a llyfrgelloedd.

“Rydym yn falch o weld ychwanegu'r casgliad newydd hwn, a fydd yn ategu'r adnoddau printiedig sydd ar gael yn ein llyfrgelloedd iechyd, yn gwella ein darpariaeth o e-adnoddau ac yn agor mynediad i ddefnyddwyr, lle bynnag y maent wedi'u lleoli,”
meddai Nia Jenkins, Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell yn Ysbyty Glan Clwyd.

GWELLA'R COFNOD IECHYD A GOFAL DIGIDOL

Erbyn diwedd 2022-23, roedd mwy na 35,000 o weithwyr iechyd proffesiynol ledled Cymru yn defnyddio Porth Clinigol Cymru. Mae Porth Clinigol Cymru yn darparu mynediad at gofnod iechyd electronig y claf drwy goladu gwybodaeth cleifion o sawl ffynhonnell, cefnogi llif gwaith clinigol a galluogi gweithwyr iechyd proffesiynol i wneud penderfyniadau clinigol gwell a mwy diogel. Mae Porth Clinigol Cymru yn darparu mynediad wedi'i archwilio at yr holl broffion gwaed, delweddu radiolegol, atgyfeiriadau, llythyrau cleifion allanol, alergeddau ac adweithiau niweidiol, rhybuddion cleifion, crynodebau rhyddhau, cofnodion cryno meddygon teulu a digwyddiadau gofal. Rydym yn parhau i nodi bylchau yng nghynnwys cofnodion iechyd electronig ac yn gweithio i gasglu mwy o wybodaeth am ofal cleifion er mwyn sicrhau bod y cynnig digidol sydd ar gael i weithwyr gofal iechyd proffesiynol o fewn GIG Cymru yn fwy cyflawn.

Er mwyn symleiddio a lleihau apwyntiadau cleifion allanol diangen mewn gofal eilaidd, fe wnaethom gyflwyno swyddogaeth e-Gyngor Meddygon Teulu yn System Atgyfeirio Cleifion Cymru sy'n ei gwneud yn bosibl i sgysia am gyngor clinigol ac arweiniad ddigwydd rhwng meddygon teulu a meddygon ysbyty, gan ddileu'r angen yn aml i rai cleifion fynd i'r ysbyty.

Rydym yn parhau i wneud gwelliannau wedi'u cynllunio gan ddefnyddwyr i helpu i foderneiddio gwasanaethau Cleifion Allanol – dyma un o flaenoriaethau craidd Llywodraeth Cymru. Mae data am bresenoldeb cleifion allanol yn cael eu casglu bellach yn Hyb Data GIG Cymru a ddefnyddir i storio a chyflwyno gwybodaeth allweddol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

Rhwngmis Ionawr 2022 a mis Ionawr 2023, cynyddodd nifer y dogfennau clinigol a storiwyd yn ddigidol o 39 miliwn i 45 miliwn a chynyddodd canlyniadau profion o dros 220 miliwn i dros 236 miliwn.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

MODERNEIDDIO GWYBODEG CANSER

Mae'r ateb i gefnogi darparu gwasanaethau cancer yn defnyddio Porth Clinigol Cymru a System Gweinyddu Cleifion Cymru (WelshPAS) ac rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Ganser Felindre (VCC) a'r rhwydwaith cancer fel rhan o'r gwaith o foderneiddio gwasanaethau cancer.

VELINDRE NHS TRUST JOINS WELSHPAS

Aeth gweithrediad hir ddisgwyliedig WelshPAS Iechyd a Gofal Digidol Cymru yng Nghanolfan Ganser Felindre yn fyw ym mis Ionawr 2023.

Mae WelshPAS yn cadw manylion adnabod cleifion, ac yn cofnodi manylion ymweliadau cleifion ag ysbytai, gan gynnwys rheoli rhestrau aros, cofnodion meddygol, triniaeth cleifion mewnol, apwyntiadau cleifion allanol ac ymweliadau brys.

Mae gweithredu WelshPAS yng Nghanolfan Ganser Felindre yn rhan o 'Raglen Ganser' ehangach Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a sefydlwyd i weithredu Datrysiad Gwybodeg Cancer i Gymru i ddisodli'r System Gwybodaeth Rhwydweithiau Cancer Cymru (Canisc) gyfredol.

Mae symud Canolfan Ganser Felindre i bensaerniaeth genedlaethol a chysoni un o'i systemau gweithredol allweddol â gweddill Cymru yn dod â manteision sylweddol gan gynnwys:

- Y modd i weld cofnodion cleifion ar draws Cymru gyfan sy'n hwyluso ffyrdd mwy cydweithredol o weithio ar draws Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
- Proses weinyddol gyson ar draws y rhan fwyaf o GIG Cymru
- Moderneiddio trwy wella'r system yn barhaus i ddiwallu anghenion defnyddwyr a sefydliadau
- Y gallu i Ganolfan Ganser Felindre integreiddio'n well â systemau/cymwysiadau eraill

Roedd cyflawni hyn yn ganlyniad uniongyrchol i ymrwymiad, penderfyniad ac ymdrech gan bawb a gymerodd ran, yn ogystal â chydweithio a gwaith tîm ar draws y ddau sefydliad. Mae'r adborth cynnar wedi bod yn anhygoel o gadarnhaol ac mae defnyddwyr yn canmol y gwell mynediad at wybodaeth glinigol y mae'r system newydd yn ei ddarparu.

NYRSIO DIGIDOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr ar draws GIG Cymru i ddisodli'r dogfennau papur y mae nyrsys yn eu defnyddio ar hyn o bryd â dewis amgen digidol. Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR), sydd wedi ennill gwobrau, a fydd wedi ei gyflwyno ym mhob man yn 2023, yn newid arferion gwaith ac yn galluogi nyrsys i dreulio mwy o amser yn gofalu am gleifion.

[Ychwanegu Dolen i fideo Nyrsio newydd Cofnod Gofal Nyrsio Cymru \(WNCR\)](#)

Mae Cofnod Gofal Nyrsio Cymru wedi casglu mwy na 3.9 miliwn o nodiadau nyrsio cleifion mewnol mewn ychydig llai na dwy flynedd.

Mae'r system ddigidol wedi trawsnewid y ffordd y mae nyrsys yn cofnodi gwybodaeth cleifion ac mae ganddi fwy na 13,000 o ddefnyddwyr bob mis. Mae hefyd wedi gweld 3.3 miliwn o asesiadau risg cleifion yn cael eu cwblhau'n electronig rhwng Ebrill 2021 a Chwefror 2023. Cafodd mwy na 1.8 miliwn o asesiadau poen eu cwblhau, a dros 394,000 o asesiadau ar gyfer briwiau pwysu ar y croen a thros 223,000 o asesiadau ar gyfer codymau.

Yn hytrach na gwneud nodiadau ar bapur, mae nyrsys yn defnyddio cyfrifiaduron llechen i gasglu gwybodaeth yn electronig wrth erchwyn gwely claf. Mae'r system hon a ddyluniwyd gan nyrsys, yn storio gwybodaeth gofal cleifion yn ddiogel yn y Cofnod Gofal Nyrsio Cymru, mae'n defnyddio iaith nyrsio safonol ac yn gwella cywirdeb a rhannu gwybodaeth rhwng lleoliadau gofal. Mae hyn yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chasglu unwaith a'i defnyddio ar hyd taith gofal iechyd y claf i gefnogi gwneud penderfyniadau mwy diogel a gwybodus ni waeth ble mae'r gofal hwnnw'n digwydd. Mae'r rhaglen ddigidol hon yn dileu'r angen i chwilio am nodiadau papur neu ofyn i'r claf ailadrodd gwybodaeth y mae eisoes wedi'i rhoi gan roi sicrwydd a hyder i gleifion ar hyd eu taith gofal.

NODYN DIABETES DIGIDOL

Yn ôl gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweithio gyda chleifion diabetes, mae cofnod electronig a ddyluniwyd yn benodol ar gyfer cleifion diabetes yn "drawsnewidiad go iawn".

NODYN DIABETES DIGIDOL YN CAEL EI GANMOL GAN WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL

Soniodd un dietegydd am sut mae'r Nodyn Ymgynghori Digidol ar Ddiabetes (DCN) yn arbed amser iddi, gan nad oes rhaid iddi bellach ysgrifennu'n ôl at nyrsys atgyfeirio nac ymgynghorwyr.

Esboniodd Victoria Oldham, dietegydd Diabetes arbenigol ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg: "Gallaf ddiweddarau'r nodyn ac rwy'n gwybod y bydd gan weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol eraill fynediad ato hefyd. Yn ogystal â bod yn fwy effeithiol gan fod yr holl wybodaeth mewn un lle, mae hefyd yn arbed llawer iawn o amser."

Ceir mynediad i'r nodyn trwy Borth Clinigol Cymru ac fe'i defnyddir i gofnodi, gweld a rhannu gwybodaeth am gleifion gyda diabetes.

Mae Dr Gautam Das, ymgynghorydd diabetes, wedi bod yn defnyddio'r Nodyn Ymgynghori Digidol ar Ddiabetes (DCN) ers iddo gael ei dreialu yn Ysbyty'r Tywysog Siarl yn 2019.

Dywedodd: "Mae'n drawsnewidiad go iawn. "Mae'n arwain at newid patrwm yn y ffordd rydym yn rheoli diabetes ac yn cynnal cofnodion cleifion".

Mae'r Nodyn Ymgynghori Digidol ar Ddiabetes ar gael i weithwyr iechyd proffesiynol ar gyfer gofal diabetes gan gynnwys dieteteg, podiatreg a gofal cynenedigol mewn ysbytai ym Myrddau Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda.

SYSTEM IMIWNEIDDIO CYMRU YN MYND Y TU HWNT I COVID-19

Roedd datblygiad parhaus System Imiwneiddio Cymru (WIS) yn cynnwys data brechu trawsffiniol y DU gyfan a thramor. Mae'r gwelliannau hyn yn helpu i greu cofnod mwy cywir ar gyfer pobl a gafodd eu brechiadau y tu allan i'w hardal breswyl, trwy gynnwys hanes brechiadau llawn y gall clinigwyr ei weld pan fo angen. Roedd fersiwn pellach o System Imiwneiddio Cymru (WIS) yn darparu negeseuon testun Cymraeg a dwy ffordd, sy'n golygu bod pobl sy'n cofnodi'r Gymraeg fel eu dewis iaith yn gallu cael gwybodaeth amserol a chywir yn Gymraeg.

MAE SYSTEM IMIWNEIDDIO CYMRU YN GWEINYDDU BRON I 9 MILIWN O FRECHIADAU COVID-19

Mae System Imiwneiddio Cymru (WIS) wedi'i defnyddio i gefnogi'r gwaith o weinyddu 8.9 miliwn o frechiadau ers dechrau'r pandemig, ac 1.1 miliwn o frechiadau yn ystod rhaglen gaeaf 2022 rhwng mis Medi a mis Rhagfyr.

Cymru yw'r unig ran o'r DU i ddatblygu datrysiad rheoli brechu mewn modd digidol gan ddefnyddio tîm meddalwedd mewnol sy'n bodoli eisoes.

Bu'r tîm o Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau i ddarparu'r datrysiad digidol ar gyfer rheoli, dosbarthu ac adrodd ynghylch rhaglen frechu COVID-19.

Mae'r system yn defnyddio gwybodaeth am ddemograffeg cleifion, grwpiau galwedigaeth a lefelau blaenoriaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer derbyn y brechiad, er mwyn trefnu apwyntiadau ar gyfer cleifion. Mae hefyd yn cadw cofnod o lefelau stoc brechiadau, yn creu slotiau ar gyfer apwyntiadau, yn anfon llythyrau apwyntiad, ac yn cofnodi manylion yr holl frechiadau ar gyfer pob brechiad Covid 19 a roddir yng Nghymru.

CYFLWYNO SYSTEM WYBODAETH GOFAL CYMUNEDOL CYMRU

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru yn wasanaeth digidol ar gyfer nyrsys, timau iechyd meddwl, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion i'w helpu i gydweithio'n well. Mae'n galluogi mynediad at wybodaeth berthnasol am y gofal a ddarperir ac yn dangos pa gam y mae claf wedi'i gyrraedd yn ei driniaeth a'i gynllun gofal.

Mae'r manteision yn cynnwys rhyddhau cleifion yn gynt o'r ysbyty, llai o apwyntiadau'n cael eu methu, cofnodion cywir, gofal mwy diogel, arbed amser a chost, diogelwch clinigol drwy rannu data, llai o ddyblygu cofnodion, gwell darpariaeth gwasanaeth, gostyngiad mewn derbyniadau diangen i'r ysbyty a gwell profiad i gleifion.

Mae System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru bellach yn fyw mewn 19 o sefydliadau ledled Cymru, a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yw'r diweddaraf i ymuno, gyda dros 3,000 o ddefnyddwyr. Dechreuodd cynllun peilot gyda charfan fawr o nyrsys ardal proffesiynol hefyd yn ardal Betsi Cadwaladr yn 2022. The table below indicates what patients would have done, had they not gone to their community pharmacy for a consultation:

| Cam Gweithredu | Cyfanswm |
|--|---------------|
| Wedi gwneud apwyntiad gyda Meddyg Teulu | 194003 |
| Wedi gwneud apwyntiad i fynychu'r gwasanaeth y tu allan i oriau | 2236 |
| Wedi gwneud apwyntiad gyda nyrs neu ymwelydd iechyd | 1150 |
| Wedi gwneud apwyntiad gyda gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall (e.e. deintydd neu optometrydd) | 2407 |
| Wedi mynychu adran damweiniau ac achosion brys yr ysbyty | 168 |
| Wedi galw Galw Iechyd Cymru neu NHS 111 am gyngor | 891 |
| Wedi prynu meddyginiaeth o'r fferyllfa | 52241 |
| Wedi gwneud dim | 6733 |
| Cyfanswm | 259829 |

GWASANAETH PROFI A THRIN DOLUR GWDDF (STTT) DEWIS FFERYLLFA YN HYBU STIWARDIAETH SGRINIO HEINTIAU

Mae fferyllwyr cymunedol yng Nghymru yn defnyddio gwasanaeth canfod bacteria i annog cleifion i sgrinio rhag heintiau.

Mae gwasanaeth Profi a Thrin Dolur Gwddf (STTT) Dewis Fferyllfa yn hyrwyddo stiwardiaeth gwrthficrobaidd trwy ddefnyddio dull cam wrth gam archwiliad clinigol gan fferylllydd. Mae hyn hefyd yn annog cleifion sy'n bodloni'r meini prawf i ddefnyddio'r gwasanaeth swab dolur gwddf yn y fan a'r lle i sgrinio rhag heintiau bacterol.

Os na chanfyddir bacteria, mae'n debyg mai firws sy'n achosi'r dolur gwddf - sy'n golygu na fyddai gwrthfotigau yn helpu. Bydd canlyniadau swab gwddf ar gael mewn munudau ac os oes haint bacterol yn bresennol a bod gwrthfotigau'n gallu helpu'r claf, gall y fferylllydd eu darparu.

Dim ond ar ôl i'r fferylllydd drafod y manteision a'r niwed posibl, gan gynnwys ymwrthedd i wrthfotigau, y caiff gwrthfotigau eu rhoi.

Anfonir canlyniadau yn ddigidol at Feddyg Teulu'r claf trwy Dewis Fferyllfa, y seilwaith digidol a ddatblygodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gefnogi darparu gwasanaethau mewn fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru.

Yn 2022-23 cafwyd dros 28,000 o ymgynghoriadau Profi a Thrin Dolur Gwddf (STTT) ar draws fferyllfeydd cymunedol yng Nghymru

ARWEINYDDIAETH SYSTEMAU WRTH DDATBLYGU DIAGNOSTEG DIGIDOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi mabwysiadu arweinyddiaeth dwy raglen ddiagnosteg newydd allweddol GIG Cymru, Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) a Chaffael y System Gwybodeg Radioleg (RISP), a fydd yn moderneiddio'r broses o ddigido adroddiadau diagnosteg. Trosglwyddwyd y rhaglenni hyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 1 Ionawr 2023.

Roedd trosglwyddo'r rhaglenni a'r staff yn gam pwysig wrth gysoni systemau digidol newydd mawr â gwasanaethau data a thechnoleg gofal iechyd cenedlaethol GIG Cymru, a ddarperir ac a weithredir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Bydd y trefniadau newydd yn galluogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i reoli gweithrediad y rhaglenni hyn yn well fel busnes craidd.

IECHYD PLANT

Yn ystod 2022-23 roeddem yn disgwyl cwblhau gwelliannau ymarferoldeb ar gyfer y system Iechyd Plant yn unol ag anghenion rhaglen Plant Iach Cymru, fodd bynnag, nid oedd modd cwblhau'r rhain yn ystod y flwyddyn ac maent wedi'u symud i gynllun 2023-24.

GOFAL WEDI'I GYNLLUNIO A GOFAL HEB EI DREFNU

Roedd ein cynllun ar gyfer 2022-23 yn cynnwys mentrau eraill yn y portffolio Gofal Wedi'i Gynllunio a Gofal Heb ei Drefnu, ond roedd rhai o'r rhain, gan gynnwys cyflwyno'r system Adrannau Achosion Brys, integreiddio Gofal Llygaid i'r bensaerniaeth genedlaethol, a'r system Gofal Dwys, yn destun oedi. Mae'r rhain bellach yn rhan o gynllun 2023-24.

PORTH GWEINYDDOL CYMRU A SYSTEM WEINYDDU CLEIFION CYMRU O FEWN BETSI CADWALADR

System Gweinyddu Cleifion Cymru (Welsh PAS) Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw prif ffynhonnell data gweinyddol ar gyfer cleifion mewn ysbytai. Mae'n cadw manylion adnabod cleifion, ac yn cofnodi manylion ymweliadau cleifion ag ysbytai, gan gynnwys rheoli rhestrau aros, cofnodion meddygol, triniaeth cleifion mewnol, apwyntiadau cleifion allanol ac ymweliadau brys.

Symudwyd y data y bu hir ddisgwyl amdano o System Rheoli Gwybodaeth Cleifion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gorllewin) i mewn i fynegiad canolog WelshPAS ac aeth yn fyw yn llwyddiannus ym mis Mai 2022, gyda 2,800 o ddefnyddwyr ychwanegol, sydd bellach yn gwneud cyfanswm o dros 6,800 o ddefnyddwyr ar draws y mynegiad unigol. Mae hyn yn rhan o raglen waith fesul cam i gyfuno'r tair system ar wahân ar gyfer rheoli cleifion yn Betsi Cadwaladr yn un gronfa System Gweinyddu Cleifion Cymru ar draws y bwrdd iechyd – dyma'r gweithrediad mwyaf o System Gweinyddu Cleifion yng Nghymru ers 2013.

Bydd datblygu un enghraifft o System Gweinyddu Cleifion Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn symleiddio'r broses ofal ac yn galluogi i wybodaeth gyfredol a chywir fod ar gael i gydweithwyr clinigol a chlerigol ar gyfer darparu gwasanaethau ar draws y bwrdd iechyd.

“Mae System Gweinyddu Cleifion Cymru yn caniatáu i ni weld a diwygio gwybodaeth a gweithgareddau cleifion, gallwn weld hwn yn dod yn arf gwych i ni wrth symud ymlaen.”

– Gweinyddwyr Adran Achosion Brys, Ysbyty Glan Clwyd.

“Bydd hidlo, grwpio a didoli yn gwneud ein tasgau gyda rhestrau aros yn haws i'w rheoli oherwydd gallwn drefnu yn ôl llawer o wahanol feysydd.”

– Ysgrifenyddion Offthalmoleg, Ysbyty Glan Clwyd.

“Gallwn weld o safbwynt ansawdd y data y bydd hyn yn gwella ein prosesau.”

MAMOLAETH DDIGIDOL

Roedd Mamolaeth Ddigidol Cymru yn falch o gyhoeddi cymeradwyaeth Gweinidogol a £7 miliwn o gyllid yn ddiweddar ar gyfer rhaglen waith pum mlynedd a fydd yn trawsnewid gwasanaethau mamolaeth yn ddigidol i fenywod a chlinigwyr yng Nghymru.

Ar hyn o bryd mae Byrddau Iechyd yn defnyddio cyfuniad o systemau digidol a phapur gwahanol, ond mae sawl adolygiad diweddar o wasanaethau mamolaeth yng Nghymru a'r DU wedi galw am greu system ddigidol unedig. Bydd y system famolaeth newydd yn cael ei hategu gan fframwaith clinigol safonol a fydd yn ymgorffori data, llwybrau gofal a gwybodaeth i fenywod. Bydd yn integreiddio â seilwaith digidol craidd GIG Cymru ac yn rhan o'r cofnod clinigol sengl ar gyfer Cymru.

SYSTEM MAMOLAETH DDIGIDOL

Iechyd a Gofal Digidol Cymru fydd yn caffael ac yn gweithredu'r system famolaeth ddigidol newydd hon. Bydd yn galluogi gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws pob bwrdd iechyd yng Nghymru i rannu gwybodaeth hanfodol yn gyflymach, gan gefnogi gwasanaethau mamolaeth diogel, effeithiol a chyson lle bynnag y bydd menywod yn dewis cael gofal.

Bydd gan fenywod fynediad digidol at eu cofnod mamolaeth personol hefyd, lle gallant gyfrannu manylion sy'n bwysig iddyn nhw a derbyn cyngor iechyd perthnasol a nodiadau atgoffa. Dim ond unwaith y bydd angen iddynt rannu eu gwybodaeth allweddol.

ARWEINYDDIAETH SYSTEMAU WRTH DDATBLYGU DIAGNOSTEG DIGIDOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi mabwysiadu arweinyddiaeth dwy raglen ddiagnosteg newydd allweddol GIG Cymru, Rhwydwaith Gwybodaeth Labordai Cymru (LINC) a Chaffael y System Gwybodeg Radioleg (RISP), a fydd yn moderneiddio'r broses o ddigido adroddiadau diagnosteg. Trosglwyddwyd y rhaglenni hyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 1 Ionawr 2023.

Roedd trosglwyddo'r rhaglenni a'r staff yn gam pwysig wrth gysoni systemau digidol newydd mawr â gwasanaethau data a thechnoleg gofal iechyd cenedlaethol GIG Cymru, a ddarperir ac a weithredir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Bydd y trefniadau newydd yn galluogi Iechyd a Gofal Digidol Cymru i reoli gweithrediad y rhaglenni hyn yn well fel busnes craidd.

ENDOSCOPI

Mae canlyniadau endosgopi gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys bellach ar gael ym Mhorth Clinigol Cymru gan sicrhau bod gwybodaeth endosgopi hanfodol ar gael ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Integreiddio data system endosgopi Powys oedd y tro cyntaf i system glinigol seiliedig ar gwmwl integreiddio â'n cadwrfa ganlyniadau. Mae data endosgopi hefyd ar gael ar gyfer Byrddau Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Hywel Dda.

Bellach gall clinigwyr sy'n trin claf sydd wedi cael prawf endosgopi yn y Byrddau Iechyd hyn weld y canlyniad yn WCP waeth pa sefydliad GIG Cymru y maen nhw'n perthyn iddo. Mae hyn yn rhoi mwy o wybodaeth glinigol i'r clinigwr i lywio penderfyniadau ac o bosibl yn lleihau nifer y profion sy'n cael eu dyblygu. Mae cyfanswm o ddeuddeg ysbyty bellach yn adrodd am ganlyniadau endosgopi ledled Cymru, gyda dros 59,000 o ganlyniadau endosgopi wedi'u gweld yn WCP gan ymarferwyr gofal iechyd, ar draws ffiniau Byrddau Iechyd Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol.

MEDDYGINIAETH DDIGIDOL

Mae'r portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol yn darparu dull rhagnodi cwbl ddigidol ym mhob lleoliad gofal yng Nghymru. Mae'r portffolio yn dod â phedair rhaglen ynghyd i wneud rhagnodi, dosbarthu a gweinyddu meddyginiaethau ym mhobman yng Nghymru yn haws, yn fwy diogel, yn fwy effeithlon ac yn effeithiol.

Yn dilyn adolygiad annibynnol o ragnodi electronig yng Nghymru, nododd Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ei huchelgais ar gyfer cynllun meddyginiaethau digidol cynhwysfawr i Gymru:

“Rydym am wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n darparu'r canlyniadau gorau i ddinasyddion, a'u bod yn gweithredu'n seiliedig ar ddymuniadau dinasyddion a darparwyr gwasanaethau o ran defnyddio a rheoli'r gwasanaethau hynny... Bydd y rhaglen hon yn trawsnewid rhagnodi yng Nghymru gyda chymorth platfform digidol”

Mae'r Portffolio Trawsnewid Meddyginiaethau Digidol yn cydlynu pedwar maes gwaith.

Gwasanaeth Presgripsiynau Electronig Gofal Sylfaenol - Llofnodi a throsglwyddo presgripsiynau'n electronig oddi wrth feddygon teulu a rhagnodwyr anfeddygol i'r fferyllfa gymunedol neu fferyllydd o ddewis yr unigolyn.

Ymgysylltodd y rhaglen â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cyflenwyr Meddygon Teulu a chyflenwyr systemau Fferylliaeth Gymunedol ym mis Awst 2022 i adolygu gofynion gyda lansiad 'prawf o gysyniad' wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2023.

Rhagnodi a Gweinyddu Meddyginiaethau yn Electronig Gofal Eilaidd

- Gweithredu rhagnodi electronig a gweinyddu meddyginiaethau (ePMA) ar draws holl ysbytai GIG Cymru. Anfon presgripsiynau cleifion allanol i fferyllfa o ddewis yr unigolyn. Sefydlwyd fframwaith aml-werthwr ar gyfer e-ragnodi mewn gofal eilaidd (ePMA) gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ran byrddau iechyd GIG Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre.

Mynediad i Gleifion - Defnyddio Ap GIG Cymru i rannu a chasglu gwybodaeth am feddyginiaethau, archebu presgripsiynau rheolaidd ac enwebu fferyllfa o ddewis yr unigolyn.

Cofnod Meddyginiaethau a Rennir - Creu un cofnod o feddyginiaethau a rennir ar gyfer pob claf yng Nghymru fel bod yr holl wybodaeth mewn un lle.

Bydd y ffrydiau gwaith hyn yn moderneiddio ac yn digido rheoli meddyginiaethau, gan leihau gwastraff amgylcheddol, cost ac amser wrth gynyddu cywirdeb i gleifion a staff y GIG ledled Cymru.

Bydd cynllun y cofnod meddyginiaethau a rennir nawr yn cael ei gwblhau fel rhan o gynllun 2023-24.

GWERTH O DDATA: DANGOSFYRDDAU A HYBIAU DATA

Mae Dangosfyrddau Data Cenedlaethol a ddatblygwyd gyda Rhaglen Gwerth mewn Iechyd GIG Cymru yn cyfuno ac yn delweddu ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â chanlyniadau clinigol i gleifion, gweithgarwch gofal eilaidd, newidynnau mewn cymysgedd o achosion, marwolaethau, a ffactorau economaidd-gymdeithasol ar gyfer llawer o feysydd clinigol gwahanol.

Mae'r dangosfyrddau arloesol hyn yn cael eu defnyddio gan dimau clinigol, grwpiau diddordeb arbennig, rhwydweithiau clinigol, swyddogaethau cymorth a rhanddeiliaid eraill i'w helpu i wneud penderfyniadau gwell.

Gan weithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, daethom â data iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd mewn hyb data 'prawf cysyniad' i gymhwyso delweddau sy'n sail i ofynion data Cymru Iachach.

Gofal Eilaidd

Data defnyddio Ceisiadau Prawf Electronig (ETR)

Dangosfwrdd sy'n cynnwys data defnydd gofal eilaidd ar gyfer Ceisiadau Prawf Electronig (ETR) gwyddor gwaed a microbiolog – mae hyn yn galluogi byrddau iechyd i fonitro'r defnydd o ETR, o gymharu â cheisiadau am brawf papur, ac mae'r canlyniadau ar gael ar lefel ysbyty a ward, gan ddisodli'r dulliau llaw a ddefnyddiwyd yn flaenorol, gan arbed amser a sicrhau bod y data yn fwy gweladwy.

Dangosfwrdd Peilot yn Hysbysu Canlyniadau

Mae dangosfwrdd Hysbysu Canlyniadau yn cael ei dreialu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Pan awdurdodir canlyniadau profion patholeg neu radiolog, hysbysir yr ymgynghorydd perthnasol bod y canlyniad wedi'i awdurdodi a bod angen ei gymeradwyo ym Mhorth Clinigol Cymru.

Mae'r dangosfwrdd newydd yn crynhoi canlyniadau'r profion o'r 30 diwrnod diwethaf ac yn ei gwneud yn bosibl drilio i lawr i gofnodion unigol. Un o fanteision allweddol y dangosfwrdd yw ei fod yn galluogi meddygon ymgynghorol i weld a chymeradwyo canlyniadau profion eu cleifion yn gyflymach, gan wella gofal cleifion a lleihau'r risg o niwed posibl yn sgil oedi wrth adolygu canlyniadau profion cleifion.

Gwybodaeth Gofal Sylfaenol

Prosiect Gwella Ansawdd Gweithgaredd Data Meddygon Teulu yn cyflwyno dadansoddiad o weithgarwch Meddygon Teulu

Mae echdynnu data yn ei wneud yn bosibl i ddata apwyntiadau fod ar gael yn y Porth Gwybodaeth Gofal Sylfaenol (PCIP) i'w ddefnyddio gan bractisiau Meddygon Teulu. Mae'n galluogi Meddygon Teulu i ddechrau eu proses Gwella Ansawdd (QI) o safoni a gwella ansawdd data.

Mae'r data apwyntiadau wedi'i fapio wedi'i ddadansoddi gyda delweddau ac mae ar gael o fewn y PCIP ar lefel Practis, Clwstwr a Bwrdd Iechyd. Mae'r gweithgaredd hwn wedi cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIF) a'r gofynion cytundebol ar gyfer Safonau Mynediad, a dyma'r tro cyntaf yng Nghymru i'r math hwn o ddadansoddiad fod ar gael.

Cofrestrfa Genedlaethol y Cymalau

Mae llif data misol o Gofrestrfa Genedlaethol y Cymalau, yn cynnwys data am gleifion sy'n cael eu trin yng Nghymru, ac ar drigolion Cymru sy'n cael eu trin mewn ysbytai yn Lloegr. Gellir creu golygfeydd i fwydo'n ôl i fyrddau iechyd a'u cysylltu â data yn y dangosfyrddau Arthroplasti Pen-gliniau a Chluniau. Mae Cam Dau'r Dangosfwrdd Arthroplasti Pen-gliniau wedi'i ryddhau i gynnwys data ar Ganlyniadau a Adroddir am Gleifion ac archwiliad pellach i ganlyniadau arthroplasti pen-gliniau.

YMCHWIL AC ARLOESI

Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cymeradwyo strategaeth Ymchwil ac Arloesi a fydd yn cefnogi cydweithrediad Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyda sefydliadau partner ledled Cymru ym meysydd gwella, arloesi ac ymchwil ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gall ymchwil ac arloesi gynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gofal iechyd a gallant gefnogi sefydliadau a gwasanaethau gofal iechyd i ddarparu gwell gofal i bobl.

ANSAWDD

Mae ansawdd wrth wraidd yr hyn a wnawn, yn y modd yr ydym yn cynnal ein busnes, yn y systemau a gynhyrchwn ac yn y data a ddarparwn. Yn hanfodol i hyn mae dull o ddatblygu cynhyrchion, systemau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ansawdd, a ddangosir trwy fabwysiadu safonau a gydnabyddir yn rhyngwladol ac y gellir ymddiried ynddynt.

Rydym wedi cynnal ardystiad ar gyfer y Safonau ISO a BS canlynol yn 2022-23:

- ISO 9001 - SYSTEM RHEOLI ANSAWDD
- ISO 14001 - SYSTEM RHEOLAETH AMGYLCHEDDOL
- ISO 20000 - SYSTEMAU RHEOLI GWASANAETH TG
- ISO 27001 - SYSTEMAU RHEOLI DIOGELWCH GWYBODAETH
- BS 10008 - SYSTEM RHEOLI PWYS TYSTIOLAETHOL A GWYBODAETH GYFREITHIOL DDERBYNIOL
- BS 76000 - SAFON GWERTHFAWROGI POBL
- BS 76005 - AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT
- SDI - TYSTYSGRIF DESG WASANAETH

Rydym wedi datblygu strategaeth a chynllun ansawdd ac wedi buddsoddi mewn offeryn arbenigol i gefnogi ein prosesau rheoli dogfennau. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru bellach yn paratoi ar gyfer cyflwyno rheoliad newydd mewn perthynas â dyfeisiau meddygol.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

LLYWODRAETHU GWYBODAETH


Mae gan aelodau'r cyhoedd hawl i ofyn am wybodaeth gan awdurdodau cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys wybodaeth amdanynt eu hunain (Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth) neu wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus (ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol).

Mae'n ofynnol i lechyd a Gofal Digidol Cymru ymateb i unrhyw geisiadau yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth, gan gynnwys ymateb o fewn amserlenni statudol.

Rhwng Ebrill 2022 a Mawrth 2023, derbyniodd lechyd a Gofal Digidol Cymru 51 o geisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Ymatebwyd i 98% o geisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlenni statudol. Ymatebwyd i un cais y tu allan i'r amserlen statudol.

Derbyniodd lechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd saith Cais Gwrthrych am Wybodaeth a thri chais gan yr heddlu ac asiantaethau eraill, ac ymatebwyd i bob un ohonynt o fewn y cyfnod hwn.



Ffigur 4 - Dangosfwrdd Cydymffurfio â Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

DATBLYGU'R SEFYDLIAD

YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID AC YMATEB I ADBORTH

YMGYSYLLTU Â RHANDDEILIAID

Fel yr arweinydd systemau digidol ar gyfer GIG Cymru, mae'n bwysig bod gan ein partneriaid, defnyddwyr gwasanaethau a phobl Cymru hyder yn ein gwaith. Mae ymgysylltu effeithiol yn helpu i drosi anghenion rhanddeiliaid a defnyddwyr i'n strategaeth a datblygu ein cynhyrchion a'n gwasanaethau.

GWEITHIO GYDA PHARTNERIAID GIG CYMRU

Mae gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn GIG Cymru yn hanfodol. Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â'r holl gyrrff iechyd statudol yng Nghymru ac yn sicrhau cysondeb strategol trwy gyfarfodydd gweithredol ddwywaith y flwyddyn a thrwy ddatblygu cynlluniau cyflawni ar y cyd. Trwy ein presenoldeb yn fforymau cymheiriaid Gweithrediaeth Cymru Gyfan a sefydlu a chadeirio Rhwydwaith Digidol Aelodau Annibynnol Cymru rydym yn cefnogi gwell dealltwriaeth o ddulliau digidol ar draws GIG Cymru, yn ogystal ag anghenion y dyfodol.

GWEITHIO GYDA CYRFF CENEDLAETHOL, DIWYDIANT, A DARPARWYR ADDYSGOL A HYFFORDDIANT

Drwy sefydlu partneriaethau drwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth ffurfiol neu Gytundebau Partneriaeth, rydym yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein huchelgeisiau ac yn sicrhau ymagwedd gydlynol ac effeithlon at iechyd a gofal ledled Cymru a'r DU. Mae'r rhain yn cynnwys gyda GIG Lloegr, Gofal Cymdeithasol Cymru, y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol, yr Academi Dysgu Dwys Digidol a phartneriaid academaidd drwy'r WIDI.

Trwy bartneriaethau gyda sefydliadau masnachol fel Kainos a Google, rydym yn dod â'r wybodaeth a'r arbenigedd gorau i'n cynhyrchion a'n gwasanaethau ac yn helpu i ddatblygu sgiliau o fewn GIG Cymru.

YMGYSYLLTU GYDA CHLEIFION A'R CYHOEDD

Rydym wedi cynnwys dros 850 o bobl a 100 o bractisiau Meddygon Teulu mewn ymchwil defnyddwyr a gynhaliwyd drwy brofi defnyddwyr Ap GIG Cymru. Fe wnaethom hefyd sefydlu'r Grŵp Sicrwydd Cleifion a'r Cyhoedd i sicrhau bod llais y claf yn cael ei gynnwys yn ein holl waith.

DIGWYDDIADAU A GWEITHGAREDDAU YMGYSYLLTU

Mae digwyddiadau a gweithgareddau rheolaidd wedi'u cynnal i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch themâu allweddol, megis y Symposiwm Gwasanaethau Digidol i Gleifion a'r Cyhoedd a Dadansoddeg Uwch Adnoddau Data Cenedlaethol a'r sesiwn Data Mawr. Ochr yn ochr â hyn rydym wedi cynnal amrywiaeth o sesiynau darganfod a gweithdai rhaglenni a phrosiectau unigol Gwersi a Ddysgwyd gyda rhanddeiliaid i gefnogi gwell dealltwriaeth o anghenion, cyd-ddatblygiad a chyd-ddarparu'r systemau a'r atebion digidol sydd eu hangen ar bobl Cymru.

CYNHWYSIANT DIGIDOL

Gan gyd-noddi'r Uwchgynhadledd Ddigidol gyntaf, fe wnaethom archwilio materion allweddol cynhwysiant digidol ym maes iechyd a gofal a llofnodwyd Siarter Cynhwysiant Digidol Cenedlaethol Cymru i hyrwyddo'r agenda drwy chwe addewid.

CYFATHREBU

Mae cyfathrebu yn chwarae rhan allweddol wrth godi ymwybyddiaeth o'r hyn a wnawn ac effaith digidol ar ddarparu gwasanaethau gofal iechyd a llesiant cleifion.

Mewn tirwedd sy'n esblygu'n barhaus rydym yn hysbysu ac yn rhyngweithio â chynulleidfaoedd allanol a mewnol trwy gyfryngau cymdeithasol, fideo, podlediadau, digwyddiadau, cyflwyniadau gwobrau, cylchlythyrau a'r cyfryngau.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae'r Uwchgynhadledd Ddigidol gyntaf yn cysylltu iechyd, gofal a'r sectorau gwirfoddol a llwyddiant cynyddol ein sianeli cyfryngau cymdeithasol – LinkedIn, Facebook, Twitter, Instagram ac YouTube.

Yn ystod y flwyddyn, cynyddodd nifer y dilynwyr ar y cyfryngau cymdeithasol 15% i 18,296 ac mae ein cyfradd ôl-ymgysylltu gyfartalog wedi cynyddu 16% i 5.22%.

Drwyddi draw, rydym wedi canolbwyntio ar greu dealltwriaeth gyffredin o werth digidol mewn iechyd a gofal.

Cynyddodd ymwelwyr unigryw â'n gwefan 28% yn ystod y flwyddyn, gyda thraffig o Google i fyny 62%. Cynyddodd ein dilynwyr cyfryngau cymdeithasol 15%.

NEWID BUSNES

Gyda newid sylweddol mewn ffyrdd o weithio wedi'i ategu gan wasanaethau digidol newydd, rydym wedi darparu cymorth i staff GIG Cymru sy'n ddefnyddwyr newydd a phresennol o wasanaethau digidol ar draws y rhaglen gyflawni ehangach, gan weithio ochr yn ochr â defnyddwyr gwasanaethau i ddarparu cymysgedd o gymorth, cyngor technegol ar newidiadau i systemau, hyfforddiant, e-Ddysgu, fideos ac arddangosiadau.

Mae hyfforddiant a chymorth ar raddfa fawr wedi'u rhoi ar waith eleni ar gyfer Gwybodeg Canser, System Gweinyddu Cleifion Cymru, Cofnod Gofal Nyrsio Cymru a'r datrysiad interim brys 111 a oedd yn rhan o'n cefnogaeth i Feddygon Teulu yn ystod y digwyddiad seiberddiogelwch a effeithiodd ar un o'n cyflenwyr. Drwy adborth rheolaidd, mae ein tîm Newid Busnes wedi'i gydnabod fel ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol at lwyddiant y gweithredoedd allweddol hyn gan GIG Cymru.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

TYSTYSGRIF LLYSGENHADON NEWID

Mae angen llysgenhadon newid ar bob lefel o sefydliad i ymgorffori newid mewn ffyrdd ystyrion a chynaliadwy. Fel rhan o'r strategaeth i gefnogi a gwreiddio newid digidol ar draws GIG Cymru, fe wnaethom greu'r Rhaglen Llysgenhadon Newid. Wedi'i hachredu ar Lefel 6 Addysg Uwch ac wedi'i disgrifio fel rhaglen sy'n batrwm o ran rheoli newid ymddygiad gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, mae'r Rhaglen Llysgenhadon Newid yn cefnogi sefydliadau drwy greu llysgenhadon newid sy'n hyrwyddo diwylliant o groesawu a chefnogi newid.

ADBORTH I'R LLYSGENHADON NEWID

Rwyf wedi mwynhau'r rhaglen hon yn fawr: mae'r hwyluso, y cynnwys a'r cyfarfod a'r dysgu o brofiadau pobl eraill wedi bod yn wych.

Diolch yn fawr iawn am ei wneud yn brofiad dysgu anhygoel.

– Lindsay Lowe (BIP Caerdydd a'r Fro – CAMHS)

Y cwrs mwyaf diddorol i mi ei wneud trwy gydol fy ngyrfa. Hawdd i'w gymhwyso at sefyllfaoedd mewn bywyd go iawn yn wahanol i gyrsiau eraill. Cytuno, mae'r ffordd y mae wedi'i gyflwyno wedi bod yn ysgogol.

Roedd sesiynau 4 awr yn ymddangos yn frawychus ar y dechrau ond mae wedi bod yn seibiant braf o'r gwaith bob dydd, ac rwyf wedi dal i gael fy swyno a'm hysgogi drwy gydol y cwrs oherwydd yr awyrgylch calonogol a chadarnhaol.

– Rhian Davies (Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru)

Roedd hwn yn un o'r cyrsiau mwyaf cynhwysol i mi ei wneud yn ystod fy 30 mlynedd o wasanaeth gyda'r GIG, da iawn chi i gyd.

– Robert Lynch (Sicrwydd Ansawdd a Rheoleiddio Iechyd a Gofal Digidol Cymru)

Cefais lawer o brofiad o newid ac roeddwn wedi dysgu dros y blynyddoedd y ffordd orau o'i reoli. Mae'r cwrs hwn wedi fy helpu i adnabod y sgiliau yr oeddwn wedi bod yn eu defnyddio mewn cyd-destun academaidd sydd wedi fy arwain i ddysgu mwy amdanaf fy hun ac eraill sy'n profi newid.

– James Fletcher (Hyfforddai Graddedig Rheolaeth Gyffredinol GIG Cymru)

Cefais fy herio i newid, fy herio i arwain ar newid, fy herio i dyfu a'm herio i fod yn wahanol a derbyn gwahaniaeth.

– Emyr Adlam (Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre – Gwasanaethau Digidol)

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

CYFLWYNO GWASANAETHAU GWEITHREDOL


ARGAELEDD GWASANAETHAU

Mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn dibynnu ar y dechnoleg a'r gwasanaethau a ddarparwn ac yn disgwyl iddynt fod ar gael mor hawdd â chyflenwadau cyfleustodau fel nwy a thrydan. Mewn ymateb rydym yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau'r dibynadwyedd a'r argaeledd mwyaf posibl ac atal problemau rhag digwydd.

Rydym yn falch o nodi bod perfformiad cyflwyno ein gwasanaethau gweithredol yn ystod y flwyddyn yn dda gyda chyfartaledd argaeledd o 99.977% gan gynnwys cyfanswm o 45 o ddigwyddiadau yr ydym yn eu categorio fel rhai mawr; gwelsom welliant yn yr argaeledd cyffredinol yn ogystal â phrofi llai o Ddigwyddiadau TG mawr.

Digwyddiadau mawr yw'r rhai sy'n effeithio ar nifer fawr o ddefnyddwyr a gallent gynnwys materion fel oedi wrth brosesu canlyniadau profion, amser segur ar gyfer gwasanaeth neu amhariad rhannol ar wasanaeth. Roedd rhai o'r digwyddiadau hyn o ganlyniad i broblemau gyda chyflenwyr trydydd parti neu broblemau gyda'r seilwaith sydd ar waith yn adeiladau'r bwrdd iechyd.

O'r digwyddiadau TG mawr hyn roedd 96% wedi'u datrys o fewn targed yr amseroedd datrys.



Ffigur 5 - Digwyddiadau Gwasanaeth TG Arwyddocaol

SEIBERDDIOGELWCH

Mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn ffocws allweddol. Mae seiberdroseddau eang ac ansicrwydd seiber yn newydd-ddyfodiaid i'r 10 safle uchaf o'r risgiau mwyaf difrifol dros y degawd nesaf, a gyhoeddwyd yn Adroddiad Risgiau Byd-eang Fforwm Economaidd y Byd. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi datblygu cynllun gwella Seiber 3 blynedd y mae ein Bwrdd wedi cytuno arno ac rydym hefyd yn cynnal Uned Seiberddiogelwch, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i adolygu a chynorthwyo pob un o Weithredwyr y Gwasanaethau Hanfodol (OES) ar draws GIG Cymru i werthuso eu lefel o seiberddiogelwch a'u cadernid, yn seiliedig ar ofynion y Rheoliadau NIS (Rhwydwaith a Systemau Gwybodaeth).

DESG GWASANAETH

Mae ein Desg Gwasanaeth TG sydd wedi ennill gwobrau yn darparu un pwynt cymorth uniongyrchol i dros 16,000 o staff mewn Practisiau Meddygon Teulu, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Iechyd a Gofal Digidol Cymru, yn ogystal â rhai sefydliadau cenedlaethol eraill. Mae'r tîm hefyd yn bwynt uwchgyfeirio ar gyfer desgiau gwasanaeth lleol holl sefydliadau GIG Cymru, gan helpu i ddatrys materion a cheisiadau a godir gan fyrddau ac ymddiriedolaethau iechyd.



Yn dilyn archwiliad llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2022, cadwodd desg wasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei hachrediad 3-seren gan y Sefydliad Desgiau Gwasanaeth fel desg wasanaeth a arweinir gan gwsmeriaid. Mewn blwyddyn o addasiadau ailffocysodd y Ddesg Wasanaeth yn dilyn gostyngiad mewn gweithgaredd cymorth Profi Orlhain Diogelu (Covid-19):

- Eleni llwyddodd y Ddesg Wasanaeth i gyflawni dros 220,000 o docynnau cymorth o bob rhan o GIG Cymru
- Ar gyfartaledd, llwyddodd y Ddesg Wasanaeth i ateb 94.3% o alwadau (h.y. y gyfradd galwadau sy'n cael eu gadael cyn eu hateb yw 5.7% ar gyfartaledd ar draws y flwyddyn).

Mae ein Desg Wasanaeth yn casglu adborth am ansawdd y gwasanaeth ac yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbyniwyd, mae wedi cynnal cyfradd boddhad cwsmeriaid o 95%+.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Ffigur 6 - Digwyddiadau a Cheisiadau Gwasanaethau a Dderbyniwyd



Ffigur 7 - Boddhad Cwsmeriaid

GWOBRAU A CHANMOLIAETH

Yn 2022-23 cafodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei gydnabod am ennill y gwobrau a'r ganmoliaeth ganlynol:

[Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ennill 'Y Lle Gorau i Weithio ym maes TG' 2022](#)

Fe'i cydnabuwyd gan Gymdeithas Cyfrifiaduron Prydain fel y lle gorau i weithio i weithwyr TG proffesiynol yn y DU.

[Enillwyr SAIL yng Ngwobrau Ymchwil ac Arloesi Prifysgol Abertawe](#)

Cydnabyddiaeth am gyfraniad rhagorol i ymchwil ac arloesi.

[Cyfarwyddwr Cyllid Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ennill Arweinydd Cyllid y Flwyddyn mewn gwobrau cenedlaethol](#)

[Canmolwyd aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru am gyfraniadau at gydraddoldeb hiliol a chynhwysiant](#)

Enillodd Marilyn Bryan-Jones, a benodwyd yn Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ddiweddar, wobr yng Ngwobrau Cymunedol Cenedlaethol Hanes Pobl Ddu Cymru 2022 am ei chyfraniadau at gydraddoldeb hiliol a chynhwysiant.

[Derbyniodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ganmoliaeth uchel yng Ngwobrau Go Cymru](#)

Cafodd tîm caffael Iechyd a Gofal Digidol Cymru ganmoliaeth uchel yng nghategori caffael cydweithredol Gwobrau Go Wales am eu gwaith ar Gytundeb Microsoft Enterprise Cymru.

[Menter gydweithredol llyfrgelloedd GIG Cymru yn ennill gwobr 'Tîm y Flwyddyn' am raglen hyfforddi genedlaethol](#)

Enillodd menter gydweithredol rhwng Gwasanaethau Llyfrgell a Gwybodaeth GIG Cymru (NHSWLKS) ac e-Lyfrgell GIG Cymru 'Wobr Tîm y Flwyddyn Llyfrgelloedd Cymru 2022' CILIP Cymru Wales am gynhyrchu rhaglen arloesol o hyfforddiant byw ac wedi'i recordio ymlaen llaw i ddefnyddwyr llyfrgell a gyflwynwyd i staff y GIG ledled Cymru.

[Cofnodion nyrsio yn cael eu digideiddio ac yn cipio gwobr yng ngwobrau MediWales](#)

Cafodd effaith Cofnod Gofal Nyrsio Cymru (WNCR) i gleifion mewnol sy'n oedolion ei gydnabod yng Ngwobrau MediWales 2022, gan ennill gwobr iechyd a gofal y beirniaid.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

PERFFORMIAD YN UNOL Â FFRAMWAITH DARPARU GIG CYMRU 2022-23 (MESURAU BLAENORIAETH CYFNOD 1)

ASESU DARPARU GWASANAETH A MESURAU ALLWEDDOL Y GIG

Fel Awdurdod Iechyd Arbennig, mae rôl gyflawni Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn canolbwyntio ar raglenni digidol a gwasanaethau TG gweithredol i gefnogi gofal cleifion a c i boblogi data cleifion yn y cofnod gofal iechyd digidol. Felly, nid yw mwyafrif mesurau Fframwaith Cyflawni GIG Cymru yn berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Manylir ar y rhai perthnasol isod:

Y GWEITHLU

MESUR CYFLAWNI 23

Gwariant ar Asiantaethau fel canran o gyfanswm y bil cyflog.

Targed – tuedd o ostyngiad dros 12 mis. Adroddiadau misol trwy'r Ffurflenni Monitro Ariannol.

Canlyniad: Gweler yr adran cyllid

Sylwch fod cyd-destun gwariant iechyd a Gofal Digidol Cymru ar asiantaethau yn wahanol i wariant ehangach ysbytai GIG Cymru sy'n gysylltiedig yn bennaf â lefelau staffio banc. O fewn ein sefydliad mae'n adlewyrchu buddsoddiad digidol a gyfyngir gan amser a mentrau buddsoddi a ategir gan staff asiantaeth/trydydd parti hyblyg.

MESUR CYFLAWNI 26

Canran y gydymffurfiaeth ar gyfer yr holl gymwyseddau lefel 1 a gwblhawyd ar gyfer y Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant.

Targed – 85%. Adroddir yn fisol trwy'r Cofnod Staff Electronig (ESR).

Canlyniad – 91.8%

MESUR CYFLAWNI 27

Canran cyfradd salwch staff

Targed – tuedd o ostyngiad dros 12 mis. Adroddir yn fisol trwy'r ESR.

Canlyniad – Canran gyfartalog cyfradd salwch staff yw 3%

MESUR CYFLAWNI 28

Canran nifer yr unigolion fesul sefydliad sydd wedi cael Adolygiad Gwerthuso a Datblygu Personol (PADR) yn y 12 mis blaenorol.

Targed – 85%. Adroddir yn fisol trwy'r Cofnod Staff Electronig (ESR)

Canlyniad – 84%

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

YR ECONOMI A'R AMGYLCHEDD

MESUR CYFLAWNI 32

Adroddir am allyriadau yn unol â Dull Adrodd am Garbon Sero Net yn Sector Cyhoeddus Cymru.

Targed – gostyngiad o 16% mewn allyriadau carbon erbyn 2025 yn erbyn llinell sail GIG Cymru 2018/19. Adroddiadau blynyddol trwy Ffurflen Allyriadau ar Lefel Sefydliad.

Canlyniad - Gweler Ein Hadran Ôl Troed Carbon

MESUR CYFLAWNI 33

Adroddiad ansoddol yn manylu ar gynnydd cyfraniad GIG Cymru at ddatgarboneiddio a amlinellwyd yng nghynllun y sefydliad.

Targed – tystiolaeth o welliant. Adroddiad Monitro Ansoddol Sefydliadol chwe mis

Canlyniad - Rydym yn darparu adroddiad bob chwe mis i Lywodraeth Cymru, a gynhwysir yn eu cyhoeddiad o Fesurau GIG Cymru

MESUR CYFLAWNI 34

Adroddiad ansoddol yn manylu ar dystiolaeth bod GIG Cymru yn datblygu ei ddealltwriaeth a'i rôl o fewn yr Economi Sylfaenol trwy gyflawni Rhaglen yr Economi Sylfaenol mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

Targed – cyflawni mentrau'r Economi Sylfaenol a/neu dystiolaeth o welliannau yn y broses gwneud penderfyniadau. Adroddiad Monitro Ansoddol Sefydliadol chwe mis

Canlyniad – Rydym yn darparu adroddiad bob chwe mis i Lywodraeth Cymru, a gynhwysir yn eu cyhoeddiad o Fesurau GIG Cymru

Y GYMRAEG

MESUR CYFLAWNI 50

Adroddiad ansoddol yn darparu tystiolaeth o gamau gweithredu i gyflawni amcanion Y Gymraeg fel y'u diffinnir yn y Cynllun Gweithredu Mwy Na Geiriau.

Targed – Ffurflen Monitro Mwy na Geiriau

Canlyniad - Gweler yr Adran ar yr Iaith Gymraeg

COMPLAINTS

MESUR CYFLAWNI 59

Canran y cwynion sydd wedi cael ateb terfynol (o dan reoliad 24) neu ateb dros dro (o dan reoliad 26) hyd at ac yn cynnwys 30 diwrnod gwaith o'r dyddiad y daeth y gwyn i law'r sefydliad gyntaf.

Targed – 75%

Canlyniad - Gweler yr Adran Gwynion

Tollex Cyf
21/09/2022 12:23:19

DATGANIAD CYMDEITHASOL MANWL

DATGELIAD ARFER GORAU

Mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau lechyd a Gofal Digidol Cymru o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â holl rwymedigaethau'r cyflogwr sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn cyd-fynd â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r cyfnodau amser sydd wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau.

GWALLAU O RAN DIOGELWCH GWYBODAETH/DATA

Mae deddfwriaeth diogelu data yn ei gwneud yn ofynnol, pan fo achosion o dor diogelwch data personol yn torri maen prawf penodol, eu bod yn cael eu hysbysu i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fel y corff statudol ar gyfer diogelu data yn y DU. Asesir digwyddiadau o lywodraethu gwybodaeth yn erbyn y trothwy ar gyfer hysbysu gan ein tîm Llywodraethu Gwybodaeth.

Cyflwynir adroddiadau am ddigwyddiadau sy'n cynnwys tor diogelwch data i'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth i'w harchwilio. Ar gyfer y flwyddyn 2022-2023, ni hysbyswyd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am unrhyw achosion o dor diogelwch data personol.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd cydymffurfiaeth staff â'r hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth yn Fframwaith Hyfforddiant Sgiliau Craidd GIG Cymru yn 88.6% yn erbyn targed o 85%.

PARODRUYDD AM ARGYFWNG

Mae angen i'r GIG yng Nghymru gynllunio ar gyfer ac ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau brys a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion. Er nad yw Awdurdodau Iechyd Arbennig GIG Cymru wedi'u cynnwys yn narpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i lechyd a Gofal Digidol Cymru barhau i ymgysylltu a chymryd rhan mewn cynlluniau brys ac wrth gefn ar gyfer Cymru. Felly mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cael cyfarwyddyd ffurfiol (o dan bwerau Deddf GIG Cymru 2006) i barhau i:

- Gynnal asesiadau risg
- Cynnal a phrofi trefniadau ymateb brys a rheoli parhad busnes yn rheolaidd yn unol â safonau perthnasol; a
- Chydweithio â sefydliadau eraill ar drefniadau paroddrwydd ar gyfer argyfyngau ac ymatebion brys.

Ers iddo weithredu yn y modd parhad busnes yn ystod yr ymateb i bandemig Covid-19, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi parhau â'i ymagwedd gydweithredol at barhad busnes a chynllunio at argyfwng trwy aelodaeth weithredol o nifer o grwpiau cynllunio ledled Cymru.

Mae ein trefniadau parhad busnes yn gweithio'n effeithiol ac yn parhau i wella gydag adnoddau a ffocws ychwanegol ar barhad busnes a chynllunio at argyfwng.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein paroddrwydd ar gyfer argyfwng trwy gael ein cynnwys mewn fframweithiau ymateb ac adfer aml-asiantaeth.

DYLETSWYDD CYDRADDOLDEB Y SECTOR CYHOEDDUS

Rydym yn gofyn barn ein pobl, staff posibl, partneriaid a'r gymuned i wneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ddata ac rydym yn gweithio gydag arloeswyr i ysgogi gwelliant parhaus tuag at gynhwysiant, amrywiaeth a chydraddoldeb, gan ymdrechu i ddod yn esiampl yn y sector. Rydym yn cydnabod bod cynhwysiant yn gyfrifoldeb i bawb a thrwy hwyluso, hyfforddi, cefnogi a rheoli perfformiad byddwn yn gwreiddio diwylliant sy'n gynhwysol a gwrthwahaniaethol, gan ddangos y gwerthoedd a'r ymddygiadau craidd fel bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael ei gydnabod fel model rôl ac yn lle gwych i weithio iddo.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddatblygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-2027 a chawsom ein hasesu gan gorff achredu allanol a arweiniodd at:

- Gadw ein hardystiad i Safon BS76000 Gwerthfawrogi Pobl
- Ail-ardystio i Safon BS 76005 Gwerthfawrogi Pobl trwy Gynnwys Amrywiaeth

Mae agwedd systematig at Asesiadau'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein helpu i osod cydraddoldeb, amrywiaeth, cydlyniant ac integreiddio wrth wraidd popeth a wnawn ac mae ein strategaethau, ein polisiau, ein gwasanaethau a'n swyddogaethau yn gwneud yr hyn a fwriadwyd, ar gyfer pawb.

Strategaeth Cynaliadwyedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw'r lefel uchaf o wybodaeth sy'n cael ei dogfennu sy'n rhoi cyfeiriad cyffredinol i agweddau amgylcheddol y System Reoli Integredig (IMS).

Fe wnaethom sefydlu Strategaeth Cynaliadwyedd yn seiliedig ar gyfuno prosesau cyfredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru â gofynion System Rheoli Amgylcheddol ISO 14001:2015, fel offeryn strwythuredig a systematig, i gyflawni ein mandad i ddiogelu'r amgylchedd a'i adnoddau naturiol.

Dyma'r egwyddor arweiniol i sefydlu, gweithredu a chynnal ein perfformiad a'i wella'n barhaus o ran rheoli agweddau amgylcheddol a rhwymedigaethau cydymffurfedd, er mwyn rheoli'r risg o fygythiadau a chyfleoedd, a bodloni anghenion a disgwyliadau partion â buddiant.

Yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, rydym yn cydnabod yr effaith bosibl y gallem ei chael ar yr amgylchedd ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i leihau'r effaith hon ar draws cwmpas ein gwasanaethau gweithrediadau. Drwy wella, cynyddu ein cyfathrebu a rhoi mwy o ffocws ar sut rydym yn cael gwared ar ein gwastraff, rydym wedi dod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd. Rydym wrthi'n ymdrechu i fesur a lleihau ein hól troed carbon er mwyn hybu cynaliadwyedd. Er bod llawer o weithgareddau a allai leihau cyfanswm y nwyon tŷ gwydr yr ydym yn eu hallyrru fel sefydliad, credwn fod yn rhaid eu cyflawni fel rhan o raglen gydlynol a rhesymegol i sicrhau trawsnewid llwyr. Yn holl bwysig, mae ein dull wedi'i seilio ar y gred bod rhaid i unrhyw gamau a gymerir ystyried nid yn unig sut i fynd i'r afael â'r allyriadau CO2 a gynhyrchir, ond hefyd sut gallwn ni ddod yn garbon effeithlon.


Mae enghreifftiau o'r cynnydd a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cymryd camau gweithredu a nodwyd ar gyfer y flwyddyn yn ein map Datgarboneiddio yn ein Cynllun Cyflawni Strategol, a ddatblygwyd i hybu ein rhan yng nghynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer Sero Net.
- Ymuno â Grŵp Cynaliadwyedd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a bod yn aelod gweithgar o nifer o fforymau Newid Hinsawdd i Gymru.
- Ffurio ein Grŵp Datgarboneiddio ein hunain i weithio drwy ein Camau Datgarboneiddio a sicrhau arfer gorau.
- Ymateb i Bum Galwad yr Archwilydd Cyffredinol i Weithredu
- Cynyddu nifer y cerbydau fflyd trydan yn Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Cynyddu pwyntiau gwefru Cerbydau Trydan yn ein swyddfeydd
- Gweithio hybrid yn dilyn y model a ddatblygwyd yn ystod Covid-19, gan ei gwneud yn bosibl i resymoli stadau a fydd yn arwain at lai o ôl troed carbon
- Cyflawni sgôr sicrwydd "sylweddol" ar gyfer ein prosesau Rheoli Gwastraff.
- Parhau i fonitro defnydd o gyfleustodau, gwastraff a phapur.

DATGANIAD AMGYLCHEDDOL

CYNLLUN GWEITHREDU DATGARBONEIDDIO

Mae 100% o'r gwaith cyflawni yn erbyn cynllun gweithredu datgarboneiddio 2022-23 wedi'i gwblhau. Mae ein tueddiad blynyddol o ran yr amgylchedd yn gadarnhaol, gydag allyriadau gweithredol ar hyn o bryd yn dangos gostyngiad o 39% (1090tCO₂e) ar gyfer 2022-23, o gymharu â'n blwyddyn waelodlin yn 2019-20.



Rydym yn parhau i fesur allyriadau ar draws sawl categori i sicrhau bod dull gweithredu cynhwysfawr ar waith i leihau lefelau CO₂.

Mae Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru yn dangos sut gall GIG Cymru gyfrannu at adferiad a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynd i'r afael â heriau parhaus hirdymor fel tlodi, annhegwch iechyd, a'r newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn cydnabod yr argyfwng hinsawdd a'r angen i bawb yn y sector cyhoeddus gyfrannu at y nod uchelgeisiol i Gymru gyrraedd statws carbon sero net erbyn 2050 a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ar ddiwedd 2021, fe wnaethom ddatblygu Cynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud. Mae'r cynllun cyflawni hwn yn edrych o'r newydd ar ein hanghenion o ran adeiladau ac ynni, yn ogystal â chaffael, teithio, a ffynonellau allyriadau eraill. Mae rhai o'r allyriadau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth uniongyrchol; gan amlygu'r her sy'n ein hwynebu wrth weithio ar y cyd i ddylanwadu ar benderfyniadau pobl eraill.

Fel sefydliad digidol, rydym mewn sefyllfa unigryw i gyfrannu at leihau allyriadau carbon ar draws y GIG ehangach trwy ddarparu a gwella atebion digidol, fel y rhai sy'n galluogi trosglwyddo a storio gwybodaeth yn ddigidol ac atebion sy'n galluogi ymgynghori o bell.

Trey, Laura
21/09/2023 12:23:59

EIN HÔL TROED CARBON

Mae allyriadau carbon yn rhan bwysig o fesur effaith amgylcheddol. Mae ein hól troed carbon yn cael ei gyfrifo fel cyfanswm yr allyriadau nwyon tŷ gwydr (GHG) a gynhyrchir o ganlyniad i'n gweithgareddau a'n gwasanaethau, wedi'i fynegi fel carbon deuocsid cyfatebol.

Mesurodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru allyriadau gyntaf yn 2019-20 (fel y sefydliad a'i rhagflaenodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru). Adwaenir hyn fel ein blwyddyn sylfaen. Roedd y rhan fwyaf o'n hól troed carbon gweithredol yn ystod y flwyddyn hon i'w briodoli i drydan (80%) a nwy (18%). Cyfanswm yr allyriadau gweithredol yn ystod 2019-20 oedd 2748 MtCO₂e (tunelli metrig o garbon deuocsid cyfatebol).

Yn ystod Blwyddyn 2 (2020-21), gwelwyd gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau o 27% i 2011 MtCO₂e, sy'n gadarnhaol iawn, a gwelwyd gostyngiad sylweddol mewn allyriadau trydan oherwydd newid i gyflenwr ynni adnewyddadwy.

Cyfrannodd gweithio o bell hefyd at ostyngiad mewn allyriadau adeiladau ond rhoddwyd cyfrif amdano mewn ffordd wahanol i adlewyrchu allyriadau gweithio gartref.

Yn ystod Blwyddyn 3 (2021-22), gwelsom ostyngiad pellach yn ein hallyriadau (37% o'n blwyddyn sylfaen) i 1719 MtCO₂e oherwydd ystod o fesurau gan gynnwys adolygiadau o gontractau cyfleustodau a dechrau symud at fflyd o gerbydau trydan. Parhaodd mwyafrif y staff i weithio o bell drwy gydol y flwyddyn.

Ffigur 8 - Operational Emissions Comparison 2022/23 vs 2019/20

Nodiadau ar gategorïau uwch:


- Mae Nwy-F yn gategori adrodd newydd
- Mae cynnydd mewn gweithio gartref i'w ddisgwyl yn unol â'r ffyrdd presennol o weithio. Mae hyn yn cael ei wrthbwysio gan gymudo yn gweld gostyngiadau sylweddol.
- Cerbydau Fflyd - oherwydd llwythi gwaith y prosiect
- Gwasanaethau Cleient/cynyddu darpariaethau gwasanaeth.

Ym Mlwyddyn 4, mae allyriadau gweithredol ein blwyddyn adrodd bresennol (2022-23) wedi parhau i ostwng i 1658 MtCO₂e ac rydym bellach yn nodi gostyngiad o 39% yn erbyn ein blwyddyn sylfaen.

Mae categori adrodd newydd wedi'i gyflwyno yn ymwneud â Nwy-F sy'n gysylltiedig â systemau aerdymheru.

Rydym yn rhagweld y bydd ein hól troed carbon gweithredol yn lleihau ymhellach yn 2023-24 gyda gwaith ad-drefnu stadau (un safle i'w gau) a chwblhau prosiect i amnewid y goleuadau gwreiddiol â goleuadau LED mewn dau safle mawr ar ddiwedd 2022/23.

| Allyriadau Gweithredol | 2021-22 | 2022-23 |
|------------------------|---------------------------|-------------|
| Canolfannau Data | 660 | 458 |
| Gweithio Gartref | 601 | 562 |
| Trydan Adeiladau | 292 | 274 |
| Cymudo | 70 | 87 |
| Nwy Adeiladau | 58 | 49 |
| Fflyd | 25 | 25 |
| Teithio Busnes | 11 | 32 |
| Dŵr | 1 | 1 |
| Gwastraff | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 1719 | 1489 |
| NEWYDD | | |
| Nwy-F | Ddim yn berthnasol | 169 |
| Cyfanswm | 1719 | 1658 |



CRYNODEB ARIANNOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cwblhau ei ail flwyddyn lawn o weithredu ers trosglwyddo o fod yn gorff a gynhelir o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre i'w statws Awdurdod Iechyd Arbennig statudol ei hun.

Rydym wedi parhau i gryfhau systemau ariannol, rheolaethau, llywodraethu ac adrodd sydd eu hangen i fodloni gofynion statudol ac anghenion busnes o fewn cyd-destun heriol cyllid y GIG a gweithredu buddsoddiadau newydd.

Arweiniodd atebion digidol a oedd yn cefnogi'r ymateb parhaus i Covid-19 (gan gynnwys systemau Profi Olrhain Diogelu ac Imiwneiddio Torfol Llywodraeth Cymru), at ofyniad ychwanegol o £9.128 miliwn o refeniw. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw effaith ariannol ychwanegol ar ein gallu i adennill costau. Rydym hefyd yn arwain y gwaith o gyflawni nifer o fentrau digidol a gefnogir gan Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethu Digidol Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2022-23 derbyniodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru £31.4 miliwn mewn cyllid refeniw a £9.3 miliwn mewn cyfalaf. Bydd y ffocws yn y dyfodol yn parhau ar ddarparu gwybodaeth ac atebion digidol o'r radd flaenaf i gefnogi gofal cleifion a gwasanaethau dinasyddion effeithiol. Bydd rhai yn gofyn am newidiadau mewn technoleg (megis trosglwyddo i wasanaethau cwmwl yn gyntaf) a fydd yn gofyn am addasiadau i fodelau ariannu cynaliadwy er mwyn i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyrraedd targedau ariannol.

TARGEDAU ARIANNOL

Mae dyletswyddau ariannol statudol Awdurdodau Iechyd Arbennig wedi'u hamlinellu yn adran 172 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

DYLETSWYDD ARIANNOL GYNTAF

Mae adran 172(1) yn nodi'r hyn y cyfeirir ati fel y 'Ddyletswydd Ariannol Gyntaf' – dyletswydd i sicrhau nad yw gwariant Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn fwy na chyfanred y cyllid a ddyrennir iddo ar gyfer blwyddyn ariannol. Eglurodd y pwerau cyfarwyddo yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) adran 172(6), WHC/2019/004 fod y ddyletswydd ariannol statudol flynyddol yn cael ei gosod ar wahân ar gyfer dyraniadau adnoddau Refeniw a Chyfalaf. Rhoddwyd dyraniadau adnoddau Refeniw a Chyfalaf i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 a byddant yn sail i asesiad o'r Ddyletswydd Ariannol Gyntaf yn y cyfrifon statudol.

AIL DDYLETSWYDD ARIANNOL

Yr 'Ail Ddyletswydd Ariannol' ar gyrff y GIG yng Nghymru yw'r ddyletswydd i baratoi cynllun ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt.

Ymatebodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru i Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022-2025 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gyda Chynllun Tymor Canolig Integredig tair blynedd, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2022. Nid oedd hwn yn ofyniad statudol ar gyfer Awdurdodau Iechyd Arbennig, ac o dan Ddeddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014 nid oedd angen cymeradwyaeth Gweinidogol ar y cynllun; fodd bynnag, fe'i derbyniwyd a'i nodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2022.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

PERFFORMIAD ARIANNOL

CRYNODEB O BERFFORMIAD ARIANNOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn adrodd ar gyflawni'r holl dargedau ariannol a osodwyd

- Dyletswydd i adennill costau - Mae gofyniad blynyddol ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y terfynau Adnoddau a Chyfalaf a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Fe wnaethom adrodd am warged refeniw o £0.073 miliwn a thanwariant cyfalaf o £0.088 miliwn ar gyfer y flwyddyn ariannol, gan felly gyflawni ein dyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb.
- Cynhyrchodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynllun Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2022-2023 yn unol â gofynion Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.
- Taliadau credydwyd – Mae'n ofynnol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag a ddaw yn olaf). Rydym wedi cyrraedd y targed hwn, gan dalu 98% o anfonebau o fewn yr amserlen ofynnol.

FFIOEDD A THALIADAU – TÂL YR ARCHWILYDD

Y ffioedd a dalwyd i Archwilio Cymru am yr archwiliad statudol a'u harchwiliad ar berfformiad oedd £188,852.

TRAFOD PRYDERON A CHWYNION

Mae ein polisi Ymdrin â Phryderon a Chwynion yn canolbwyntio ar ddatrysiad cyflym, gan amlinellu'r amserlenni targed ar gyfer ymatebion, yn ogystal â phwyslais ar ddysgu sefydliadol i fod yn sail i'r gwaith o wella gwasanaethau.

Derbyniwyd cyfanswm o dair cwyn a dim pryderon yn ystod 2022-23.

Cafodd pob un eu datrys o fewn yr amseroedd a amlinellwyd yn ein polisi.

Ar hyn o bryd, nid yw Awdurdodau Iechyd Arbennig yn rhan o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â pholisi cwynion y GIG 'Gweithio i Wella', sydd wedi'i fwriadu ar gyfer sefydliadau sy'n delio â chleifion.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

GWERSI A DDYSGWYD

Fel sefydliad yn ein hail flwyddyn, fe wnaethom barhau i osod targedau uchelgeisiol, wrth addasu i heriau newydd a chamu i'r rôl o arwain systemau i fod yn sefydliad digidol GIG Cymru. Mae ein Grŵp Adolygu Digwyddiadau a Dysgu wedi rhoi nifer o welliannau ar waith o ganlyniad i wersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod, ac mae agweddau allweddol yn cynnwys:

Gwella proses, dogfennaeth ac offer **Cyfathrebu'r Ddesg Gwasanaeth** Arweiniodd yr adolygiad at fwy o gysondeb mewn cyfathrebu o'r Ddesg Wasanaeth, gydag iaith symlach ar gyfer defnyddwyr, a llif gwybodaeth gwell ar draws timau.

Gwella proses, dogfennaeth, adnoddau a hyfforddiant **Rheoli Digwyddiadau Mawr y Gwasanaeth TG**. Adolygodd gweithgor bob agwedd ar reoli digwyddiadau mawr a chyflawnodd gyfres o welliannau i wneud y broses a oedd gynt yn gymhleth yn haws ei gweithredu i'r rhai dan sylw.

Gwelliannau i'r broses adolygu digwyddiadau gan ddefnyddio Fframwaith Ffactorau Cyfrannol Swydd Efrog i ddatblygu dealltwriaeth fwy soffistigedig o'r ffactorau sy'n achosi digwyddiadau.

Gwelliant i'r broses Rheoli Newid technegol i sicrhau mwy o gysondeb o ran dull gweithredu gan reolwyr newid a byrddau cynghori newid. Mae byrddau cynghori ar newid yn craffu'n ddyfnach ar newidiadau a roddir ar waith, ac mae gwell cysylltiadau ag achosion ar ôl newid, gan ddarparu dysgu sy'n bwydo'n ôl i'r broses ar gyfer mireinio pellach.

Gwersi o ran y gweithlu a diwylliant o ganlyniad i arolygon staff a chofnodion eraill. Mae'r gwersi a ddysgwyd wedi dylanwadu ar y Weledigaeth a'r Gwerthoedd newydd, yn ogystal â pholisïau'r gweithlu, a phrosesau ar gyfer dechreuwyr a'r rhai sy'n gadael.

Gwellt'r gwaith o hyrwyddo a chyfathrebu Gwersi a Ddysgwyd i hyrwyddo arfer gorau o ran Rheoli Gwasanaethau TG a rhannu'r dysgu â chydweithwyr ar draws y sector.

CASGLIAD AC EDRYCH YMLAEN

Yn ein hail flwyddyn gwelsom dwf, her a newid sylweddol, wrth i ni wreiddio'r sefydliad o fewn teulu GIG Cymru. Mae'r hyn yr ydym yn ei ddarparu yn bwysig i weithwyr iechyd proffesiynol ac i bobl Cymru, a pho uchaf yw ansawdd ein darpariaeth, y gorau yw'r siawns o ganlyniad cadarnhaol.

Ein Gwasanaethau TG yw sylfaen gallu digidol GIG Cymru, ac mae cynnal argaeledd gwasanaethau ar 99.977% wedi sicrhau bod amhariadau technolegol wedi'u cadw i isafswm, wedi'u hategu gan fireinio a rheoli systemau ychwanegol, gan gynnwys ein dull seiberddiogelwch, wrth edrych tua'r dyfodol.

Rydym yn falch o gefnogi ein cydweithwyr yn GIG Cymru, sy'n darparu'r gwasanaethau digidol sydd bellach mor hanfodol ar gyfer gofal cleifion effeithlon ac effeithiol, ac rydym yn edrych ymlaen at wynebu'r heriau a chrosawu'r cyfleoedd a ddaw yn ystod y flwyddyn i ddod.

Mae hyblygrwydd wrth gyflawni ein cynllun yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r pethau iawn ar yr amser iawn; byddwn yn parhau i adeiladu ar y dull hwn, gan ystyried anghenion rhanddeiliaid a'r blaenoriaethau gweinidogol a nodwyd yn glir sy'n llywio'r hyn a wnawn.

Wrth edrych i'r dyfodol byddwn yn parhau i gefnogi staff GIG Cymru gyda systemau a datrysiadau data modern i ddarparu mewnwelediad ac i gyflwyno'r Ap a fydd yn galluogi dinasyddion Cymru i reoli eu hiechyd eu hunain yn well.

Mae meysydd allweddol yn cynnwys symud ymlaen gyda systemau newydd ar gyfer gofal critigol a gofal brys a datblygu gwasanaethau sy'n wynebu dinasyddion ymhellach i drawsnewid llwybrau gofal, yn ogystal â chynnal y ffocws cryf ar ddatblygu ein sefydliad trwy dwf mewn sgiliau, gallu a diwylliant.

Fel sefydliad blaengar, byddwn yn parhau i weithio gyda'n rhanddeiliaid a'n partneriaid i sicrhau bod ein datrysiadau digidol yn gwneud bywyd yn haws i bawb, yn cael effaith wirioneddol, ac yn gosod data ac ansawdd iechyd wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae ein hamcanion ymestynnol wedi'u nodi yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig diweddaraf 2023 – 2026

YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD A'R CYFRIFON

ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Mae'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol yn rhoi trosolwg o'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu a oedd ar waith ar draws Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystod 2022/23. Mae'n cynnwys:

Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae hwn yn nodi'r trefniadau a'r strwythurau llywodraethu ac yn dwyn ynghyd sut mae'r sefydliad yn rheoli llywodraethu, risg a rheolaeth.

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

Rhoi manylion y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn ystod y flwyddyn. Darperir peth o'r wybodaeth a fyddai'n cael ei dangos yma fel arfer mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a thynnir sylw at hyn lle bo'n berthnasol.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG ATEBOL YR AWDURDOD IECHYD ARBENNIG

Mae'r Swyddog Atebol, y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid yn cadarnhau eu cyfrifoldebau wrth baratoi'r datganiadau ariannol a bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, yn eu cyfanwydd, yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy. Rwyf yn gyfrifol am awdurdodi cyhoeddi'r datganiadau ariannol ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Y DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

CWMPAS Y CYFRIFOLDEBAU

Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn atebol am:

- osod y cyfeiriad strategol
- y fframwaith llywodraethu
- naws a diwylliant sefydliadol
- llywio'r derbynoldeb risg a goruchwyllo risgiau strategol
- datblygu perthnasoedd cryf gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol
- creu a chyflawni Strategaeth Hirdymor y sefydliad yn llwyddiannus.

Mae'r Bwrdd yn atebol am Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol. Fel Prif Weithredwr y Bwrdd, mae gennyf gyfrifoldeb dros gynnal strwythurau a phrosesau llywodraethu priodol ynghyd â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu'r arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad yr wyf yn gyfrifol amdanynt yn bersonol. Cyflawnir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol yn amlinellu'r gwahanol ffyrdd y mae'r sefydliad wedi gweithio'n fewnol a gyda phartneriaid yn ystod 2022/23. Mae'n egluro'r trefniadau ar gyfer sicrhau bod safonau llywodraethu'n cael eu cynnal, bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru, a bod sicrwydd wedi'i geisio a'i ddarparu. Lle bo angen, darperir gwybodaeth ychwanegol yn y Datganiad Llywodraethu, ond y bwriad oedd lleihau dyblygu lle bo modd. Felly mae angen adolygu adrannau eraill yn yr Adroddiad Blynyddol ochr yn ochr â'r Datganiad Llywodraethu hwn.

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn egluro cyfansoddiad a threfniadaeth strwythurau llywodraethu Iechyd a Gofal Digidol Cymru a sut maen nhw'n cefnogi cyflawni ein hamcanion. Mae cefndir Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ei swyddogaethau a'i gynlluniau wedi'u hamlinellu yn yr Adroddiad Perfformiad.

Mae'r Bwrdd ar frig ein system llywodraethu a sicrwydd mewnol. Mae'n gosod amcanion strategol, yn monitro cynnydd, yn cytuno ar gamau gweithredu i gyflawni'r amcanion hyn ac yn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith ac yn gweithio'n iawn. Mae'r Bwrdd hefyd yn cael sicrwydd gan ei bwyllgorau, asesiadau yn erbyn safonau proffesiynol a fframweithiau rheoleiddio.

BOD YN AGORED AC YN DRYLOYW

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyniadau i Gyfarfodydd) 1960 ac yn ogystal â bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i sicrhau ein bod mor agored a thryloyw â phosibl, rydym yn:

- Ffrydio byw ac yn recordio ein cyfarfodydd Bwrdd Cyhoeddus ac yn eu postio i'n gwefan o fewn 3 diwrnod gwaith i'r cyfarfod gael ei gynnal
- Cofnodi ein cyfarfodydd Pwyllgor ac yn eu postio i'n gwefan o fewn 3 diwrnod gwaith i gynnal y cyfarfod
- Rhoi gwybod i randdeiliaid am ein bwriad i gynnal cyfarfodydd Bwrdd 10 diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Rhannu papurau ag aelodau 7 diwrnod o flaen llaw, ac yn cyhoeddi papurau cyhoeddus i'n gwefan 7 diwrnod cyn cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Darparu adroddiad uchafbwyntiau o holl gyfarfodydd y Pwyllgor a'r Grŵp Cynghori, gan gwmpasu unrhyw eitemau agenda a drafodwyd yn gyhoeddus i'r Bwrdd a chyhoeddi'r rhain ar ein gwefan

Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn Bwyllgor preifat o'r Bwrdd, yn ogystal mae'r grŵp cynghori unigol, y Fforwm Partneriaeth Lleol (LPF) yn breifat ar hyn o bryd, ond er mwyn ymrwmo i fod yn agored ac yn dryloyw, rhennir adroddiad uchafbwyntiau o'r ddau gyfarfod ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd Cyhoeddus.

Mae'r cyfnod adrodd ar gyfer y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023.

Yn ystod 2022/23, cytunodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i gydweithio i graffu ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru. [Cyhoeddwyd y cylch gorchwyl a'r dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgorau](#), a buom hefyd mewn [sesiwn lafar ar 26 Hydref 2022](#).

Bu Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn cefnogi [ymchwiliad undydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar gyfiawnder data a'r defnydd o ddata personol ar y GIG](#). Mynychodd cynrychiolwyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru yr [ymchwiliad ar 27 Mawrth 2023](#).

EIN FFRAMWAITH LLYWODRAETHU A'N SYSTEM SICRWYDD

Bwriad rheolau sefydlog Iechyd a Gofal Digidol Cymru yw trosi'r [gofynion statudol](#) a amlinellir yng Ngorchymyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Sefydlu a Chyfansoddiad) 2020 yn arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cyfres o benderfyniadau wedi'u neilltuo i'r Bwrdd, cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill, a chyfarwyddiadau ariannol sefydlog, maen nhw'n darparu'r fframwaith rheolaethol ar gyfer cynnal busnes Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'.

Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisiau corfforaethol, gan gynnwys y Polisi Safonau Ymddygiad a osodwyd gan y Bwrdd, yn ffurfio'r Fframwaith Llywodraethu.

Adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd [reolau sefydlog Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#) ym mis Mawrth 2023; yn ogystal, cafodd y Bwrdd ddiweddariad

[ar gydymffurfiaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru â rheolau sefydlog yn ystod 2022-23](#) ym mis Mawrth 2023.

Adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd [Fframwaith Sicrwydd Llywodraethu Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#) ym mis Mawrth 2023. Mae'r fframwaith yn disgrifio'r strwythur llywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau sy'n berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Yn unol â rheolau sefydlog a chynllun dirprwyo Iechyd a Gofal Digidol Cymru, cymeradwywyd y [polisiau](#) canlynol gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau (Llywodraethu a Diogelwch Digidol ac Archwilio a Sicrwydd) yn ystod 2022/23:

- POL-CG-016 Polisi Diogelwch Dŵr
- POL-CG-005-Gweithdrefn Polisi Lles Iechyd a Diogelwch Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- POL-CG-007 Delio â Phryderon a Chwynion
- DHCW-POL-10 Polisi Dilysu Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- POL-CG-003-Polisi ar Bolisiau
- WFOD-POL-016 Adolygiad Gwerthuso a Datblygu
- Polisi Gweithio Hybrid NEWYDD
- POL-CG-019 Polisi Rheoli Gwastraff

Defnyddiwyd y strwythur gorchymyn yn chwarter cyntaf 2022/23 yn ymateb Iechyd a Gofal Digidol Cymru i bandemig Covid-19, fodd bynnag dywedais wrth y Bwrdd yn ein Cyfarfod Bwrdd Cyhoeddus ym mis Mai 2022 fod Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi rhoi'r gorau i'w strwythur ymateb brys, yn unol â symudiad y strategaeth genedlaethol y tu hwnt i gyfnod brys yr ymateb i Covid-19. Fel Swyddog Atebol, sicrhais fod y trefniadau ar gyfer ein ffyrdd newydd o weithio yn cael eu monitro trwy adrodd i'r Bwrdd Rheoli a'u rhannu gyda'r Fforwm Partneriaeth Lleol ar gyfer mewnbwn a thrafodaeth gan staff.

PARHAD BUSNES

Mae angen i'r GIG gynllunio ac ymateb i ystod eang o achosion brys a allai effeithio ar iechyd neu ofal cleifion. Cadarnhawyd, er nad yw Awdurdodau Iechyd Arbennig GIG Cymru wedi'u cynnwys yn narpariaethau Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ar hyn o bryd, bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) ymgysylltu a chymryd rhan yn barhaus mewn cynlluniau brys ac wrth gefn ar gyfer Cymru. Felly mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cael cyfarwyddyd ffurfiol (o dan bwerau Deddf GIG Cymru 2006) i barhau i:

- Gynnal asesiadau risg
- Cynnal a phrofi trefniadau ymateb brys a rheoli parhad busnes yn rheolaidd yn unol â safonau perthnasol
- Cydweithio â sefydliadau eraill ynghylch trefniadau parodrwydd ac ymateb brys

Er mwyn cydlynu Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru, datblygwyd swydd newydd Arweinydd Cynllunio at Argyfwng a recriwtwyd iddi yn ystod 2022.

Yn fewnol, mae Grŵp Cynllunio Parhad Busnes Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi parhau i weithio gyda phob adran i sefydlu Cynlluniau Parhad Busnes Adrannol i gefnogi Cynllun Parhad Busnes trosfwaol Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac i werthuso a lliniaru risgiau adnabyddadwy ar Gofrestri Risg Cenedlaethol a Rhanbarthol a risgiau a hunanaseswyd a allai effeithio ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae'r Rhaglen Cadernid Systemau TG wedi'i sefydlu o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gofnodi ac adrodd ynghylch sicrwydd busnes a chydymffurfiaeth ar gyfer dogfennaeth a phroffion Cadernid Digidol.

Ers iddo fod yn gweithredu gan ganolbwyntio ar barhad busnes yn ystod yr ymateb i'r pandemig Covid-19, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi parhau â'i ymagwedd gydweithredol at barhad busnes a chynllunio at argyfwng trwy aelodaeth weithredol o grwpiau Cynllunio:

- Grŵp Cynghori Cynllunio at Argyfyngau Iechyd Cymru
- Grŵp Cynllunio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi crybwyll y modd y cymhwysir y Ddeddf Argyfyngau Sifil i weithgareddau Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyda Llywodraeth Cymru gyda'r nod o'u cynnwys mewn modd sy'n rhwymo'n gyfreithiol yn y fforymau cynllunio at argyfyngau cenedlaethol hy Fforymau Lleol Cymru Gydnherth, o dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

RÔL Y BWRDD

Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â Rheoliadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2020. Yn ogystal â'r cyfrifoldebau a'r atebolrwydd a nodir yn y telerau ac amodau penodi, mae Aelodau Annibynnol wedi gweithio gyda'r Cadeirydd i gytuno ar eu [rolau fel Hyrwyddwyr y Bwrdd](#). Rhannwyd [Adroddiad Blynyddol manwl Hyrwyddwyr y Bwrdd](#) yn ein Cyfarfod Bwrdd ym mis Ionawr 2023.

Mae'r [Bwrdd](#) yn cynnwys Aelodau Annibynnol a Chyfarwyddwyr Gweithredol

Trwy gydol y flwyddyn cafwyd nifer o newidiadau, mewn cydweithrediad ag Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru penodwyd [Marilyn Bryan Jones, Aelod Annibynnol](#) ym mis Gorffennaf 2022 a phenodwyd [Alistair Klaas Neill, Aelod Annibynnol](#) ym mis Awst 2022.

Ar ddechrau'r flwyddyn roedd dwy swydd wag fel yr amlinellwyd yng nghynnig y strwythur Gweithredol a gyflwynwyd gan y Prif Weithredwr. Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, aelod â phleidlais o'r Bwrdd a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, aelod heb bleidlais o'r Bwrdd.

Penodwyd [Sam Hall](#) yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl ym mis Awst 2022 i ddechrau ym mis Tachwedd 2022. Mae gan y swydd hon wahoddiad sefydlog i gyfarfodydd y Bwrdd lle gallant gyfrannu at drafodaethau, fodd bynnag, nid oes ganddo ef/hi hawliau pleidleisio gan nad yw'r swydd hon yn Gyfarwyddwr Gweithredol.


Penodwyd [Sam Lloyd](#) yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ym mis

Medi 2022 i ddechrau ym mis Ionawr. Penodwyd Gareth Davis yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dros Dro ym mis Ebrill 2022. Daeth y trefniant interim hwn i ben ar 17 Hydref 2022, a phenodwyd Carwyn Lloyd-Jones yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dros Dro rhwng 17 Hydref 2022 a 15 Ionawr 2023.

Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd sesiynau datblygu a briffio'r Bwrdd a oedd yn cynnwys pwyslais ar yr elfennau llywodraethu canlynol:

- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol – Dylunio Canolfannau Defnyddwyr
- Cydweithio a Dysgu gyda GIG Digidol
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Trosolwg Cyllid
- Strategaeth Ddigidol Llywodraeth Cymru
- Canlyniadau Adolygu System Gwybodaeth Gymunedol Glinigol Cymru
- Cydadolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyfrifon Cyhoeddus o Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Cynllun Tymor Canolig Integredig 2022-25 Adborth ac Amodau Atebolrwydd Llywodraeth Cymru
- CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG 2023-26
- Strategaeth Ymchwil ac Arloesi
- Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Cynllun Iaith Gymraeg
- Portffolio Trawsnewid Gweinyddu Meddyginiaethau'n Ddigidol
- Asesiad o Ddull y Bwrdd o Wneud Penderfyniadau
- Deddf Ansawdd ac Ymgysylltu 2020
- Cynllun Ystadau
- Adborth Asesiad Strwythuredig
- Gwerth o Ddata
- Dull Cynnyrch
- Blaengynllun Gwaith y Bwrdd a'r Cylchoedd Busnesau Cysylltiedig
- Briff Rhaglen LINC a RISP
- Parthau Derbynioldeb Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

FFIGURUR 8 - STRWYTHUR BWRDD IECHYD A GOFAL DIGIDOL CYMRU



Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Cynhaliwyd y sesiwn hyfforddi ganlynol gan y Bwrdd yn 22/23:

- Hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth


Ym mis Ionawr 2023, sefydlwyd y Bwrdd yn llawn gyda nifer lawn o aelodau gweithredol ac annibynnol. Roeddem yn cydnabod nad oedd y Bwrdd wedi cael cyfle i gymryd rhan mewn Rhaglen Datblygu'r Bwrdd fel Bwrdd llawn, o ganlyniad, gwnaed gwaith yn 2022-23 i dendro am sefydliad i fod yn bartner gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru i ddarparu rhaglen Datblygu'r Bwrdd addas i Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'n hanghenion, gan adeiladu ar y gwaith da o ran sefydlu systemau a phrosesau llywodraethu cadarn a chanolbwyntio'r gwaith ar arweinyddiaeth, ac ochr pobl y gwaith o ddatblygu llywodraethu. Cynhaliodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn partneriaeth â Deloitte fel ein partner Datblygu'r Bwrdd a'r Bwrdd y gweithdai canlynol gyda Deloitte yn ystod rhan olaf y flwyddyn:

- Adborth o Gam Diagnostig Datblygu Sefydliadol y Bwrdd gan gynnwys 360 o arfarniadau
- Cemeg Busnes – Arddulliau a Dewisiadau Aelodau'r Bwrdd
- Craffu a Herio Effeithiol

Rydym yn edrych ymlaen at barhau â'r gwaith hwn yn 2023-24.

Amlinellir aelodaeth lawn y Bwrdd yn [Atodiad 1](#). Rhoddir isod grynodedb o strwythur y Bwrdd a'r Pwyllgorau. Mae hyn yn adlewyrchu'r strwythur arfaethedig yn rheolau sefydlog enghreifftiol Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Nid oedd unrhyw gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru na chynigion gan y Bwrdd i gyflwyno Pwyllgorau neu grwpiau cynghori ychwanegol yn ystod 2022/23.

Mae'r Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth a chyfeiriad i'r sefydliad ac mae ganddo rôl allweddol wrth sicrhau bod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Bwrdd hefyd yn ceisio sicrhau bod gan y sefydliad ddiwylliant agored a safonau uchel wrth gyflawni ei waith. Gyda'i gilydd, mae aelodau'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am bob penderfyniad ac yn chwarae rhan allweddol wrth fonitro perfformiad y sefydliad. Roedd holl gyfarfodydd y Bwrdd yn ystod 2022/23 wedi'u cyfansoddi'n briodol gyda chworwm. Mae'r materion busnes a risg allweddol a ystyriwyd gan y Bwrdd yn ystod 22/23 wedi'u hamlinellu yn y datganiad hwn a gellir cael rhagor o wybodaeth o bapurau'r cyfarfodydd sydd ar gael ar ein gwefan.



FFfigurur 9 -Strwythur y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

RÔL Y PWYLLGORAU

Mae gan y Bwrdd dri phwyllgor, sef y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol. Mae'r pwyllgorau hyn yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd neu Aelodau Annibynnol y Bwrdd ac mae ganddynt rolau allweddol mewn perthynas â'r system llywodraethu a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu ac asesu risgiau cyfredol. Mae'r pwyllgorau'n darparu adroddiadau sicrwydd a materion allweddol i bob cyfarfod o'r Bwrdd er mwyn cyfrannu at asesiad y Bwrdd o sicrwydd a chraffu ar gyflawni amcanion.

Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am adolygu'r strwythur pwyllgorau yn gyson ac mae'n adolygu ei reolau sefydlog yn flynyddol. Bydd y Bwrdd yn ystyried a oes angen unrhyw newidiadau yn ystod 2023/24 yn unol â fframwaith llywodraethu'r Bwrdd a blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwmo i fod yn agored ac yn dryloyw o ran y ffordd y mae'n cynnal gwaith ei bwyllgorau. Nod Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i bwyllgorau yw cynnal cyn lleied â phosibl o'i fusnes mewn sesiynau caeedig a sicrhau lle bynnag y bo modd bod busnes yn cael ei ystyried yn gyhoeddus, a bod papurau sesiynau agored yn cael eu cyhoeddi ar [wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#). Cynhelir cyfarfodydd mewn sesiynau caeedig oherwydd natur gyfrinachol y busnes. Gallai materion cyfrinachol o'r fath gynnwys materion masnachol sensitif, materion sy'n ymwneud â materion personol neu drafod cynlluniau yn ystod eu camau ffurfiannol. Yn ogystal, mae Adroddiadau Blynyddol y Pwyllgorau a'r Grŵp Cynghori yn rhoi trosolwg o'r gweithgarwch a wnaed yn ystod y flwyddyn ac maen nhw i'w gweld yma:

- [Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd](#)
- [Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol](#)
- [Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth](#)
- [Fforwm Partneriaeth Lleol](#)

Y PWYLLGOR ARCHWILIO A SICRWYDD

Un o Bwyllgorau pwysig y Bwrdd mewn perthynas â'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yw'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae'r Pwyllgor yn adolygu cynllun a digonolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i system rheolaeth fewnol yn barhaus. Yn ystod 2022/23, roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ymwneud â threfniadau llywodraethu cyffredinol y sefydliad yn cynnwys:

- Ailedrych ar ei gylch gorchwyl, a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2022/23 ac adolygu'r Adroddiadau Archwilio Mewnol dilynol yn barhaus. Nodi meysydd risg allweddol ac olrhain ymatebion a wnaed gan y rheolwyr i wella systemau a pholisïau sefydliadol
- Sicrhau bod systemau a gweithdrefnau rheoli ariannol effeithiol ar waith
- Monitro'r systemau rheoli risg
- Monitro safonau ymddygiad, gan gynnwys datgan buddiannau, rhoddion, lletygarwch a nawdd
- Datblygu trefniadau i weithio gydag Archwilio Cymru, ac ystyried [Asesiad Strwythuredig 2022](#) a Chynllun Archwilio 2022-23 Archwilio Cymru
- Monitro cynnydd ar ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg ar gyfer Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Cymeradwyo ac adolygu [Fframwaith Sicrwydd Deddfwriaethol Iechyd a Gofal Digidol Cymru](#)
- Datblygu a chymeradwyo polisiau, strategaethau a fframwaith newydd i gefnogi llywodraethu da a rheolaeth briodol.

PWYLLGOR TÂL A THELERAU GWASANAETH

Mae'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn ystyried ac yn argymhell cyflogau, dyfarniadau cyflog a thelerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer y Tîm Gweithredol ac uwch staff allweddol eraill. Yn ystod 2022/23, roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn cynnwys:

- Perfformiad Cyfarwyddwyr Gweithredol yn erbyn amcanion unigol
- Strwythur y Tîm Gweithredol
- Cadarnhau swyddi'r Tîm Gweithredol
- Aelod Bwrdd Cyswllt Estyniad Daliadaeth Undeb Llafur
- Adolygiad o ddata ymadawyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru

PWYLLGOR LLYWODRAETHU A DIOGELWCH DIGIDOL

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Digidol a Diogelwch yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd o ran ansawdd a chywirdeb, diogelwch a defnydd priodol o wybodaeth a data i gefnogi darparu iechyd a gofal a gwella gwasanaethau a darparu iechyd a gofal digidol o ansawdd uchel. Roedd y materion allweddol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn 22/23 yn ymwneud â'i gylch gwaith yn cynnwys:

- Ailedrych ar ei gylch gorchwyl, a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd
- Trefniadau Seiberddiogelwch
- Adolygu digwyddiadau a dysgu sefydliadol
- Llywodraethu Gwybodaeth
 - Sicrwydd Gwasanaethau Gwybodaeth
 - Sicrwydd Gwybodeg
 - Sicrwydd Ymchwil ac Arloesi
 - Dangosfwrdd Sicrwydd Rhaglenni a Phrosiectau digidol cenedlaethol mawr

HUNANASESIAD EFFEITHIOLRWYDD

Cynhaliodd y Bwrdd a holl bwyllgorau'r Bwrdd hunanasesiad ar gyfer 2022/23 rhwng Ionawr a Mawrth 2023 a thrafodwyd y canfyddiadau yn y cyfarfod pwyllgor perthnasol a'u [hadrodd i Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig](#).

Seiliwyd holiadur y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar Lawlyfr y Pwyllgor Archwilio ac fe'i dosbarthwyd i aelodau a mynychwyr y Pwyllgor.

Roedd holiaduron y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol a'r Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth wedi'u seilio ar gyfansoddiad, sefydliad a dyletswyddau, ac yna arweinyddiaeth y Pwyllgor a chwestiynau ategol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

AELODAETH Y BWRDD A'I BWYLLGORAU

Mae [Atodiad 1](#) yn amlinellu aelodaeth a phresenoldeb y Bwrdd a'i Bwyllgorau ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023. Mae aelodau'n ymgymryd ag ystod o weithgareddau eraill ar ran y Bwrdd gan gynnwys Datblygu'r Bwrdd a Sesiynau Briffio, ac amrywiaeth o gyfarfodydd mewnol ac allanol.

Mae angen i'r Bwrdd gymeradwyo unrhyw newidiadau arfaethedig i strwythur ac aelodaeth pwyllgorau'r Bwrdd. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ynghyd â'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol, wedi ystyried ei gylch gorchwyl ei hun ac wedi argymhell newidiadau i'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn sicrhau bod cylch gorchwyl pob pwyllgor yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod gwaith y pwyllgorau yn adlewyrchu'n glir unrhyw ofynion llywodraethu, newidiadau i drefniadau dirprwyo neu feysydd cyfrifoldeb. Mae holl bwyllgorau a grwpiau cynghori'r Bwrdd wedi datblygu adroddiadau blynyddol am eu busnes a'u gweithgareddau a derbyniwyd y rhain ac fe'u nodwyd ym mis Mawrth 2023. Mae'r swyddogion arweiniol wedi'u cynnwys yn [Atodiad 2](#) ac mae rhestr o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn 22/23 wedi'i chynnwys yn y tabl yn [Atodiad 3](#).

FFORWM PARTNERIAETH LLEOL

Mae Fforwm Partneriaeth Lleol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu'r mecanwaith ffurfiol ar gyfer partneriaeth gymdeithasol o fewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ogystal â chyfrwng ar gyfer ymgysylltu, ymgynghori, negodi a chyfathrebu rhwng undebau llafur a rheolwyr Iechyd a Gofal Digidol Cymru.


Yn ystod 2022/23, mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi cyfarfod bob deufis ac wedi canolbwyntio ar faterion strategol ac ymarferol gan gynnwys diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiad, cydnabod staff, lles, ffyrdd newydd o weithio a lles, datblygiad sefydliadol, polisiau cyflogaeth a chydaddoldeb ac amrywiaeth.

DIBEN Y SYSTEM RHEOLAETH FEWNOL

Mae system rheolaeth fewnol Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi'i chynllunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg yn llwyr, mae hyn wedi'i fynegi yn natganiad derbynioldeb risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Dim ond sicrwydd rhesymol y gall ei roi ynghylch effeithiolrwydd, felly, yn hytrach na sicrwydd absoliwt.

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus a luniwyd i amlygu a blaenoriaethu risgiau i gyflawni'r polisiau, y nodau a'r amcanion. Mae hefyd yn gwerthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Adolygwyd a chymeradwywyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan y Bwrdd ym [mis Mai 2022](#). Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn nodi'r holl reolaethau allweddol a llinellau sicrwydd i'w hadrodd i'r Bwrdd. Mae cylch adrodd blynyddol ein Fframwaith Sicrwydd Bwrdd i'w weld isod.



Rydym yn defnyddio system a phroses Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd i fonitro, ceisio sicrwydd a sicrhau bod diffygion yn cael sylw trwy graffu gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau. Goruchwylir ein system Cofrestr Risg Gorfforaethol trwy graffu a monitro gan y Bwrdd a'i Bwyllgorau.

Diffinnir rheolaethau allweddol fel y rheolaethau a'r systemau hynny sydd ar waith i helpu i sicrhau y cyflawnir amcan strategol y Bwrdd. Asesir effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.

Llinell Gyntaf - Gweithredol

- Strwythurau sefydliadol – tystiolaeth o ddirprwyo cyfrifoldeb trwy drefniadau rheoli llinell
- Rheolaethau Rheoli
 - Cydymffurfio â'r broses arfarnu
 - Cydymffurfio â Pholisiau, Gweithdrefnau, Strategaethau a'r Fframwaith
 - Adrodd am ddigwyddiadau ac adolygiadau thematig
 - Cydymffurfio â phrosesau a systemau Rheoli Risg
 - Adroddiadau Perfformiad ac Adroddiadau Cyllid
 - Adrodd am raglenni
 - Adrodd am berfformiad Rheoli Gwasanaethau

Gallai'r wybodaeth fod yn gadarn ond nid yw'n annibynnol

Ail Linell – Goruchwyllo a Chraffu

Adroddiadau i'r Pwyllgorau Sicrwydd a Goruchwyllo

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol
- Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth
- Bwrdd Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Canfyddiadau a/neu adroddiadau o arolygiadau, Adroddiadau Blynyddol, Adroddiad Perfformiad i'r Pwyllgorau.

Mae'r wybodaeth ychydig yn llai manwl ond mae'n annibynnol i ryw raddau

Trydedd Linell – Annibynnol

- Archwilio Mewnol
- Archwilio Cymru (Asesiad Strwythuredig)
- Archwiliadau Allanol (e.e. Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol)
- Arolygiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (Ni fydd hyn yn rheolaidd, mae'n debygol y bydd ar y cyd â'n Partneriaid yn y GIG)
- Rheoleiddwyr
- Ymweliadau allanol ac achrediadau
- Adolygiadau Annibynnol

Gallai'r wybodaeth fod yn llai manwl ond mae'r ffynhonnell sicrwydd yn wirioneddol annibynnol ar y sefydliad

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Ffigur 10 - Fframwaith Rheoli'r Bwrdd

Y GALLU I YMDRIN Â RISG

Y Prif Weithredwr/Swyddog Atebol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am reoli risg, ond arweinydd risg yr Awdurdod Iechyd Arbennig yw Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae hyn yn golygu arwain ar ddylunio, datblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risgiau a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Mae datganiad derbynioldeb risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru, a amlinellir isod, yn disgrifio ymagwedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru at reoli risg a'r risgiau y mae'n barod i'w derbyn neu eu goddef wrth geisio cyflawni ei nodau strategol:

- Mae'n rhaid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru gymryd risgiau i gyflawni ei nodau strategol a sicrhau canlyniadau buddiol i randdeiliaid
- Cymerir risgiau mewn modd ystyriol a rheoledig
- Bydd amlygiad i risgiau yn cael ei gadw i lefel effaith a ystyrir yn dderbyniol gan y Bwrdd
- Gallai'r lefel dderbyniol amrywio o bryd i'w gilydd ac felly bydd yn cael ei hadolygu a'i diwygio unwaith y flwyddyn o leiaf
- Mae'n bosibl y bydd unrhyw risg y tu allan i'n derbynioldeb risg y cytunwyd arno yn cael ei derbyn a bydd yn destun proses lywodraethu i sicrhau gwelededd a rheolaeth
- Mae'n bosibl y derbynnir rhai risgiau penodol uwchlaw'r derbynioldeb risg y cytunwyd arno oherwydd:
 - bernir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn ddigon isel
 - gallent arwain at wireddu gwobr/budd sylweddol
 - ystyrir eu bod yn rhy gostus i'w rheoli o ystyried blaenoriaethau eraill
 - byddai'r gost o'u rheoli yn fwy na chost yr effaith pe byddent yn cael eu gwireddu
 - nid oes ond cyfnod byr o amlygiad iddynt
 - mae angen i barti allanol gymryd camau lliniaru

Mae derbynioldeb risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystyried ei allu i ddelio â risg, sef faint o risg y mae'n fodlon ei dderbyn wrth gyflawni ei amcanion o ystyried ei adnoddau ariannol ac adnoddau eraill, cyn i rwymedigaethau a dyletswyddau statudol gael eu torri.

Mae'r goddefiant risg yn rhoi arweiniad ynghylch uwchgyfeirio risgiau ar draws ei weithgareddau. Mae'r ffeithlun isod yn rhoi manylion y meysydd risg a nodwyd ac a gytunwyd gan Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru, y derbynioldeb cysylltiedig a'r lefelau goddefiant, ac yn gosod disgwyliadau'r Bwrdd o ran nifer y rheolaethau allweddol wrth adolygu Risgiau Corfforaethol yn y categorïau hynny yn Adroddiad Sicrwydd y Bwrdd.

Bydd yr holl risgiau'n cyd-fynd yn glir ag amcanion y sefydliad gan gadw golwg ar [Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd](#). Mae gan Fframwaith Sicrwydd ein Bwrdd bum prif risg, a thrafodwyd y rhain yn fanwl gyda'r Bwrdd a'u cymeradwyo ym mis Mai 2022. Yn ogystal, ym mis Gorffennaf 2022, cymeradwyodd y Bwrdd dderbynioldeb risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer pob prif risg. Gwnaed gwaith gan y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn i ddiffinio'r prif risgiau i'r amcanion strategol, adolygwyd parthau risg sefydliadol Iechyd a Gofal Digidol Cymru, derbynioldeb a goddefiannau risg gan y Bwrdd mewn sesiwn ddatblygu ym mis Chwefror 2023 a bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:22:59

Ffigur 11 - Parth Effaith Risg a derbynioldeb cysylltiedig

| | | |
|-------------------|---|---|
| LLWGLYD | Rhoddir gwybod i'r Bwrdd am Dderbynioldeb Risg gyda sgôr o 25 neu uwch | Dim |
| AGORED | Rhoddir gwybod i'r Bwrdd am risg gyda sgôr o 20 neu uwch | Datblygu Gwasanaeth |
| CYMEDROL | Rhoddir gwybod i'r Bwrdd am risg gyda sgôr o 15 neu uwch | Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol |
| GOCHELGAR | Risk with rating 12 of above are escalated for consideration to report to the Board | Gwybodaeth – Cyrchu a Rhannu, Cyflenwi Gwasanaethau, Diogelwch a Lles, Enw da, Ariannol |
| GWRTH RISG | Rhoddir gwybod i'r Bwrdd am risg gyda sgôr o 9 neu uwch | Cydymffurfio, Diogelwch Dinasyddion, Gwybodaeth – Storio a chynnal |

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Y PRIF RISGIAU PRESENNOL YN ERBYN EIN CENHADAETH STRATEGOL

| CENHADAETH STRATEGOL | PRIF RISGIAU |
|---|--|
| 1. Galluogi trawsnewid digidol i gefnogi gofal cyson cydgyssylltiedig | OS na fyddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau gyda defnyddwyr a gefnogir gan safonau cyffredin a ffyrdd o weithio ar y cyd YNA efallai na fydd ein datblygiad yn bodloni anghenion defnyddwyr a bydd cymhlethdod a seilos ar draws ein systemau GAN ARWAIN AT anallu i drawsnewid yn gyflym. |
| 2. Darparu technoleg, cynhyrchion data a gwasanaethau o ansawdd uchel i gefnogi effeithlonrwydd a gwelliannau mewn prosesau gofal | OS na fyddwn yn darparu cynhyrchion a gwasanaethau diogel, hygyrch a gwydn o ansawdd uchel YNA bydd gallu partneriaid iechyd a gofal i ddarparu a moderneiddio gwasanaethau yn cael ei beryglu GAN ARWAIN AT ofal llai effeithiol, llai cynaliadwy a allai achosi niwed ac ni fyddai'n bodloni disgwyliadau cleifion na gweithwyr proffesiynol. |
| 3. Ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y cofnod iechyd a gofal digidol fel bod ansawdd gofal a thriniaeth yn cael ei wella. | OS methwn ag ehangu cynnwys, argaeledd ac ymarferoldeb y Cofnod Iechyd a Gofal Digidol ar y cyflymdra gofynnol YNA fe allai gwybodaeth fod yn anghyflawn, yn anghyson neu gael ei chadw mewn manau gwahanol GAN ARWAIN AT lai o allu i ddefnyddio gwybodaeth i lywio gofal a grymuso dinasyddion, gan arwain at ganlyniadau gwell. |
| 4. Sbarduno gwerth ac arloesedd ar gyfer canlyniadau gwell a gofal sy'n seiliedig ar werth | OS na fyddwn yn canolbwyntio ar ddefnyddio data ac arloesedd i wella canlyniadau YNA efallai na fyddwn yn sicrhau'r gwerth gorau i ddinasyddion GAN ARWAIN AT wasanaethau iechyd a gofal llai cynaliadwy a llai o fudd neu oedi wrth roi budd i'r cyhoedd a chleifion. |
| 5. Dod yn bartner strategol yr ymddiriedir ynddo ac yn sefydliad cynhwysol ac uchelgeisiol sy'n perfformio'n dda ac sy'n cefnogi ein gweithlu a'n rhanddeiliaid | OS na fyddwn yn dod yn bartner y gellir ymddiried ynddo ac yn sefydliad cynhwysol sy'n perfformio'n dda YNA ni fydd pobl eisiau gweithio gyda ni ac ar ein rhan GAN ARWAIN AT fethiant i gyflawni ein huchelgais strategol o ddarparu gwasanaethau digidol o'r radd flaenaf. |

Yn ystod cyfnod adfer wedi COVID-19 a'r argyfwng economaidd dilynol, mae proffil risg ariannol Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi gweld cynnydd sylweddol yn y risgiau a nodwyd sydd â'r potensial i effeithio ar ein gallu i gyflawni amcanion a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'r potensial i effeithio'n fawr ar gyflawni ein hamcanion yn y cyfnod ariannol nesaf. Mae'r rhain yn amrywio o gyllid craidd ar gyfer gwasanaethau i lefelau staffio, rydym hefyd wedi nodi ystyriaethau pellach yn ein Cytundebau Lefel Gwasanaeth a chroes-dalu ar draws Cyrff Iechyd am wasanaethau byw y mae angen eu datblygu ymhellach yn unol â'n hamgylchedd digidol sy'n esblygu'n barhaus i sicrhau bod ein cynnyrch a'n gwasanaethau yn darparu ansawdd, sicrwydd a diogelwch i'r sefydliadau Defnyddwyr a'r cyhoedd yn ehangach.

Mae marchnad gweithle gystadleuol ynghyd ag opsiynau gweithio hybrid sy'n esblygu hefyd wedi peri risg i'r sefydliad dros y 12 mis diwethaf a byddant yn parhau i wneud


hynny hyd y gellir rhagweld. Mae ein tîm gweithlu wedi darparu mesurau lliniaru i hyn trwy gynyddu eu rhwydwaith o adnoddau ac addasu ein polisi gweithio hybrid er mwyn gallu ymgysylltu ag adnoddau y tu allan i'n cymuned uniongyrchol. Mae angen gwaith pellach i sicrhau bod gennym wybodaeth a set sgiliau cyfoethog ac amrywiol ymhlith ein gweithlu a'n bod yn parhau i ddatblygu'r gronfa dalent sydd gennym ar hyn o bryd.

Yn ystod 2022-23 bu mwy o risg a bygythiad o ymosodiad seiber. Er ein bod fel sefydliad yn cydnabod y bydd hyn yn risg hirdymor a bydd bygythiadau sy'n dod i'r amlwg yn parhau i gynyddu o ran dwyster a gwybodaeth; rydym fel sefydliad wedi cynnal gwerthusiad helaeth o'n risgiau presennol, rheolaethau allweddol a sicrwydd i nodi Cynllun Gwella Gwasanaeth sylweddol sy'n cynnig sicrwydd ac amddiffyniad i'n sefydliad a hefyd i Barth GIG Cymru yn ehangach.

FFRAMWAITH RHEOLI RISG

Mae'r Bwrdd yn ystyried bod rheoli risg yn weithredol ac yn integredig yn elfennau allweddol o bob agwedd ar ein swyddogaethau a'n cyfrifoldebau er mwyn helpu i gyflawni ein busnes yn llwyddiannus. Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn nodi ac yn monitro risgiau o fewn y sefydliad.


Ffigur 12 - Siart Llif Adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol



Caiff risgiau eu huwchgyfeirio i'r Bwrdd fel y bo'n briodol. Ar lefel weithredol, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn gyfrifol am adolygu Cofrestrau Risg eu Cyfarwyddiaethau'n rheolaidd ac am sicrhau bod rheolaethau a chynlluniau gweithredu effeithiol ar waith ac am fonitro cynnydd.

Mae'r fframwaith yn cynnwys strategaeth ac offer gweithredol ac yn darparu'r cydestun ymarferol ar gyfer staff y sefydliad o ran rheoli risg o nodi a sgorio hyd at fonitro.

Ffigur 13 - Fframwaith rheoli risg IGDC



Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

YMGORFFORI RHEOLAETH RISG EFFEITHIOL

Mae aelodau o dîm llywodraethu corfforaethol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu hyfforddiant rheoli risg, cefnogaeth a chynghor i'r sefydliad. Darperir hyfforddiant llawn hefyd ar ein System Rheoli Gwybodaeth am Risg cyn caniatáu mynediad, er mwyn sicrhau dull cyson o ysgrifennu risgiau, cynlluniau gweithredu ar gyfer lliniaru a mapio dibyniaethau:

CYFLWYNIAD I REOLI RISG

Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi trosolwg o sut i nodi, sgorio, ysgrifennu, monitro ac uwchgyfeirio risg.

RHEOLI RISG AR GYFER PERCHNOGION A THRINWYR RISG

Mae'r hyfforddiant hwn yn rhoi gwybodaeth fanwl am sut i ddefnyddio system rheoli risg y sefydliad ac yn ail-ddilysu'r broses asesu a rheoli risg gan ganolbwyntio ar elfennau rheoli a sicrwydd risg.

FFRAMWAITH RISG A SICRWYDD Y BWRDD

Mae'r hyfforddiant hwn yn targedu'r gwaith o ehangu'r wybodaeth am risg strategol a'r ymagwedd a amlinellir yn y Strategaeth Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Mae'n canolbwyntio ar y gwahaniaeth rhwng Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae perfformiad risg cyffredinol wedi bodloni disgwyliadau dros y 12 mis diwethaf gyda'r [polisi rheoli risg](#) diwygiedig yn cael ei wreiddio ar draws y sefydliad cyfan ac yn cyd-fynd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran [gwreiddio'r Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd](#) (y 'Strategaeth') yn ystod 2022/23.

Mae'r Strategaeth, y polisi, a'r polisiau a'r gweithdrefnau cyswllt wedi'u dosbarthu ar draws y sefydliad a darparwyd hyfforddiant. Mae prosesau newydd wedi'u cyflwyno i'r staff i gyd ac mae gweithgareddau glanhau data wedi gwella ansawdd data o ran sefyllfa ein proffil risg yn fawr.

Mae tudalen rheoli risg fewnol newydd wedi'i datblygu i gynorthwyo staff i reoli risg yn gadarnhaol, mae canllawiau cyflym ar gael ochr yn ochr â'r polisiau a'r gweithdrefnau i alluogi staff i fod yn fwy pragmatig wrth sgorio a bod yn rhagweithiol wrth reoli eu risgiau yn unol â pholisi. Mae staff wedi'u grymuso'n well i nodi risgiau mewn modd clir a chyson ac uwchgyfeirio lle bo'n briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau a lliniaru. Mae cofrestrau risg ar gael i staff drwy'r mecanwaith diogel hwn ar gyfer didwylledd, tryloywder a chaniatáu dull cydweithredol o nodi a rheoli risg.

Mae'r holl risgiau yn cyd-fynd yn llawn â'n cenadaethau strategol ac wedi'u mapio'n glir yn erbyn eu prif faes risg a'u dibyniaethau. Mae adolygiadau risg manwl wedi cynorthwyo i nodi risgiau nad ydynt yn rhai i Iechyd a Gofal Digidol Cymru eu perchnogi na'u lliniaru ac mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo drwy'r strwythurau Llywodraethu ac adolygiadau risg Clinigol i nodi a rhannu'r risgiau hyn ar gyfer perchnogaeth ac atebolrwydd cywir. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, mae proffil risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru bellach yn dod yn fwy syml a chywir gan ganiatáu i'r ffocws fod ar risgiau critigol a nodi risgiau newydd i'r sefydliad.

Er mwyn sicrhau bod ffocws priodol yn cael ei roi ar ein [risgiau ar lefel gorfforaethol \(Mawrth 2023\)](#), mae Pwyllgorau ein Bwrdd yn plymio'n ddwfn i feysydd penodol o bryd i'w gilydd. Yn ystod 2022/23, cynhaliwyd yr ymarferion plymio dwfn canlynol:

| RISG | PWYLLGOR PENODEDIG |
|------------------------------|---|
| Chwyddiant Digidol | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd |
| Costau Cynyddol Cyfleustodau | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd |
| Amrywiad Yswiriant Gwladol | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd |
| Recriwtio | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd |
| Galw ar Adnoddau | Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol |
| Gwybodeg Canser | Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol |
| Risg Preifat | Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol |
| Risg Preifat | Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol |
| Risg Preifat | Y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol |

Cynhaliwyd dadansoddiad o [risgiau corfforaethol gan gynnwys y symudiad mewn risgiau corfforaethol](#) ers sefydlu Iechyd a Gofal Digidol Cymru, rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Medi 2022, yn ystod y flwyddyn ac fe'i cyflwynwyd i'n Bwrdd ym mis Tachwedd 2022.

Fe wnaeth [archwiliad mewnol diweddar o Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru](#) a gynhaliwyd rhwng 25 Ionawr a 23 Chwefror 2023 i roi barn ar y trefniant sydd ar waith i sicrhau bod risg yn cael ei reoli'n briodol i alluogi cyflawni amcanion allweddol Iechyd a Gofal Digidol Cymru nodi [sicrwydd sylweddol](#). Roedd yr archwiliad hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gyflwynwyd o ymgysylltu â risg rhagweithiol, dogfennaeth ac enghreifftiau o gofnodion risg yn dangos cynnydd a dad-ddwysáu risgiau, cadw cofnodion a mecanweithiau sgorio.

Mae Fframwaith Rheoli Risg Cenedlaethol wedi'i ddrafftio a chafodd ei gymeradwyo wedyn gan Gyfarwyddwyr Digidol i helpu i nodi, rheoli'n briodol, ac uwchgyfeirio risgiau "Cenedlaethol" lle mae angen lliniaru gan nifer o Gyrrff Iechyd ar draws GIG Cymru. Mae'r ddogfen hon wedi'i rhannu'n eang a'i thrafod yn y strwythurau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Byw i roi cyfle i aelodau Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau roi sylwadau, adborth ac yn y pen draw cael cefnogaeth ar gyfer y broses.

Tollex@llywodraethu
21/05/2023 12:23:59

Y FFRAMWAITH RHEOLI

Nid yw'n ofynnol i sefydliadau GIG Cymru gydymffurfio â phob elfen o'r cod llywodraethu corfforaethol ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y datganiad llywodraethu hwn yn rhoi asesiad o sut rydym yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y cod fel y maent yn berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel sefydliad sector cyhoeddus y GIG. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn dilyn ysbryd y cod yn effeithiol ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r cod. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw pob rhan o'r cod sy'n ymwneud ag adrodd wedi cael sylw yn y datganiad llywodraethu hwn, ond rhoddir sylw mwy manwl iddynt yn adroddiad blynyddol ehangach y sefydliad. Ni adroddwyd am unrhyw wriadau oddi wrth y cod llywodraethu corfforaethol.

Mae fframwaith rheoli risg Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cydymffurfio'n sylweddol ag egwyddorion Rheoli Risg y Llyfr Oren gan roi ystyriaeth i faint, strwythur ac anghenion y sefydliad.

Ni adroddwyd am unrhyw wriadau oddi wrth y Llyfr Oren. Gellir cyrchu'r Llyfr Oren [gov.uk](https://www.gov.uk).

SAFONAU IECHYD A GOFAL

Mae'r safonau iechyd a gofal yn amlinellu'r gofyniad ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru. Fel datblygwr digidol heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â chleifion, mae ein ffocws o ran y safonau gofal iechyd yn ymwneud â staff ac adnoddau. Mae gwelliannau i'r meysydd hyn wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad perfformiad. Cynhelir adolygiad blynyddol yn erbyn y safonau gan yr uwch arweinwyr perthnasol yn y sefydliad, adroddir ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd a'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol i sicrhau trosolwg a chraffu yn y meysydd perthnasol.

Cyflwynwyd [Adroddiad Blynyddol Safonau Iechyd a Gofal](#) i'r Bwrdd ar ddiwedd 2022/23. Caiff y Safonau Iechyd a Gofal eu disodli gan y [Ddyletswydd Ansawdd](#) yn 2023-24.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

ELFENNAU ERAILL Y FFRAMWAITH RHEOLI

ANSAWDD A DYLETSSWYDD GONESTRWYDD

Disgwylir i'r Ddyletswydd Ansawdd newydd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd newydd ddod i rym cyfreithiol ym mis Ebrill 2023, yn unol â Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020. Bydd y Dyletswyddau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig adrodd yn flynyddol ar gydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hynny a chyhoeddi ei adroddiadau yn yr adroddiad perfformiad a'r cyfrifon blynyddol. Felly, bydd y gofynion adrodd newydd hyn yn cael eu cynnwys yn y cyfnod adrodd 2023/24.

Yn 2022/23 rydym wedi cyfrannu at ffrwd waith 2 ar gyfer gofynion adrodd ynghylch ansawdd a arweinir gan Lywodraeth Cymru, Bwrdd Gweithredu Dyletswyddau Gonestrwydd ac Ansawdd a grŵp Gweithredu Dyletswydd Ansawdd, ac mae'r olaf wedi datblygu map ffordd ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Mae'r map ffordd hwn wedi bod yn sail i gynllun Gweithredu Dyletswydd Ansawdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Mae'r cynllun hwn yn ymdrin â phob agwedd ar y map ffordd gyda chasgliadau penodol ar gyfer gofynion Iechyd a Gofal Digidol Cymru o dan y ddyletswydd. Yn gynwysedig fel rhan o'r cynllun hwn, cynhaliodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru sesiwn datblygu bwrdd yn 2022-23 mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i roi dealltwriaeth i'r bwrdd o ofynion y ddyletswydd. Yn y cyfamser, mae gofynion adrodd ar ansawdd wedi'u gwreiddio yn Adran Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol hwn, yn benodol yn adrannau [‘Ansawdd’](#)

Yn ogystal, yn 2022/23 bu cyfnod gweithredu anstatudol yn ystod Hydref/Gaeaf 2022 ynghylch y Ddyletswydd Gonestrwydd. Mae hyn wedi galluogi cyrff y GIG, gan gynnwys darparwyr gofal sylfaenol, i baratoi ar gyfer y gofynion adrodd newydd o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd a hefyd i gynnal a chyflwyno sesiynau hyfforddiant ac ymwybyddiaeth.

TREFNIADAU LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gyfrifol am y Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth (gweler ffigur 7 isod), sy'n helpu i fonitro a gwella dealltwriaeth a chyfrifoldeb am Lywodraethu Gwybodaeth yng Nghymru. Heb fframwaith, mae'r her o sicrhau bod gwybodaeth ar gael i wasanaethau sy'n darparu Iechyd a Gofal yn mynd yn llawer anoddach.

Mae'r fframwaith yn allweddol i Strategaeth Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sydd yn y broses o gael ei diweddarau i adlewyrchu cynnydd, cyflawniadau a datblygiadau i'r fframwaith. Amlygir y fframwaith gan bum elfen graidd:

Fframwaith ar gyfer Rhannu – Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn darparu swyddogaeth gymorth ganolog fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI). Mae fframwaith WASPI yn helpu sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd i rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn gyfreithlon trwy lofnodi'r Cytundeb a thempledi cytundebau rhannu gwybodaeth. Rhoddir trosolwg o WASPI isod (gweler ffig 7 isod). Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae WASPI wedi canolbwyntio ar greu Cod Ymddygiad WASPI, a arweiniodd at ymgynghoriad a hyrwyddwyd gan Lywodraeth Cymru, a gynhaliwyd rhwng mis Chwefror 2023 a diwedd mis Ebrill 2023.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd - Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru (Pecyn Cymorth LIG) yn offeryn hunanasesu sy'n galluogi sefydliadau i fesur lefel eu cydymffurfiaeth yn erbyn safonau a deddfwriaeth Llywodraethu Gwybodaeth genedlaethol. Mae'r asesiad blynyddol yn helpu sefydliadau i nodi meysydd i'w gwella a all fod o gymorth i wella Llywodraethu Gwybodaeth a chynlluniau gweithredu sefydliadau. Mae pob Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth, Awdurdod Iechyd Arbennig a GMP yng Nghymru yn cwblhau'r Pecyn Cymorth LIG, gan gynnwys Iechyd a Gofal Digidol Cymru (gweler yr adran Pecyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru isod). Mae platfform technegol newydd ar gyfer y Pecyn Cymorth LIG yn cael ei roi ar waith ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/2024. Bydd y platfform newydd yn caniatáu i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ehangu o'r sefydliadau hynny sy'n defnyddio'r platfform presennol ar hyn o bryd i set ehangach o randdeiliaid y mae angen iddynt ddarparu sicrwydd LIG.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Cyngor – Mae Gwasanaeth Cymorth y Swyddog Diogelu Data (“y Gwasanaeth”) yn darparu cyngor a chymorth penodol i Feddygon Teulu ar sail tanysgrifiad, drwy ddarparu swyddogaethau'r rôl statudol, y Swyddog Diogelu Data. Mae'r Gwasanaeth yn darparu ystod o swyddogaethau gan gynnwys hyfforddiant a chodi ymwybyddiaeth, archwilio cyflwyniadau Pecynnau Cymorth LLG blynyddol a darparu ystod o ganllawiau, templedi a dogfennaeth arall. Mae 84.77% o bractisiau Meddygon Teulu yng Nghymru yn tanysgrifio i'r gwasanaeth hwn. Trwy'r gwasanaeth, cefnogir tanysgrifwyr ar bob mater sy'n ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth a diogelu data, gan roi'r wybodaeth ar hyder iddynt gadw gwybodaeth cleifion yn ddiogel yn eu practis.

Mae'r Fframwaith Mynediad - y Teclyn Archwilio Integredig Deallus Cenedlaethol (NIIAS) yn arf monitro rhagweithiol, sy'n nodi mynediad amhriodol posibl at gofnodion clinigol ar gyfer llawer o systemau cenedlaethol. Mae gan systemau cenedlaethol fel Porth Clinigol Cymru, System Gweinyddu Cleifion Cymru a Gwasanaeth Demograffig Cymru lawer iawn o ddefnyddwyr sy'n cyrchu gwybodaeth yn ddyddiol. Er bod staff iechyd a gofal yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i beidio â chael mynediad at unrhyw wybodaeth nad yw'n berthnasol iddynt, mae NIIAS ar waith i nodi achosion o ddefnydd amhriodol posibl.

Mae NIIAS yn eistedd y tu ôl i nifer o systemau cenedlaethol i dynnu sylw at achosion o fynediad amhriodol posibl i hysbysu Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru gydag adroddiadau hysbysu dyddiol am fynediad gan ddefnyddwyr.

Fframwaith ar gyfer Hyfforddiant – Mae GDPR y DU yn amlinellu saith egwyddor allweddol y dylid eu hystyried wrth brosesu data personol. Mae'r seithfed egwyddor, Atebolrwydd, yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gymryd cyfrifoldeb am yr hyn a wnânt â data personol a sut i gydymffurfio â'r egwyddorion eraill. Mae'n rhaid i sefydliadau fod â mesurau a chofnodion priodol ar waith er mwyn dangos cydymffurfiaeth. Un ffordd o gyflawni hyn yw sicrhau bod yr holl staff sy'n prosesu data personol yn deall cyfrinachedd gwybodaeth personol a'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran Llywodraethu Gwybodaeth. Mae'n rhaid i holl staff GIG Cymru gwblhau hyfforddiant Llywodraethu Gwybodaeth statudol a gorfodol yn eu gwaith a phob dwy flynedd wedi hynny. Adolygwyd yr hyfforddiant hwn yn ddiweddar.


Mae cyfrifoldebau Llywodraethu Gwybodaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael eu monitro gan y Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol trwy'r Adroddiad Sicrwydd Llywodraethu Gwybodaeth sefydlog.



Ffigur 14 - IG Framework components

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

Ffigur 15 - WASPI - Current Position and Growth



PECYN CYMORTH LLYWODRAETHU GWYBODAETH CYMRU

Mae gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyfrifoldebau deulol am Becyn Cymorth Llywodraethu Gwybodaeth Cymru (Pecyn Cymorth LLG), sef ei fod yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal Pecyn Cymorth LLG ac mae'n ofynnol iddo ei gwblhau a'i gyflwyno'n flynyddol.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Pecyn Cymorth LLG yn 2021/22 oedd 31 Mawrth 2022. Hon oedd blwyddyn gyntaf Pecyn Cymorth LLG i fesur cydymffurfiaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru (roedd cyflwyniadau'r flwyddyn flaenorol cyn i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru drosglwyddo i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 1 Ebrill 2022). Cyflawnodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru sgôr o 98% yng nghyflwyniad 2021/22, a oedd i fyny 4% o 2020/21. Sgoriodd cyflwyniad Iechyd a Gofal Digidol Cymru lefel uchel o gydymffurfiaeth. Sylwch, mae Pecyn Cymorth LLG yn cydnabod y cyflwynwyd tystiolaeth yn unig, nid oedd yn cydnabod ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd.

Felly, dim ond fel canllaw o gydymffurfiaeth Llywodraethu Gwybodaeth y sefydliad y dylid defnyddio sgorio. Ni ddisgwylir i sefydliadau sicrhau cydymffurfiaeth 100%, ac nid yw sgôr Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn nodi nad yw'r sefydliad yn bodloni'r gofynion cyfreithiol, yn fwy felly, mae'n nodi lle gellir gwella'r meysydd hyn.

Sefydlwyd cynllun gweithredu Llywodraethu Gwybodaeth, a oedd hefyd yn ystyried Pecyn Cymorth Atebolrwydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Cafodd camau gweithredu allweddol o'r cynllun eu rhannu a'u monitro drwy'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol.


Mae gwaith yn mynd rhagddo i gwblhau Pecyn Cymorth LLG 2022/23 erbyn y dyddiad cyflwyno, sef 30 Mehefin 2023. Dyma'r flwyddyn gyntaf ar y platfform technegol newydd ac mae'n cynnwys set o gwestiynau diwygiedig, a gymharwyd â Phecyn Cymorth Diogelu a Gwarchod Data Lloegr gan NHS England.

STRATEGAETHAU A RHAGLENNI CYSYLLTIEDIG

Mae cyfrifoldebau Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ehangu dros amser i gefnogi trefniadau rhannu gwybodaeth a sicrwydd ar gyfer ei strategaethau a'i raglenni mewnol ei hun yn ogystal â'r rhai sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill

– mae'r rhain yn cynnwys:

- Cofnod Unigol y Claf
- Yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR)
- Addewid Data
- Gwasanaethau Digidol ar gyfer Cleifion a'r Cyhoedd (DSPP)
- Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Rheoli Meddyginiaethau
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru



Ffigur 16 - Llywodraethu Data

ATAL TWYLL

Yn unol â Safonau Twyll, Llwgwrwbrwyo a Llygredd NHS Protect ar gyfer Cyrff y GIG (Cymru), cytunodd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid ar ddechrau'r flwyddyn ariannol ar gynllun gwaith ar gyfer 2022/23 a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ym mis Mai 2022. Darparwyd diweddariadau ar gyflawni yn erbyn y cynllun gwaith hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd yn ystod 2022/23.

CYDYMFFURFIO Â DEDDFWRIAETH CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i roi pobl wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud. Y weledigaeth yw creu diwylliant ac amgylchedd sefydliadol hygyrch a chynhwysol i bawb sy'n cydymffurfio â darpariaeth Deddf Cydraddoldeb 2010. Cyhoeddir ein polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar ein gwefan ac mae wedi'i seilio ar yr egwyddorion arweiniol canlynol:

- Bydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ceisio cyflogi gweithlu sy'n cynrychioli pob rhan o'r gymdeithas yn y cymunedau y mae'n darparu ei wasanaethau ohonynt.
- Dylai pob gweithiwr deimlo ei fod yn cael ei barchu ac yn gallu bod yn driw i'w hun a rhoi o'i orau i'w rôl.
- Bydd gweithwyr yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddatblygu eu llawn botensial a'u doniau, a bydd adnoddau'r gweithlu'n cael eu defnyddio'n llawn i gynyddu effeithlonrwydd y sefydliad i'r eithaf. Bydd gwahaniaethau unigol yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi ac ni fydd unrhyw fath o fygwth, bwlio nac aflonyddu yn cael ei oddef.
- Cefnogir staff lle maent yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn annheg ac fe'u hanogir i adrodd ar unrhyw ddigwyddiadau o droseddau casineb yn eu herbyn neu yn erbyn pobl o'u hamgylch.
- Bydd pob un o bolisiau, arferion a datblygiadau gwasanaeth Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael asesiad effaith ar gydraddoldeb er mwyn osgoi gwahaniaethu a sicrhau lliniaru lle gallai grwpiau gwarchoddedig gael eu heffeithio'n andwyol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Gellir gweld trosolwg o gamau gweithredu mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth yn ein hadroddiad ar Dâl Cydnabyddiaeth Staff.

Yn ogystal, cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Cydraddoldeb Strategol Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn 2022-23 sydd yn awr yn cael ei roi ar waith ar draws y sefydliad.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

DEDDF CAETHWASIAETH FODERN 2015 – TRYLOYWDER MEWN CADWYNI CYFLENWI

Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru: Cyflwynwyd Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi i amlygu'r angen, ar bob cam o'r gadwyn gyflenwi, i sicrhau bod arferion cyflogaeth da yn bodoli ar gyfer yr holl weithwyr, yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi ymrwymo i wreiddio egwyddorion a gofynion y Cod a Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015.

Wrth wneud hynny, mae'n dangos yr ymrwymiad i'n rôl fel cyflogwr sector cyhoeddus, i ddileu arferion cyflogaeth anghyfreithlon ac anfoesegol, fel:

- anhydraddoldeb
- caethwasiaeth fodern a sathru ar hawliau dynol
- hunangyflogaeth ffug
- defnydd annheg o gynlluniau ambarél a chontractau dim oriau; a
- pheidio â thalu'r Cyflog Byw.

Yn ystod 2022/23, cymerodd Iechyd a Gofal Digidol Cymru y camau canlynol:

- Talodd gyfradd cyflog byw y llywodraeth ar ei raddfa gyflog isaf, sydd ar fand cyflog 3 Agenda ar gyfer Newid, ac nid yw bellach yn recriwtio i fandiau 1 neu 2 gan mai band 3 yw ein gradd mynediad bellach.
- Mae ganddo Bolisi Mynegi Pryderon (Chwythu'r Chwiban), sy'n rhoi proses deg a thryloyw i'r gweithlu, i'w grymuso a'u galluogi i godi amheuan ynghylch unrhyw fath o gamymddwyn, gan staff, cyflenwyr neu gontractwyr sy'n gweithio ar safleoedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ac mae'n cefnogi'r egwyddor "dim niwed" mewn perthynas ag unrhyw un sy'n mynegi pryder.

- Mae ganddo brosesau IR35 cadarn ar waith, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd annheg o weithwyr hunangyflogedig ffug neu weithwyr sy'n cael eu cyflogi o dan gynlluniau ambarél. Mae'r prosesau hyn hefyd yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn cael eu cyflogi mewn modd teg a phriodol, ac mae'n atal unigolion rhag osgoi talu treth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol. Mae hefyd yn sicrhau nad oes unrhyw weithiwr dan anfantis ormodol o ran cyflog, hawliau neu gyfleoedd cyflogaeth parhaol.
- Nid yw'n sicrhau gwasanaeth nac yn cyflogi staff na gweithwyr ar gontractau dim oriau
- Mae ganddo Bolisi a Gweithdrefn Recriwtio a Dethol agored a chadarn, sy'n sicrhau proses deg a thryloyw Ymrwymadau penodol i gefnogi cydraddoldeb yw: hysbysebu cyfleoedd i ymuno â'r sefydliad mewn cymunedau ehangach ac amrywiol. Mae'r sefydliad wedi datblygu a gweithredu gwerthoedd newydd, cynllun cydraddoldeb strategol newydd, cynllun gwrth-hiliaeth, a gwrth-fwlio. Mae rhwydwaith cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2023.
- Mae ganddo darged i dalu ein cyflenwyr o fewn 30 diwrnod o dderbyn anfoneb ddilys
- Mae wedi gweithio'n agos mewn partneriaeth â'r undebau llafur, darparwr cymorth i weithwyr a rhwydweithiau ehangach i gefnogi gweithwyr
- Mae'n cefnogi cynhwysiant digidol trwy amrywiaeth o ymrwymadau
- Mae gan y sefydliad Bolisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sy'n sicrhau nad oes unrhyw ddarpar ymgeisydd, gweithiwr neu weithiwr a gyflogir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael ei roi dan anfantis ormodol mewn unrhyw ffordd. Mae hyn yn ymwneud â chyflog, hawliau cyflogaeth, cyflogaeth, hyfforddiant a datblygiad neu gyfleoedd gyrfa. Darparwyd adroddiad am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau i Fwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Mawrth 2023.
- Yn unol â'r Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), bydd unrhyw aelodau o staff Iechyd a Gofal Digidol Cymru y gallai fod yn ofynnol iddynt drosglwyddo i sefydliad trydydd parti, yn cadw eu tâl a Thelerau ac Amodau Gwasanaeth y GIG

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

CYNLLUN PENSIWN

Fel cyflogwr gyda staff sydd â hawl i aelodaeth o gynllun pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r cyflogwr a gynhwysir yn rheoliadau'r cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r cynllun yn digwydd yn unol â rheolau'r cynllun, a bod cofnodion aelodau o'r cynllun pensiwn yn cael eu diweddarau'n gywir yn unol â'r amserlenni a nodir yn y Rheoliadau.

CRONFA RISG CYMRU

Mae Gwasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) yn fecanwaith rhannu risg, yn debyg i drefniant yswiriant, sy'n darparu indemniad i sefydliadau GIG Cymru yn erbyn hawliadau esgeulustod a cholledion. Mae'n rhaid i sefydliadau unigol y GIG dalu'r £25,000 cyntaf o hawliad neu golled, sy'n debyg i dâl dros ben polisi yswiriant. Mae'r Bwrdd, ynghyd â'i ffynonellau sicrwydd mewnol, sy'n cynnwys ei swyddogaeth archwilio mewnol a ddarperir gan Gydwasanaethau'r GIG, hefyd yn defnyddio ffynonellau sicrwydd allanol ac adolygiadau gan archwilwyr, rheoleiddwyr ac arolygwyr i lywio ac arwain ein datblygiad. Mae canlyniadau'r asesiadau hyn yn cael eu defnyddio gan y Bwrdd i lywio ein cynllunio ymhellach ac i ymgorffori llywodraethu da ar draws ystod o gyfrifoldebau'r sefydliad.

CYNLLUN CYFLAWNI LLEIHAW CARBON

Cymeradwyodd Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio 2021-2030 yng nghyfarfod Bwrdd mis Mawrth 2022. Mae manylion y cynllun cyflawni i'w gweld yn yr Adroddiad Perfformiad. Mae'r cynllun wedi cael ei ddatblygu i gefnogi'r uchelgeisiau a nodir yng Nghynllun Cyflawni Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru sy'n amlinellu sut y gall GIG Cymru gyfrannu at yr adferiad a'i ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n mynd i'r afael â heriau parhaus hirdymor fel tlodi, annhegwch iechyd a'r newid yn yr hinsawdd. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datgarboneiddio ein stad yn 2022/23 Ond rydym yn cydnabod bod mwy i'w wneud.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

TORRI DIOGELWCH DATA

Adroddir am ddigwyddiadau sy'n arwain at dorri diogelwch data yn unol â gofynion statudol Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'r Weithdrefn Weithredu Safonol sydd wedi'i dogfennu ynghylch Rheoli Adrodd am Dorri Diogelwch Data Personol. O dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, mae achosion o dorri diogelwch data personol (fel y'u diffinnir gan y ddeddf) yn cael eu hystyried yn achosion o danseilio diogelwch gan arwain at ddinistrio, colli, newid, datgelu heb awdurdod neu fynediad at ddata personol, a hynny'n ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.

Mae'n ofynnol cynnal asesiad risg o dorri rheolau diogelwch data personol er mwyn pennu tebygolrwydd y risg i hawliau a rhyddid yr unigolion yr effeithir arnynt. Os yw risg yn debygol, o dan ddeddfau Diogelu Data, rhaid rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) am y toriad o fewn 72 awr. Gallai methu ag adrodd am hyn arwain at golled ariannol neu niwed i enw da. Yn ogystal, efallai y bydd angen hysbysu'r unigolion hynny dan sylw'n uniongyrchol os yw'r toriad yn debygol o arwain at risg uchel i hawliau a rhyddid unigolion.

Mae ein tîm Llywodraethu Gwybodaeth yn ymchwilio'n briodol i bob achos o dorri rheolau data ac adroddir yn eu cylch i'r Pwyllgor Llywodraethu a Diogelwch Digidol. Lle bo'n briodol neu'n orfodol, hysbysir Llywodraeth Cymru fel rhan o adroddiad dim syndod.

Yn ystod 2022/23, fe wnaethom gofnodi cyfanswm o 5 digwyddiad ar y system Datix a arweiniodd at achosion posibl o dorri rheolau data personol. O'r digwyddiadau hyn, nid oedd yr un ohonynt yn bodloni'r meini prawf asesu ar gyfer adrodd i'r ICO.

CYFARWYDDIADAU GWEINIDOGOL

Er bod sefydliadau GIG Cymru yn cael Cyfarwyddiadau Gweinidogol, nid yw'r rhain bob amser yn berthnasol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Rhestrir Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddwyd drwy gydol y flwyddyn ar dudalennau Iechyd a Gofal Cymdeithasol gwefan Llywodraeth Cymru. Mae manylion y cyfarwyddiadau gweinidogol a dderbyniwyd a'u perthnasedd i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2023 wedi'u cynnwys yn Atodiad 4.

TREFNIADAU CYNLLUNIO

Cyhoeddwyd canllawiau fframwaith cynllunio Llywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2021. Dychwelodd y gofyniad i Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) tair blynedd yn hytrach na threfniant cynllun blynyddol y flwyddyn flaenorol. Cafodd y dyddiad cau arfaethedig gwreiddiol, sef diwedd Ionawr 2022, ei ymestyn ymhellach (ar 21 Rhagfyr 2021) i ddiwedd mis Mawrth 2022, eto oherwydd ansicrwydd a phwysau a deimlwyd gan y gwasanaeth wrth adfer ar ôl pandemig Covid-19. Cyflwynwyd y Cynllun Tymor Canolig Integredig i Fwrdd yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac yn olaf i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth 2022. Wedi hynny, derbyniwyd a nodwyd y cynllun gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Gorffennaf 2022 a darparwyd adborth gan Lywodraeth Cymru fel gofynion ac amodau atebolrwydd. Roedd y rhain yn cynnwys gofynion adrodd chwarterol.

Cyflwynwyd amodau atebolrwydd ynghylch darparu'r system Canser, buddsoddiad cyfalaf, y gweithlu, blaenoriaethau digidol a chydweithio.

Rhestrir amodau Atebolrwydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru 2022-23 isod:

- 5 Ffordd o Weithio / Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cynllun Cyhoeddus ar Wefan Gyhoeddus
- Adrodd gyda Chynllun Chwarterol
- Set Ddata Sylfaenol
- Blaenoriaethau Digidol
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Canser
- Buddsoddiad Cyfalaf
- Y Gweithlu
- Cydweithio

ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

Fel y Swyddog Atebol, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system rheolaeth fewnol wedi'i seilio ar waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, ac ar sylwadau gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac mewn adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn dibynnu ar sawl ffynhonnell o sicrwydd mewnol ac allanol sy'n dangos effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac yn cynghori lle mae meysydd i'w gwella. Manylir ar yr elfennau hyn uchod yn y diagram o Fframwaith Rheoli Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mae'r prosesau sydd ar waith i gynnal ac adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn cynnwys:

- Goruchwyliaeth y Bwrdd a'r pwyllgor o ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol a dal Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr i gyfrif
- Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu, gweithredu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol a'r gwelliant parhaus mewn effeithiolrwydd o fewn y sefydliad
- Goruchwylio risg weithredol trwy'r Bwrdd a'i Bwyllgorau
- Goruchwylio risg twyll trwy dîm Atal Twyll Lleol Caerdydd a'r Fro
- Monitro gweithrediad yr argymhellion trwy'r olrheiniwr archwilio a oruchwylir gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd
- Goruchwylio trefniadau archwilio, rheoli risg a sicrwydd gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd

Darparodd holl Bwyllgorau'r Bwrdd adroddiad blynyddol i gyfarfod Bwrdd mis Mawrth 2023 yn manylu ar y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor perthnasol yn ystod y flwyddyn a'r penderfyniadau allweddol a wnaed.

Rwy'n fodlon yn gyffredinol bod y mecanweithiau sydd ar waith i asesu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn gweithio'n dda a bod gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig y cydbwysedd cywir rhwng lefel y sicrwydd a gaf gan fy Swyddogion Gweithredol, trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd a Gwasanaethau Archwilio Mewnol Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Tolley, L. A. J.
21/09/2023 12:23:59

ARCHWILIO MEWNOL GAN GYNNWYS CASGLIAD Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

Mae Archwilio Mewnol, trwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, yn rhoi llif sicrwydd i mi fel Swyddog Atebol ar y system rheolaeth fewnol. Rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio a gyflawnwyd yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd, ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae'r farn gyffredinol gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn swyddogaeth o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch i wella'n barhaus.

Cyflawnwyd y rhaglen yn sylweddol yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni ac mae'r newidiadau gofynnol yn ystod y flwyddyn wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Yn ogystal, mae adroddiadau cynnydd archwilio rheolaidd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor. Er bod mân newidiadau wedi'u gwneud i'r cynllun yn ystod y flwyddyn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon y rhoddwyd digon o sylw i archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn darparu Barn Flynyddol i'r Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth ffurfio'r Farn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr holl archwiliadau a gynhaliwyd, a grynhoir yn y tabl isod:

Sicrwydd rhesymol – Gall y Bwrdd fod â sicrwydd rhesymol fod trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sydd wedi eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas ac wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr wrth gynllunio rheolaeth neu gydymffurfedd, gydag effaith isel i gymedrol ar amlygiad i risg gweddilliol, hyd nes y cânt eu datrys.

Wrth ddod i'r casgliad yma, nododd y Pennaeth Archwilio Mewnol fod mwyafrif yr adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn wedi diweddu'n bositif, a bod trefniant rheoli cadarn yn gweithredu mewn rhai meysydd.

O'r barnau a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn, dyrannwyd Sicrwydd Sylweddol i bump ohonynt a dyrannwyd Sicrwydd Rhesymol i un ar ddeg ohonynt. Ni ddyrannwyd barn 'dim sicrwydd' i unrhyw adroddiadau.

| Enw'r Archwiliad | Dyddiad derbyn gan y Pwyllgor Archwilio | Sgôr Sicrwydd |
|--|---|--|
| Trosglwyddo Canolfan Ddata | 03/05/2022 | Sylweddol |
| Trefniadau Llywodraethu (Rhan 2) | 03/05/2022 | Sicrwydd rhesymol |
| Datblygu Systemau | 03/05/2022 | Sicrwydd rhesymol |
| Systemau Ariannol Craidd | 03/05/2022 | Sicrwydd rhesymol |
| Y Gweithlu | 04/07/2022 | Sicrwydd rhesymol |
| Adolygiad Cyfarwyddiaeth | 04/07/2022 | Sicrwydd rhesymol |
| Traciwr Argymhellion | 18/10/2022 | Sicrwydd rhesymol |
| Datgarboneiddio | 18/10/2022 | Dim sgôr – Cytunwyd ar lefel Cymru gyfan |
| Rheoli Stoc TGCh | 18/10/2022 | Dim sgôr – Adolygiad ychwanegol i Gynllun Archwilio Mewnol 2022/23 |
| Cynaliadwyedd Ariannol | 14/02/2023 | Sicrwydd rhesymol |
| Gwreiddio'r Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allanol | 14/02/2023 | Sicrwydd rhesymol |
| Rheoli Perfformiad | 14/02/2023 | Sicrwydd rhesymol |
| Gwasanaethau Newid | 14/02/2023 | Sicrwydd rhesymol |
| Cadernid Technegol | 14/02/2023 | Sylweddol |
| Llywodraethu Corfforaethol | 18/04/2023 | Sylweddol |
| Cydymffurfiaeth Ystadau - Rheoli Gwastraff | 18/04/2023 | Sylweddol |
| Rheoli Risg | 18/04/2023 | Sylweddol |
| Cynllunio'r Gweithlu: AGDP (PADR) | 18/04/2023 | Sicrwydd rhesymol |
| Cynllun Gwella Seiberddiogelwch | 03/07/2023 | Sylweddol |
| Canolfan Ragoriaeth | 03/07/2023 | Sicrwydd rhesymol |

ASESIAD STRWYTHUREDIG ARCHWILIO CYMRU

Nod y gwaith hwn yw helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau o dan adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd y gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar drefniadau Iechyd a Gofal Digidol Cymru mewn perthynas â llywodraethu; cynllunio strategol; rheolaeth ariannol; a rheoli'r gweithlu, asedau digidol, y stad ac asedau ffisegol eraill,

Canfu casgliad cyffredinol Asesiad Strwythuredig 2022: "Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gwreiddio trefniadau llywodraethu da ac yn awr mae'n rhaid iddo geisio datblygu ymhellach ei rôl fel partner digidol y gellir ymddiried ynddo i fanteisio ar gyfleoedd gwasanaeth digidol ledled Cymru"

Mae argymhellion Archwilio Cymru ynghyd ag ymateb y rheolwyr wedi cael eu cofnodi a bydd y rhain yn cael eu derbyn ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ynghyd ag adroddiad Cyfleoedd Asesu Strwythuredig ar gyfer Dysgu.

ADOLYGIAD LLYWODRAETHU A RHEOLAETH ARIANNOL BWRDD RHAGLEN DDIGIDOL GWASANAETHAU MEDDYGOL CYFFREDINOL GOFAL SYLFAENOL ARCHWILIO CYMRU

Yn ystod 2022-23, cynhaliodd Archwilio Cymru ddarn lleol o waith yn adolygu Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS) Iechyd a Gofal Digidol Cymru, sy'n goruchwylio gwasanaethau digidol newydd a phresennol i bractisiau meddygon teulu ochr yn ochr â gwariant ariannol a rheoli gwasanaethau i gefnogi gwasanaethau gweithredol presennol a rhaglenni gwaith newydd. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd yr adroddiad wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd.

ANSAWDD DATA

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd y wybodaeth a'r data a ddarperir i'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n barhaus ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a gwnaed rhai diwygiadau i'r Adroddiad Perfformiad Integredig yn ystod y flwyddyn i roi mwy o eglurder.

CASGLIAD

Fel y nodwyd trwy gydol y datganiad hwn a'r Adroddiad Blynyddol, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19, ynghyd â blaenoriaethau eraill oedd yn cystadlu, wedi cael effaith barhaus ar y sefydliad, y GIG ehangach a chymdeithas yn gyffredinol. Mae hyn wedi gofyn am ymateb deinamig sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ogystal â nifer o risgiau. Byddaf yn parhau i sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried ac yn ymateb yn ôl yr angen. Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022–30 Mai 2023, ni nodwyd unrhyw faterion rheolaeth fewnol na llywodraethu sylweddol. Mae hyn o ganlyniad i sefydlu a datblygiad parhaus systemau rheolaeth fewnol cadarn sydd ar waith. Mae'n bwysig inni gyfathrebu'n eang â staff yn barhaus er mwyn sefydlu'r trefniadau hyn ymhellach. Roedd un maes yr oeddwn yn teimlo bod angen ei archwilio ymhellach yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Rhaglenni a Gynhelir yn Genedlaethol gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru, comisiynwyd Adolygiad Annibynnol gan weithio gyda Llywodraeth Cymru a bydd yr argymhellion yn cael eu hystyried a'u datblygu rhwng Iechyd a Gofal Digidol Cymru a Llywodraeth Cymru.

Llofnodwyd gan Helen Thomas

Prif Weithredwr:



Dyddiad: 27th Gorffennaf 2023

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR AR GYFER Y CYFNOD A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn i'w gweld yn y tablau a'r tudalennau yn yr adroddiad blynyddol y manylir arnynt isod:

CYFANSODDIAD Y BWRDD AC AELODAETH

Cyfansoddiad y Bwrdd Mae Atodiad 1 yn rhoi gwybodaeth fanwl am gyfansoddiad y Bwrdd, gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac aelodau annibynnol, sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2022/23. Mae hyn yn cynnwys enwau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr. Mae Tabl 1 hefyd yn cynnwys enwau'r cyfarwyddwyr sy'n ffurfio'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd. Mae Atodiad 1 hefyd yn manylu ar y cyfarfodydd a fynychwyd yn ystod y flwyddyn a'r rolau hyrwyddwr y cytunwyd arnynt gan Aelodau'r Bwrdd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ogystal, gellir gweld bywgraffiadau byr o holl Aelodau'r Bwrdd ar wefan yr Awdurdodau Iechyd Arbennig.

COFRESTR O FUDDIANNAU

Er mwyn sicrhau bod penderfyniadau teg a chyfiawn yn cael eu gwneud, mae'n ofynnol i'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiannau a allai wrthdaro â chyfrifoldebau'r sefydliad. Caiff hwn ei diweddarau'n rheolaidd a'i dderbyn gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd ar ran y Bwrdd, ac fe'i cyhoeddir ar wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru o dan ddogfennau allweddol. Gellir cael copi caled gan Ysgrifennydd y Bwrdd ar gais.

DIGWYDDIADAU SY'N GYSYLLTIEDIG Â DATA PERSONOL

Rhoddir gwybodaeth am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data personol a adroddwyd yn ffurfiol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a "digwyddiadau anffafriol difrifol" yn ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

MATERION AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHYMUNEDOL

Mae manylion strategaeth ddatgarboneiddio Iechyd a Gofal Digidol Cymru a'i chynnydd ar gael yn yr Adroddiad Perfformiad ENTER pages.

DATGANIAD AR GYFER DEILIAID GWYBODAETH Y SECTOR CYHOEDDUS

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllaw Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

Wiley Laura
21/09/2023 12:23:59

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG CYFRIFYDDU

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig.

Mae cyfrifoldebau perthnasol Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus maen nhw'n atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, yn cael eu manylu ym Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Gallaf gadarnhau:

- Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, ac fy mod i fel y Swyddog Atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac wedi cadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Bod adroddiad blynyddol a chyfrifon Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn eu cyfanwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a fy mod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'n briodol y cyfrifoldebau a nodwyd yn y llythyr sy'n fy mhenodi fel Swyddog Atebol.

Llofnodwyd gan Helen Thomas

Prif Weithredwr:



Dyddiad: 27th Gorffennaf 2023

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn rhoi cyfarwyddyd y dylai'r cyfrifon hyn roi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod Iechyd Arbennig ac o incwm a gwariant yr Awdurdod Iechyd Arbennig ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- cymhwyso ar sail gyson egwyddorion cyfrifyddu a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus
- datgan p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu perthnasol, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn yr adroddiad.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod nhw wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir, sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol sefyllfa ariannol yr awdurdod ar unrhyw adeg, a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd uchod gan Weinidogion Cymru.

Drwy Orchymyn y Bwrdd



Simon Jones

Chair


Date: 27th July 2023



Helen Thomas

Chief Executive and Accountable Officer:

Date: 27th July 2023



Claire Osmundsen-Little

Director of Finance:

Date: 27th July 2023

ADRODDIAD AR DÂL CYDNABYDDIAETH A STAFF

ADRODDIAD AR DÂL CYDNABYDDIAETH

Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â thâl yr uwch reolwyr a gyflogir gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Y diffiniad o "Uwch Reolwr" yw: 'yr unigolion hynny mewn swyddi uwch sydd ag awdurdod neu gyfrifoldeb dros gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfarwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.' O ran Iechyd a Gofal Digidol Cymru, ystyrir mai'r uwch reolwyr yw mynychwyr rheolaidd cyfarfodydd y Bwrdd, h.y. Aelodau o'r Tîm Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol.

Mae trefniadau cyflog presennol y sector cyhoeddus yn gymwys i bob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Gweithredol.

Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol ar bwyntiau cyflog yn hytrach na graddfeydd cyflog.

Mae perfformiad y Tîm Gweithredol yn cael ei asesu yn erbyn amcanion personol a pherfformiad cyffredinol yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Nid yw'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn gweithredu cynllun tâl cysylltiedig â pherfformiad.

Rhoddyd rhai taliadau i gyn Weithredwyr neu gyn uwch reolwyr eraill yn ystod y flwyddyn a manylir ar y rhain yn y tabl isod.

Gallai'r cyfansymiau yn rhai o'r tablau canlynol fod yn wahanol i'r rhai yn y Cyfrifon Blynnyddol gan eu bod yn cynrychioli staff yn y swydd ar 31 Mawrth 2023 tra bo'r Cyfrifon Blynnyddol (nodyn 9.2) yn dangos nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn.

Tryloywder Tâl Uwch Reolwyr yn y Sector Cyhoeddus datganoledig yng Nghymru –
Canllaw ari Fynd i'r Afael ag Drechu Arferion Cyflogaeth Annheg a Hunangyflogaeth Ffug.

PWYLLGOR TÂL A THELERAU GWASANAETH

Mae'r cyflog a'r telerau ac amodau cyflogaeth ar gyfer y Tîm Gweithredol a'r uwch-reolwyr wedi cael, ac yn mynd i gael eu pennu gan y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth, o fewn y fframwaith a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae aelodau Pwyllgor Tâl yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd. Cadeirydd yr Awdurdod Iechyd Arbennig sy'n cadeirio'r Pwyllgor. Adolygir Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn flynyddol. Ceir manylion am aelodaeth y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth yn Atodiad 1.

21/03/2023 12:23:59

DATGELIADAU CYFLOG A PHENSIYNAU

TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (HEB EU HARCHWILIO) – FFIGUR CYFANSWM TALIAD SENGL

Mae'r Adroddiad hwn ar Daliadau yn cynnwys ffigur cyfanswm taliad sengl. Mae swm y buddiannau pensiwn ar gyfer y flwyddyn sy'n cyfrannu at un ffigur y cyfanswm yn cael ei gyfrifo ar sail y canllawiau a ddarperir gan Asiantaeth Pensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r swm a gynhwysir yn y tabl ar gyfer buddiannau pensiwn yn seiliedig ar y cynnydd mewn pensiwn cronedig wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant. Bydd hyn yn gyffredinol yn cymryd i ystyriaeth blwyddyn ychwanegol o wasanaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau mewn cyflog pensiynadwy. Nid yw hyn yn swm sydd wedi cael ei dalu i unigolyn gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig yn ystod y flwyddyn; mae'n gyfrifiad sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl buddiannau pensiwn.

Gall y ffigurau hyn gael eu dylanwadu gan sawl ffactor e.e. newidiadau mewn cyflog unigolyn, p'un a ydynt yn dewis gwneud cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'u cyflog, a ffactorau prisio eraill sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn cyfan.

Mae'r datgeliadau cyflogau a phensiynau yn adlewyrchu gwybodaeth yr uwch reolwyr. Yn 2022/23 mae'r uwch dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl, y Cyfarwyddwr Datblygu'r Sefydliad a'r Gweithlu ac Ysgrifennydd y Bwrdd.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

FFIGUR CYFANSWM TÂL SENGL 2022/23

| Enw | (a) Cyflog (£'000) £5k bandiau | (b) Taliadau bonws (£'000) £5k bandiau | (c) Buddiant mewn nwyddau £ (i'r £100 agosaf) | (d) Buddiannau pensiwn £'000 (i'r £1000 agosaf) | (e) Total £'000 £5k bandiau |
|---|-----------------------------------|---|--|---|--------------------------------|
| Swyddogion Gweithredol ac Uwch Reolwyr | | | | | |
| Helen Thomas | 150-155 | - | - | 0 | 150-155 |
| Claire Osmundsen-Little | 125-130 | - | - | 30 | 155-160 |
| Chris Darling | 100-105 | - | - | 88 | 190-195 |
| Rhidian Hurle | 155-160 | - | - | 76 | 230-235 |
| Carwyn Lloyd-Jones (1) | 25-30 | - | - | 8 | 35-40 |
| Sarah-Jane Taylor (2) | 100-105 | | | Ddim yn berthnasol | 100-105 |
| Samantha Hall (3) | 45-50 | | | 11 | 55-60 |
| Sam Lloyd (4) | 25 - 30 | - | - | 6 | 30 - 35 |
| Gareth Davis (5) | 60 - 65 | - | - | N/A | 60 - 65 |
| Ifan Evans (6) | 120 - 125 | - | - | 97 | 215 - 220 |

1. Cyflawnodd Carwyn Lloyd-Jones swydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dros Dro rhwng 17 Hydref 2022 ac 15 Ionawr 2023 (91 Diwrnod) - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £110K-£115K
2. Dechreuodd Sarah-Jane Taylor ar 2 Mai 2022 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £110K-£115K
3. Dechreuodd Samantha Hall ar 1 Tachwedd 2022 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £115K-£120K

4. Dechreuodd Sam Lloyd ar 16 Ionawr 2023 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £115K-£120K
5. Gadawodd Gareth Davis ar 23 Hydref 2022 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £120K-£125K
6. Cafodd Ifan Evans ei secondio o Lywodraeth Cymru am y flwyddyn gyfan

| Enw | (a) Cyflog (£'000) £5k bandiau | (b) Taliadau bonws (£'000) £5k bandiau | (c) Buddiant mewn nwyddau £ (i'r £100 agosaf) | (d) Buddiannau pensiwn £'000 (i'r £1000 agosaf) | (e) Total £'000 £5k bandiau |
|----------------------------------|-----------------------------------|---|--|---|--------------------------------|
| Cyfarwyddwyr Anweithredol | | | | | |
| Simon Jones | 40-45 | - | - | - | 40-45 |
| Marian Jones | 5-10 | - | - | - | 5-10 |
| Ruth Glazzard | 20-25 | - | - | - | 20-25 |
| David Selway | 5-10 | - | - | - | 5-10 |
| Rowan Gardner | 5-10 | - | - | - | 5-10 |
| Grace Quantock (7) | 0-5 | - | - | - | 0-5 |
| Marilyn Bryan-Jones (8) | 5-10 | - | - | - | 5-10 |
| Alastair Klaas Neill (9) | 5-10 | - | - | - | 5-10 |

7. Gadawodd Grace Quantock ar 17 Mehefin 2022 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K
8. Dechreuodd Marilyn Bryan-Jones ar 15 Gorffennaf 2022 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K

9. Dechreuodd Alistair Klaas Neill ar 8 Awst 2022 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K

TABLE 2 - SINGLE TOTAL FIGURE OF REMUNERATION 2021/22

| Enw | (a) Cyflog (£'000) £5k bandiau | (b) Taliadau bonws (£'000) £5k bandiau | (c) Buddiant mewn nwyddau £ (i'r £100 agosaf) | (d) Buddiannau pensiwn £'000 (i'r £1000 agosaf) | (e) Total £'000 £5k bandiau |
|--|-----------------------------------|---|--|---|--------------------------------|
| Executive and Senior Management | | | | | |
| Helen Thomas | 150 - 155 | - | - | *** | 150 - 155 |
| Claire Osmundsen-Little | 120 - 125 | - | - | *** | 120 - 125 |
| Chris Darling | 75-80 | - | - | *** | 75-80 |
| Rhidian Hurle | 155 - 160 | - | - | *** | 230 - 235 |
| Michelle Sell | 90-95 | - | - | *** | 90-95 |
| Carwyn Lloyd-Jones (1) | 105 - 110 | - | - | *** | 105-110 |
| Gary Bullock(1) | 25-30 | - | - | *** | 25-30 |
| Meirion George (2) | 95-100 | - | - | *** | 95-100 |

(1) Ymddeolodd Gary Bullock ar 30 Mehefin 2021 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £105K-£110K

(2) Dechreuodd Meirion George ar 5 Mai 2021 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £90K-£95K

*** Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol sydd eu hangen ar gyfer y cyfrifiad hwn ar gael

| Enw | (a) Cyflog (£'000) £5k bandiau | (b) Taliadau bonws (£'000) £5k bandiau | (c) Buddiant mewn nwyddau £ (i'r £100 agosaf) | (d) Buddiannau pensiwn £'000 (i'r £1000 agosaf) | (e) Total £'000 £5k bandiau |
|--------------------------------|-----------------------------------|---|--|---|--------------------------------|
| Non-Executive Directors | | | | | |
| Simon Jones (3) | 20 - 25 | - | - | - | 20 - 25 |
| Robert Hudson (4) | 20-25 | - | - | - | 20-25 |
| Marian Jones | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |
| Sian Doyle (5) | 5-10 | - | - | - | 5-10 |
| Ruth Glazzard | 20 - 25 | - | - | - | 20 - 25 |
| David Selway | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |
| Rowan Gardener | 5 - 10 | - | - | - | 5 - 10 |
| Grace Quantock | 5 - 10 | - | - | - | 5 -10 |

(3) Dechreuodd Simon Jones ar 1 Hydref 2021 – Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £40K-£45K

(5) Gadawodd Sian Doyle ar 30 Tachwedd 2021 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £5K-£10K

(4) Gadawodd Robert Hudson ar 30 Medi 2021 - Y cyflog cyfwerth â blwyddyn lawn yw £40K-£45K

GWERTHOEDD TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD Y DATGELIAD CYFLOGAU A PHENSIYNAU

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yw gwerth cyfalafedig buddiannau'r cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion y pennir eu gwerth yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn dichonol sydd i'w dalu o'r cynllun i wŷr neu wraig.

Taliad yw'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn, i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i gyfanswm ei aelodaeth yn y cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae datgelu yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi ei

drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod, o ganlyniad iddo ef neu hi brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith a gynigir gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid. CYNNYDD GWIRIONEDDOL MEWN GWERTH TROSGLWYDDO CYFWERTH AG ARIAN PAROD Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod sy'n cael ei ariannu gan y cyflogwr. Mae'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau a dalwyd gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prasio cyffredin y farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

TABL 3 - TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (WEDI'U HARCHWILIO) - FFIGUR CYFANSWM TALIAD SENGL Buddiannau Pensiwn 2022-23

| Enw a Theitl | (a) Pensiwn cronedig ar oedran pensiwn ar 31/03/23 a chyfandaliad cysylltiedig (bandiau of £5,000) - £000 | (b) Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau of £2,500) - £000 | (c) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/23 i'r £1,000 agosaf - £000 | (d) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31/3/22 i'r agosaf £1,000 - £000 | (e) Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod i'r agosaf £1,000 - £000 |
|---|---|--|--|--|---|
| Ms. Helen Thomas, Prif Swyddog Gweithredol | 55-60 plus lump sum of 120-125 | 0 | 1,090 | 1,052 | 0 |
| Ms. Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | 10-15 | 0-2.5 | 168 | 132 | 16 |
| Mr. Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd | 25-30 plus lump sum of 40-45 | 12.5-15 | 344 | 265 | 57 |
| Mr. Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | 60-65 plus lump sum of 115-120 | 10-12.5 | 1,121 | 989 | 75 |
| Dr. Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau Dros Dro | 5-10 plus lump sum of 10-15 | 0-2.5 | 520 | 465 | 27 |
| Mrs. Samantha Hall, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl | 0-5 | 0-2.5 | 11 | 0 | 5 |
| Mr. Sam Lloyd, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | 5-10 plus lump sum of 25-30 | 0-2.5 | 168 | 0 | 5 |
| Mr. Ifan Evans, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | 35-40 | 5-7.5 | 553 | 447 | 63 |

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

TABLE 4 - TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (WEDI'U HARCHWILIO) - FFIGUR CYFANSWM TALIAD SENGL Buddiannau Pensiwn 2021-22

| Enw a Theitl | (a) Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000 | (b) Cynnydd gwirioneddol mewn cyfandaliad pensiwn ar oedran pensiwn (bandiau o £2,500) £000 | (c) Cyfanswm y pensiwn cronodig ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2022 (bandiau o £5,000) £000 | (d) Cyfandaliad ar oedran pensiwn yn gysylltiedig â phensiwn cronodig ar 31 Mawrth (bandiau o £5,000) £000 | (e) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 1 Ebrill 2021 £000 | (f) Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 £000 | (g) Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod £000 | (h) Cyfraniad y cyflogwr at pensiwn yfranddeiliaid £000 |
|---|---|---|---|--|--|---|---|---|
| Ms. Helen Thomas, Prif Swyddog Gweithredol | *** | *** | 55-60 | 125-130 | *** | 1,052 | *** | *** |
| Ms. Claire Osmundsen-Little, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid | *** | *** | 10-15 | 0 | *** | 132 | *** | *** |
| Mr. Chris Darling, Ysgrifennydd y Bwrdd (1) | *** | *** | 20-25 | 30-35 | *** | 265 | *** | *** |
| Mr. Rhidian Hurle, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | *** | *** | 50-55 | 105-110 | *** | 989 | *** | *** |
| Mrs. Michelle Sell, Prif Swyddog Gweithredu | *** | *** | 30-35 | 60-65 | *** | 564 | *** | *** |
| Dr. Carwyn Lloyd-Jones, Cyfarwyddwr TGCh | *** | *** | 25-30 | 45-50 | *** | 465 | *** | *** |
| Mr. Gary Bullock, Cyfarwyddwr TGCh | *** | *** | 45-50 | 135-140 | *** | 0 | *** | *** |
| Mr. Meirion George, Cyfarwyddwr Cynorthwyol ADS | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A | N/A |

*** Nid yw ffigurau'r flwyddyn flaenorol sydd eu hangen ar gyfer y cyfrifiad hwn ar gael

(1) Mae Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod Chris Darling wedi'i ailddatgan

PERTHYNAS TÂL CYDNABYDDIAETH

Adroddir ar fanylion y Berthynas Tâl Cydnabyddiaeth yn ddiweddarach yn yr Adroddiad Atebolrwydd a nodyn 9.6.1 yn y Cyfrifon Blynnyddol. Perthynas tâl cydnabyddiaeth.

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr/gweithiwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a'r 25ain canradd, canolrif a'r 75fed canradd o dâl cydnabyddiaeth gweithlu'r sefydliad.

Yn y cyfnod gweithredol 2022-23, derbyniodd 0 gweithiwr dâl a oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y tâl uchaf.

Roedd y tâl ar gyfer pob aelod staff yn amrywio o £22,055 i £158,526.

| | 2022 -2023 | 2022 -2023 | 2022 -2023 |
|--|------------------------|-----------------|-----------------|
| | £000 | £000 | £000 |
| Cyfanswm cyflog a buddion | Prif Weithredwr | Cyflogai | Cymhareb |
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 152.5 | 33.7 | 4.5:1 |
| Cyflog canolrifol | 152.5 | 41.8 | 3.6:1 |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 152.5 | 49.9 | 3.1:1 |
| Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddion | | | |
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 152.5 | 33.4 | |
| Cyflog canolrifol | 152.5 | 41.2 | |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 152.5 | 49.3 | |

| Cyfanswm cyflog a buddion | Highest Paid Director | Employee | Ratio |
|--|------------------------------|-----------------|--------------|
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 157.5 | 33.7 | 4.7:1 |
| Cyflog canolrifol | 157.5 | 41.8 | 3.8:1 |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 157.5 | 49.9 | 3.2:1 |
| Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddion | | | |
| Cymhareb cyflog y 25ain canradd | 157.5 | 33.4 | |
| Cyflog canolrifol | 157.5 | 41.2 | |
| Cymhareb cyflog y 75ain canradd | 157.5 | 49.3 | |

| | 2021 -2022 | 2021 -2022 | 2021 -2022 |
|--|-----------------|-----------------|------------|
| | £000 | £000 | £000 |
| Prif Weithredwr | Cyflogai | Cymhareb | |
| 152.5 | 28.9 | 5.3:1 | |
| 152.5 | 38.5 | 4.0:1 | |
| 152.5 | 46.9 | 3.3:1 | |
| Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddion | | | |
| 152.5 | 27.8 | | |
| 152.5 | 34.2 | | |
| 152.5 | 45.8 | | |

| Highest Paid Director | Employee | Ratio |
|--|-----------------|--------------|
| 157.5 | 28.9 | 5.4:1 |
| 157.5 | 38.5 | 4.1:1 |
| 157.5 | 46.9 | 3.4:1 |
| Cydran cyflog y cyfanswm cyflog a buddion | | |
| 157.5 | 27.8 | |
| 157.5 | 34.2 | |
| 157.5 | 45.8 | |

The median pay ratio for the relevant financial year is consistent with the pay, reward and progression policies for the entity's employees taken as a whole.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

ADRODDIAD STAFF

NIFER YR UWCH STAFF

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 15 aelod ar y Bwrdd, gyda phump ohonynt yn Gyfarwyddwyr Gweithredol, tri Chyfarwyddwr a saith Aelod Annibynnol gan gynnwys Cadeirydd ac Is-Gadeirydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Bu symudiad o fewn y flwyddyn a nodir yn Atodiad 1.

CYFARTALEDD NIFEROEDD A CHYFANSODDIAD Y STAFF AR GYFER 2021-22 A 2022-23

TABL 1 DADANSODDIAD O NIFER Y STAFF FESUL GRŴP

| Grŵp Staff | Staff Parhaol | Staff ar Secondiad Mewnol | Staff Asiantaeth | Hyfforddai Arbenigol Cyflogwr Arweiniol Sengl (SLE) | Staff Eraill | Cyfanswm | Blwyddyn Ariannol |
|--|---------------|---------------------------|------------------|---|--------------|----------|-------------------|
| Staff Gweinyddol, Clercol ac Aelodau'r Bwrdd | 1016 | 5 | 9 | 0 | 0 | 1030 | 2022-23 |
| Staff Gweinyddol, Clercol ac Aelodau'r Bwrdd | 878 | 4 | 8 | 0 | 0 | 890 | 2021-22 |


TABL 2 DADANSODDIAD O RYWEDD Y BWRDD A'R CYFARWYDDWYR - DIWEDDARWYD AR 31/03/23

| | Benyw | Gwryw | Cyfanswm |
|--|----------|----------|-----------|
| Cadeirydd | | 1 | 1 |
| Prif Swyddog Gweithredol | 1 | | 1 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol | 1 | | 1 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth | | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau | | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol | | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | 1 | | 1 |
| Ysgrifennydd y Bwrdd | | 1 | 1 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Digidol Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl | 1 | | 1 |
| Aelod Annibynnol - Is-gadeirydd | 1 | | 1 |
| Aelod Annibynnol | 3 | 2 | 5 |
| Cyfanswm | 8 | 7 | 15 |

TABL 3 DADANSODDIAD O RYWEDD FESUL TÎM GWEITHREDOL A GWEITHWYR ERAILL

| Cyfansoddiad y Staff ar 31 Mawrth 2023 (cyfrif pennau) | Benyw | Gwryw |
|--|-------|-------|
| Uwch Staff (Tîm Gweithredol, Cyfarwyddwyr, Aelodau Annibynnol) | 8 | 7 |
| Gweithwyr Eraill | 458 | 649 |
| Staff Dros Dro | 5 | 6 |
| Holl staff | 471 | 662 |
| % Holl Staff | 42% | 58% |

TABL 4 DADANSODDIAD YN ÔL RHYWEDD AC YN ÔL BAND




DATA ABSENOLDEB OHERWYDD SALWCH

Mae'r Tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gweithio gyda'r Cyfarwyddiaethau i gefnogi a rheoli lles staff ac absenoldeb oherwydd salwch. Datblygir adroddiadau perfformiad misol ar gyfer Cyfarwyddiaethau a chydweithwyr Gweithredol i fonitro salwch. Mae ymyriadau i gefnogi rheolwyr wedi'u cysoni â rhesymau salwch a nodwyd er mwyn sicrhau ymyriadau amserol ac effeithiol i gefnogi staff.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cynnig Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol i staff a mynediad at Raglen Gymorth i Weithwyr, y gall aelodau teulu ei defnyddio am ddim hefyd. Y prif resymau dros absenoldeb oherwydd salwch ar draws y sefydliad yn ystod 2022/2023 oedd problemau'r frest ac anadlol (Covid-19). Mae Grŵp Iechyd a Lles Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cyfarfod bob deufis i sicrhau ein bod yn adolygu ein cymorth llesiant a gynigiwn i'n staff yn barhaus.

Mae tabl 5 isod yn dangos y lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod 2022/23. Y gyfradd gyfredol ar 31 Mawrth yw 3.00% sy'n meincnodi'n ffafriol iawn ar draws GIG Cymru.




FFIGUR 17 - ABSENOLDEB MISOL


FFIGUR 18 - NIFER Y DIWRNODAU GWAITH A GOLLWYD OHERWYDD SALWCH

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---------|---------|
| Diwrnodau a Gollwyd (Tymor Hir) | 6459 | 5426 |
| Diwrnodau a Gollwyd (Tymor Byr) | 4540 | 3258 |
| Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd: | 10999 | 8684 |
| Diwrnodau Gwaith Cyfartalog a Gollwyd | 10 | 9 |
| Cyfanswm y Staff a Gyflogwyd yn ystod cyfnod (Cyfrif Pennau): | 1133 | 964 |
| Absenoldeb (Cyfrif Pennau) | 610 | 444 |
| % y Staff heb unrhyw Absenoldeb oherwydd Salwch | 46.16% | 53.90% |

FFIGUR 18 - NIFER Y DIWRNODAU GWAITH A GOLLWYD OHERWYDD SALWCH



FFIGUR 17 - ABSENOLDEB MISOL



POLISIÂU A WEITHREDWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN ARIANNOL

Mae asesiad yn cael ei gynnal ar holl bolisiau a gweithdrefnau'r Awdurdod Iechyd Arbennig o'u heffaith ar gydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchoddedig, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gwneud cais i weithio yn yr Awdurdod Iechyd Arbennig neu sy'n cael eu cyflogi gan yr Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae'r holl bolisiau a gweithdrefnau ar gael trwy wefan Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

Mabwysiadwyd a gweithredwyd polisiau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn; maent fel a ganlyn:

- Gweithdrefn Polisi Lles ac Iechyd a Diogelwch
- Delio â Phryderon a Chwynion
- Polisi Dilysu
- Polisi ar Bolisiau
- Adolygu Gwerthuso a Datblygu
- Polisi Rheoli Gwastraff
- Polisi Gweithio Hybrid
- Polisi Adfer ar ôl Trychineb
- Polisi Diogelwch Dŵr

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

IECHYD A LLES, CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Datblygwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) newydd, a oedd yn ymgorffori ymrwymiadau gwrth-fwlio a gwrth-hiliaeth sefydliadol mewn partneriaeth â Chynrychiolwyr Ochr y Staff, Staff Iechyd a Gofal Digidol Cymru a rhanddeiliaid allanol allweddol ac fe'i cymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Darparodd hyn arwydd allweddol o bwysigrwydd cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd y cynllun yn cynnwys amrywiaeth o ymrwymiadau newydd i'w cyflawni dros y blynyddoedd i ddod. Fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bydd rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cael ei sefydlu ym mis Mai 2023 a fydd yn darparu allfa newydd ar gyfer mewnbwn a llais i weithwyr. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru wedi cyhoeddi Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Manylir ar yr ymrwymiadau allweddol isod:

| | | |
|--------------------------|--|---|
| Denu a Chadw | Denu'r bobl orau, dulliau newydd Cronfa o dalent cartref Cadw amrywiaeth - rhwydwaith EDI | Ailachrediad BS76000 2023 Ymgyrchoedd marchnadoedd recriwtio newydd arloesol ac amrywiol Dadansoddi data recriwtio |
| Gwrth-hiliaeth | Cofleidio gwahaniaethau Cydnabod - hyrwyddo manteision Diwylliant cynhwysol ac amrywiol | Rhwydwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fis Mai 2023 Aseidiadau Effaith Cydraddoldeb Monitro dadansoddi'r gweithlu |
| Gwrth-fwlio | Arweinyddiaeth-diwylliant dosturiol Ymddygiad sy'n adlewyrchu gwerthoedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru Teg, agored ac ymatebol | Dim goddefgarwch tuag at fwlio ac ymrwymiad i ddull partneriaeth Arolygon staff ac arolygon pwls Monitro trwy Ddatblygu Pobl a'r Sefydliad/ Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant/ Partneriaeth Undebau Llafur |
| Cyfleoedd i Ddatblygu | Sefydliad Dysgu Iechyd a Gofal Digidol Cymru Hygyrch a chefnogol i bawb Talent a Chynllunio Olyniaeth | Bwlch Talent/Sgiliau - monitro Tyfu eich Graddedigion/Prentisiaethau eich Hun Cynlluniau Gweithlu Strategol/Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi |

Mae iechyd a lles ein pobl yn parhau i fod yn hollbwysig. Yn 2022/23, llwyddwyd i gynnal y Safon Iechyd Corfforaethol Aur a chynhelir ymweliad ein Gwiriad Statws Manwl ar 29 Ebrill 2023 i gael ein hailachredu ar gyfer eleni. Fe wnaethom hefyd gadw ein hardystiad ar gyfer y BS76000 Gwerthfawrogi Pobl a BS76005 Gwerthfawrogi Pobl drwy Safonau Amrywiaeth a Chynhwysiant ym mis Hydref 2022.

Yn ystod 2022/23, canolbwyntiwyd yn benodol ar Les Ariannol lle crëwyd lle penodol ar SharePoint i gyfeirio staff at y nodweddion cymorth amrywiol sydd ar gael, a ddatblygwyd ar y cyd ag undebau llafur. Gwnaethpwyd hyn i gefnogi'r heriau costau byw a deimlwyd drwy gydol 2022.

Manteisiodd y sefydliad hefyd ar y cyfle yn ystod Cynhadledd Staff Iechyd a Gofal Digidol Cymru ym mis Ebrill 2022 i dynnu sylw at gefnogaeth allanol fel y Gwasanaeth Arian a Phensiynau yn ogystal ag arweinyddiaeth dosturiol.

Roedd adnoddau pellach hefyd ar gael i staff ar amrywiaeth o bynciau:

- Cyngor am weithio gartref / Pecyn cymorth gweithio hybrid
- Ystafell Lesiant Rithwir
- Nodweddion cymorth ariannol
- TENTALKS
- Sesiynau Briffio Staff dan arweiniad y Prif Weithredwr gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
- Cyfres o Fideos ar Lesiant
- Cynllun Seiclo i'r Gwaith
- Ymwybyddiaeth o Alcohol
- Cam-drin Domestig
- Gwybodaeth am Hamdden a Ffitrwydd
- Ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau
- Rhoi'r Gorau i Ysmygu
- Cymunedau Yammer
- Ap Too Good to Go
- Hyrwyddo'r Gymraeg

Bu Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn hyrwyddo ac yn cymryd rhan weithredol mewn nifer o ymgyrchoedd cenedlaethol, a rhestrir y rhain isod.

- Diwrnod Rhyngwladol y Dynion
- Diwrnod Rhyngwladol y Menywod
- Pensiynau
- Menopos
- Mis Hanes LHDTC+
- PRIDE
- Diwrnod Amser i Siarad (MIND)
- Paned Dydd Llun
- Stoptober
- Change4Life
- Amser i Newid
- Diwrnod Myfyrio Cenedlaethol

Adnoddau Cenedlaethol/Rhannu arfer gorau

- Cymorth mewn profedigaeth
- Cymorth i'r rhai sy'n ynysig ac yn unig
- SilverCloud / Canopi (am gymorth ar gyfer lles meddyliol)
- Gwybodaeth ac Adnoddau sy'n benodol i staff BAME
- Cysylltiadau ag Undebau Llafur a Sefydliadau Proffesiynol eraill
- Iechyd a Lles Cyffredinol
- Canllaw Sgwrs Lles
- Llinellau Cymorth

Ar draws Iechyd a Gofal Digidol Cymru, mae sawl Swyddog Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl hyfforddedig ar gael i siarad â staff yn gyfrinachol. Yn 2022 roedd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn falch o gyrraedd rownd derfynol gwobrau Iechyd Meddwl a Lles yn y Gweithle Cymru yn y categori Lles yn y Gweithle.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:33:59

ADRODD AR GYNLLUNIAU IAWNDAL ERAILL - PECYNNAU YMADAEL

Yn ystod 2022/23 cymeradwywyd pecynnau ymadael ar gyfer 1 aelod staff gyda gwerth o £36,848. Talwyd y costau ymadael yn 2022/2023, y flwyddyn ymadael. Talwyd y pecynnau hyn yn unol â thelerau ac amodau gwasanaeth cydnabyddedig y GIG/Polisi'r Awdurdod Iechyd Arbennig. Nid oedd yr un o'r pecynnau ymadael yr adroddwyd yn eu cylch yn ymwneud ag uwch swyddogion.

GWARIANT AR WASANAETHAU YMGYNGHOROL

Yn ystod 2022/2023, gwariodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig £0.742m o'i gyllid refeniw ar wasanaethau ymgynghori allanol. Mae gostyngiad bach yn y gwariant o £0.903m yn 2021/2022.

At ddiben y cyfrifon statudol, diffinnir ymgynghoriaeth fel aseiniadau â therfyn amser/ad-hoc sy'n ymwneud â darparu cyngor proffesiynol a strategol ac na ellir eu priodoli'n uniongyrchol i weithgareddau sy'n darparu cynhyrchion digidol.

Dyma rai enghreifftiau:

- Ffioedd Cyfrifeg a Masnachol
- Ffioedd cyfreithiol
- Ffioedd dylunio
- Ymgynghoriaeth a chyngor TG

GWARIANT AR STAFF DROS DRO

Yn ystod 2022/2023 gwariodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig £1.290 miliwn o'i gyllid refeniw ar staff dros dro. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr (asiantaeth) dros dro, rheolwyr dros dro a Chontractwyr Arbenigol. Mae gostyngiad mewn gwariant o 2021/2022 oherwydd y defnydd o staff asiantaeth yn y prosiect Trosglwyddo Canolfan Ddata yn 2021/2022.

SICRWYDD TRETH AR GYFER YMRWYMIADAU ODDI AR Y GYFLOGRES

Yn dilyn Adolygiad o'r Trefniadau Treth ar gyfer Penodiadau'r Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 23 Mai 2012, mae'n ofynnol i adrannau gyhoeddi gwybodaeth am eu swyddi sydd â thâl uchel a/neu uwch swyddi nad ydynt ar y gyflogres. Mae'r wybodaeth, sydd wedi'i chynnwys yn y tri thabl isod, yn cynnwys yr holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2023 ar gyfer y rhai sy'n ennill mwy na £245 y dydd ar gyfer yr Awdurdod Iechyd Arbennig craidd ac unrhyw sefydliadau a letyir.

TABL 1: YMRWYMIADAU AR GYFLOG UCHEL ODDI AR Y GYFLOGRES AR 31 MAWRTH 2023, YN ENNILL £245 Y DIWRNOD NEU FWY.

| | |
|---|----|
| Nifer yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2023 | 23 |
| O'r rhain, y nifer oedd yn bodoli: llai na blwyddyn | 10 |
| am rhwng 1 a 2 flynedd | 11 |
| am rhwng 2 a 3 blynedd | 2 |
| am rhwng 3 a 4 blynedd | 0 |
| am 4 blynedd neu fwy | 0 |

Mae'r holl ymrwymadau oddi ar y gyflogres, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad yn seiliedig ar risg ar ryw adeg, i weld p'un ai fod angen sicrwydd bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth, a lle bo angen, y gofynnwyd am y sicrwydd hwnnw.

TABL 2: POB GWEITHIWR ODDI AR Y GYFLOGRES AR GYFLOG UCHEL A GYFLOGWYD AR UNRHYW ADEG YN YSTOD Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023, YN ENNILL £245 Y DIWRNOD NEU FWY

| | |
|--|----|
| Nifer y gweithwyr dros dro oddi ar y gyflogres a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 | 10 |
| O'r rheiny... | |
| y rhai nad oeddent yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres | 0 |
| Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'u pennu fel rhai sydd o fewn cwmpas IR35 | 10 |
| Yn amodol ar ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac wedi'u pennu fel rhai y tu allan i gwmpas IR35 | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn | 0 |
| O'r rhain: Nifer y penodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad | 0 |

TABL 3: PENODIADAU NAD OEDDYNT AR Y GYFLOGRES AR GYFER AELODAU'R BWRDD, AC/NEU UWCH SWYDDOGION GYDA CHYFRIFOLDEB ARIANNOL SYLWEDDOL, RHWNG 1 EBRILL 2022 A 31 MAWRTH 2023.

| | |
|--|---|
| Nifer y penodiadau nad oeddent ar y gyflogres ar gyfer aelodau'r bwrdd, ac/neu uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | 0 |
| Nifer yr unigolion sydd wedi cael eu hystyried yn "aelodau'r bwrdd, ac/neu'n uwch swyddogion, gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigur hwn gynnwys penodiadau ar, ac oddi ar y gyflogres. | 0 |

DATGANIAD SICRWYDD

Cadarnhaf nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol yn yr Adroddiad Blynnyddol nad yw Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni. Fel Prif Weithredwr, rwyf wedi cymryd pob cam i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.



Helen Thomas

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru

27ed Gorffennaf 2023



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd a Gofal
Digidol Cymru
Digital Health
and Care Wales

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO SENEDD CYMRU

AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

RHEOLEIDD-DRA'R GWARIANT

Rheoleidd-dra yw'r gofyniad i ymdrin â phob eitem o wariant a derbynebaw yn unol â'r ddeddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdod dirprwyedig cymwys a rheolau Cyfrifyddu'r Llywodraeth. Mae Bwrdd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn sicrhau bod y cyllid a ddarperir gan Weinidogion Cymru wedi cael ei wario at y dibenion a fwriadwyd gan Weinidogion Cymru a bod yr adnoddau a awdurdodwyd gan Weinidogion Cymru i'w defnyddio wedi cael eu defnyddio at y dibenion yr awdurdodwyd y defnydd ar eu cyfer. Y Prif Weithredwr yw'r Swyddog Atebol ac mae'n sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â gofynion deddfwriaethol a Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Trysorlys. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Prif Weithredwr:

- gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol, a chymhwyso polisiau cyfrifyddu priodol yn gyson
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol
- datgan a ddilynwyd a datgelwyd safonau cyfrifyddu cymwys ac esbonio unrhyw wriadau perthnasol oddi wrthynt; ac

eu paratoi ar sail busnes gweithredol ar y rhagdybiaeth y bydd gwasanaethau'r Awdurdod Iechyd Arbennig yn parhau i weithredu.

Yn ystod 2022/23, bu gwariant Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn rheolaidd.

FFIOEDD A CHOSTAU

Pan fydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymgymryd â gweithgaredd nad yw'n cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cael incwm i dalu ei gostau. Cyhoeddir rhagor o fanylion am yr incwm a dderbyniwyd yn y cyfrifon blynyddol. Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r dyraniad costau a'r gofynion codi tâl a nodir yng nghanllaw Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

RHWYMEDIGAETHAU DIGWYDDIADOL O BELL

Rhwymedigaethau digwyddiadol o bell yw'r rhwymedigaethau hynny nad ydynt yn cael eu cydnabod fel traul na rhwymedigaeth wrth gefn oherwydd annhebygrwydd tâl canlyniadol yn erbyn Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Isod ceir manylion y rhwymedigaethau digwyddiadol o bell ar 31 Mawrth 2023.

| | 2022- 2023 |
|-------------|------------|
| Gwarantau | Dim |
| Indemniadau | Dim |

TYSTYSGRIF ARCHWILIO AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU

BARN AR Y DATGANIADAU ARIANNOL

Yr wyf yn ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod, y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'i gost gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

BARN AM REOLEIDD-DRA

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

SAIL Y FARN

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm tystysgrif sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barnau.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

CASGLIADAU SY’N YMWNEUD Â BUSNES GWEITHREDOL

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r dystysgrif hon.

Caiff y sail gyfrifyddu busnes gweithredol ar gyfer Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru ei mabwysiadu gan ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle disgwylir y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu'n parhau yn y dyfodol.

GWYBODAETH ARALL

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno. Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

ADRODDIAD AR OFYNION ERAILL

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol a gaiff ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a chyfarwyddiadau a wnaed dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn yr Adroddiadau Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

MATERION Y CYFLWYNAF ADRODDIAD ARNYNT DRWY EITHRIAD

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am yr Awdurdod a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi canfod unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Perfformiad, yr Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff ei harchwilio yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- nid yw gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EF neu Weinidogion Cymru mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth ariannol a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- nid yw rhai datgeliadau ynglŷn â chydabyddiaeth ariannol a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EF wedi'u gwneud neu nid yw'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gaiff eu harchwilio'n gyson â'r cofnodion a ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu'n adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

CYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR A'R PRIF WEITHREDWR AM Y DATGANIADAU ARIANNOL

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am:

- gynnal cofnodion cyfrifyddu digonol;
- paratoi'r datganiadau ariannol a'r adroddiad blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol ac am fod wedi'u hargyhoeddi eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- y rheolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr i'w gwneud yn bosibl paratoi datganiadau ariannol heb gamddatganiad perthnasol, boed oherwydd twyll neu wall; ac
- asesu gallu'r Awdurdod i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes gweithredol a defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn disgwyl na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

Tolley, Laura
21/09/2023 12:23:59

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD ARIANNOL HEB EI ARCHWILIO

Mae'r Awdurdod Iechyd Arbennig wedi cwblhau ei ail flwyddyn o weithredu ers trosglwyddo o fod yn gorff a gynhelir o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre i'w Awdurdod Iechyd Arbennig statudol ei hun, ac o ganlyniad mae'n ofynnol iddo baratoi cyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 a blynyddoedd ariannol dilynol.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r sefydliad wedi ymgorffori'r systemau ariannol, llywodraethu ac adrodd a'r rheolaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion statudol ac anghenion busnes o fewn cyd-destun heriol y pandemig COVID-19. Arweiniodd datrysiadau digidol a oedd yn cefnogi'r ymateb i'r pandemig (systemau amserlennu Profi, Orlhain ac Amddiffyn ac Imiwneiddio Torfol) at ofynion ychwanegol o £9.128m mewn refeniw. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw effaith ariannol ychwanegol ar allu'r sefydliad i adennill costau.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn arwain y gwaith o gyflawni nifer o fentrau digidol a gefnogir gan Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2022/23 derbyniodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig £31.057 miliwn mewn cyllid refeniw a £9.407 miliwn mewn cyfalaf. Yn ystod y flwyddyn mae Rhwydwaith Gwybodeg Labordai Cymru (LINC) a Rhaglen Gaffael System Gwybodeg Radioleg (RISP) yn trosglwyddo i drefniadau rheoli Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd yr effaith ariannol yn golygu trosglwyddiad ased cyfalaf o £3.448 miliwn ar gyfer LINC a £0.191 miliwn ar gyfer RISP. O safbwynt refeniw, derbyniodd y sefydliad gyllid DPIF o £0.169 miiwn (wedi'i ategu gan gyfraniadau GIG o £0.294 miliwn) a RISP £0.025 miliwn (wedi'i ategu gan gyfraniadau o £0.097 miliwn gan sefydliad GIG).

Bydd y pwyslais yn y dyfodol yn parhau ar ddarparu gwybodaeth a datrysiadau digidol or radd flaenaf i gefnogi gofal cleifion a gwasanaethau dinasyddion effeithiol, a bydd rhai yn gofyn am newidiadau mewn technoleg (fel trosglwyddo i wasanaethau cwmwl yn gyntaf) a fydd yn golygu bod angen arian refeniw ychwanegol er mwyn i'r sefydliad gyrraedd ei dargedau ariannol.

TARGEDAU ARIANNOL

Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae dyletswyddau ariannol statudol Awdurdodau Iechyd Arbennig wedi'u hamlinellu yn adran 172 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

- Dyletswyddau Ariannol Statudol – Dyletswydd Ariannol Gyntaf

Mae adran 172(1) yn nodi'r hyn y cyfeirir ati fel y 'Ddyletswydd Ariannol Gyntaf' – dyletswydd i sicrhau nad yw gwariant Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn fwy na chyfanred y cyllid a ddyrennir iddo ar gyfer blwyddyn ariannol. O dan y pwerau cyfarwyddo yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) adran 172(6), eglurodd WHC/2019/004 fod y ddyletswydd ariannol statudol flynyddol yn cael ei gosod ar wahân ar gyfer dyraniadau adnoddau refeniw a chyfalaf. Roedd yr endid yn segur at ddibenion cyfrifyddu, ac ysgwyddwyd gwariant gan endidau rhagflaenol ar gyfer darparu gwasanaethau hyd at y dyddiad trosglwyddo, neu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau sefydlu. Dosbarthwyd dyraniadau adnoddau Refeniw a Chyfalaf i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 a dyma oedd sail y cyfrifon statudol a'r cymharydd/llynell sylfaen ar gyfer dadansoddi tueddiadau yn 2023/24.

Dyletswyddau Ariannol Gweinyddol – Ail Ddyletswydd Ariannol

Yr 'Ail Ddyletswydd Ariannol' ar gyrff y GIG yng Nghymru yw'r ddyletswydd i baratoi cynllun ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt. Rhaid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru baratoi cynllun blwyddyn, ond nid oes angen cymeradwyaeth Gweinidogol ar gyfer hyn.

PERFFORMIAD ARIANNOL

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn adrodd am gyflawni'r holl dargedau ariannol a osodwyd

- Dyletswydd adennill costau - Mae gofyniad blynyddol ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru i gyflawni sefyllfa gytbwys ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y terfynau adnoddau a chyfalaf a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Adroddodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig warged refeniw o £0.073 miliwn (0.05% o gyfanswm y dyraniad) a thanwariant cyfalaf o £0.088 miliwn (0.48% o gyfanswm y dyraniad) ar gyfer y flwyddyn ariannol gan gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol i fantoli'r gyllideb.
- Cyflwynodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig Gynllun Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2022/2023 yn unol â Fframwaith Cynllunio GIG Cymru.
- Taliadau credydwyr – Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Iechyd Arbennig dalu 95% o nifer y biliau nad ydynt yn rhai'r GIG o fewn 30 diwrnod o dderbyn y nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag a ddaw yn ddiweddaraf). Mae'r Awdurdod Iechyd Arbennig wedi cyrraedd y targed hwn, gan dalu 98% o anfonebau o fewn yr amserlen ofynnol.

OTHER AUDITOR'S RESPONSIBILITIES

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwysio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i drafod, ymhlith materion eraill, gwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a ganfyddir gennyf yn ystod fy archwiliad.

ADRODDIAD

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Adrian Crompton 1 Cwr y Ddinas

Archwilydd Cyffredinol Cymru Stryd Tyndall

28 Gorffennaf 2023 Caerdydd

CF10 4BZ

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD ARIANNOL HEB EI ARCHWILIO

Mae'r Awdurdod Iechyd Arbennig wedi cwblhau ei ail flwyddyn o weithredu ers trosglwyddo o fod yn gorff a gynhelir o fewn Ymddiriedolaeth GIG Felindre i'w Awdurdod Iechyd Arbennig statudol ei hun, ac o ganlyniad mae'n ofynnol iddo baratoi cyfrifon ar gyfer y cyfnod ariannol 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 a blynyddoedd ariannol dilynol.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r sefydliad wedi ymgorffori'r systemau ariannol, llywodraethu ac adrodd a'r rheolaethau sydd eu hangen i fodloni gofynion statudol ac anghenion busnes o fewn cyd-destun heriol y pandemig COVID-19. Arweiniodd datrysiadau digidol a oedd yn cefnogi'r ymateb i'r pandemig (systemau amserlennu Profi, Olrhain ac Amddiffyn ac Imiwneiddio Torfol) at ofynion ychwanegol o £9.128m mewn refeniw. Cafwyd cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw effaith ariannol ychwanegol ar allu'r sefydliad i adennill costau.

Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru hefyd yn arwain y gwaith o gyflawni nifer o fentrau digidol a gefnogir gan Gronfa Buddsoddi Blaenoriaethau Digidol Llywodraeth Cymru. Ar gyfer 2022/23 derbyniodd yr Awdurdod Iechyd Arbennig £31.057 miliwn mewn cyllid refeniw a £9.407 miliwn mewn cyfalaf. Yn ystod y flwyddyn mae Rhwydwaith Gwybodeg Labordai Cymru (LINC) a Rhaglen Gaffael System Gwybodeg Radioleg (RISP) yn trosglwyddo i drefniadau rheoli Iechyd a Gofal Digidol Cymru. Roedd yr effaith ariannol yn golygu trosglwyddiad ased cyfalaf o £3.448 miliwn ar gyfer LINC a £0.191 miliwn ar gyfer RISP. O safbwynt refeniw, derbyniodd y sefydliad gyllid DPIP o £0.169 miiwn (wedi'i ategu gan gyfraniadau GIG o £0.294 miliwn) a RISP £0.025 miliwn (wedi'i ategu gan gyfraniadau o £0.097 miliwn gan sefydliad GIG).

Bydd y pwyslais yn y dyfodol yn parhau ar ddarparu gwybodaeth a datrysiadau digidol o'r radd flaenaf i gefnogi gofal cleifion a gwasanaethau dinasyddion effeithiol, a bydd rhai yn gofyn am newidiadau mewn technoleg (fel trosglwyddo i wasanaethau

cwmwl yn gyntaf) a fydd yn golygu bod angen arian refeniw ychwanegol er mwyn i'r sefydliad gyrraedd ei dargedau ariannol.

TARGEDAU ARIANNOL

Sefydlwyd Iechyd a Gofal Digidol Cymru fel Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae dyletswyddau ariannol statudol Awdurdodau Iechyd Arbennig wedi'u hamlinellu yn adran 172 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006.

- Dyletswyddau Ariannol Statudol – Dyletswydd Ariannol Gyntaf

Mae adran 172(1) yn nodi'r hyn y cyfeirir ati fel y 'Ddyletswydd Ariannol Gyntaf' – dyletswydd i sicrhau nad yw gwariant Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn fwy na chyfanred y cyllid a ddyrennir iddo ar gyfer blwyddyn ariannol. O dan y pwerau cyfarwyddo yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) adran 172(6), eglurodd WHC/2019/004 fod y ddyletswydd ariannol statudol flynyddol yn cael ei gosod ar wahân ar gyfer dyraniadau adnoddau refeniw a chyfalaf. Roedd yr endid yn segur at ddibenion cyfrifyddu, ac ysgwyddwyd gwariant gan endidau rhagflaenol ar gyfer darparu gwasanaethau hyd at y dyddiad trosglwyddo, neu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer costau sefydlu. Dosbarthwyd dyraniadau adnoddau Refeniw a Chyfalaf i Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2023 a dyma oedd sail y cyfrifon statudol a'r cymharydd/ llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi tueddiadau yn 2023/24.

Dyletswyddau Ariannol Gweinyddol – Ail Ddyletswydd Ariannol

Yr 'Ail Ddyletswydd Ariannol' ar gyrff y GIG yng Nghymru yw'r ddyletswydd i baratoi cynllun ac i'r cynllun hwnnw gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru a'i gymeradwyo ganddynt. Rhaid i Iechyd a Gofal Digidol Cymru baratoi cynllun blwyddyn, ond nid oes angen cymeradwyaeth Gweinidogol ar gyfer hyn.

PERFFORMIAD ARIANNOL

